# Pecyn Cymorth Addysg ar gyfer Plant Mudol sydd newydd gyrraedd Cymru



CLlLC
WLGA

Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru
Wales Strategic Migration Partnership

# Cynnwys


| Pennod | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Rhagair | 3 |
| 2 | Cyflwyniad – Y Cyd-destun Cyfredol | 5 |
| 3 | Cynllunio a Pharatoi | 32 |
| 4 | Gofal Bugeiliol a Lles | 44 |
| 5 | Asesu ac ADY | 54 |
| 6 | Caffael Iaith | 75 |
| 7 | Dilyn y Cwricwlwm | 79 |
| 8 | Amrywiaeth ar draws y Cwricwlwm | 84 |
| 9 | Strategaethau Addysgu ar gyfer Disgyblion Newydd sy'n Dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol | 92 |
| 10 | Diogelu Newydd-ddyfodiad | 99 |
| 11 | Straen, Trawma, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod | 125 |
| 12 | Astudiaethau Achos | 145 |
| 13 | Gwefannau Defnyddiol | 162 |

# **Pennod 1: Rhagair**

Yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17, gwireddwyd y syniad o ddod ag arbenigedd ynghyd mewn addysgu a dysgu Cymraeg/Saesneg fel Iaith Ychwanegol (CIY/SIY), a hynny ar ffurf Pecyn Cymorth Addysg i gefnogi plant oedd newydd gyrraedd Cymru fel ffoaduriaid drwy'r Rhaglen Adsefydlu Unigolion Diamddiffyn o Syria a'r Cynllun Adsefydlu Plant Diamddiffyn.

Datblygwyd y Pecyn Cymorth yn dilyn trafodaeth gyda **Phartneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru** (WSMP) am sut y gallai'r awdurdodau addysg lleol hynny gronni a lledaenu eu gwybodaeth, eu harbenigedd a'u harferion gorau i helpu awdurdodau addysg mewn ardaloedd eraill yng Nghymru, a oedd yn barod i gymryd rhan yn y Rhaglenni Adsefydlu, ond a oedd yn pryderu am y rhwystrau i ddysgu a allai godi.

### **Y Wybodaeth Ddiweddaraf**

Yn anffodus, fel y dywedodd UNICEF, ***"Yn 2020, cyrhaeddodd nifer yr ymfudwyr rhyngwladol 281 miliwn o bobl; roedd 36 miliwn ohonyn nhw'n blant."*** O ganlyniad i wrthdaro a gorthrwm gwleidyddol cynyddol, rydym bellach yn cefnogi'r plant hynny sydd wedi'u dadleoli gan y rhyfel rhwng Rwsia a Wcráin, a'r rheiny a ffodd o Afghanistan ar ôl i'r Taliban feddiannu'r wlad ym mis Awst 2021. Rydym hefyd yn gweld plant y mae eu rhieni wedi gadael Hong Kong dan Gynllun Fisa BN(O) Hong Kong, a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU **mewn ymateb i'r cyfreithiau diogelwch llym a osododd senedd Tsieina ar Hong Kong yn 2020**. O ystyried demograffeg newydd y boblogaeth ffoaduriaid yng Nghymru, penderfynodd WSMP ddiweddaru'r Pecyn Cymorth Addysg i gefnogi'r plant hynny sydd newydd gyrraedd Cymru, er mwyn helpu eu cynnwys yn ein cymunedau a'n hysgolion drwy gael gwared â rhwystrau i ddysgu, cefnogi caffael iaith a chydnabod y teithiau a'r newidiadau bywyd y bu'n rhaid iddynt eu dioddef i'n cyrraedd ni.

**Mae'r Pecyn Cymorth newydd hefyd yn cynnig cyngor ychwanegol ar Drawma, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'r rhaglen drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ac yn tynnu sylw at amrywiaeth o adnoddau**

**newydd sydd bellach ar gael.** Mae llawer o'r arferion da o'r pecyn cymorth diwethaf wedi'u cadw.

Anfonwyd y DVD ***"Un Gymru, Sawl Llais"*** am ddim i bob gwasanaeth addysg yng Nghymru, ac mae'n dal i fod yn enghraifft o arfer da mewn CIY a SIY.

Rwy'n ddiolchgar i'r unigolion a'r gwasanaethau canlynol a ddaeth ynghyd i helpu gyda'r diweddariad:

- Grŵp yr Awdurdodau Lleol ar gyfer Cyflawniad Disgyblion o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol (MEALA).
- MEAS Sir Gâr a Victoria Owens.
- Athrawon a chymorthyddion addysgu dwyieithog Gwasanaethau Addysg Ethnig Lleiafrifol Gwent (GEMS), yn enwedig Pennaeth y Gwasanaeth, Emma Keen, a ddatblygodd y Rhwydwaith Plant y mae Mewnfudo wedi Effeithio Arnynt, sydd ar gael ar HWB: https://hwb.gov.wales/go/ndfqdp.
  Anogir gwasanaethau CIY/SIY ledled Cymru i rannu adnoddau ac arferion gorau ar y rhwydwaith hwn drwy gysylltu ag Emma: Emma.keen@newport.gov.uk
- WSMP am gyllido'r prosiect ac am eu cymorth gyda'r cynnwys, yn enwedig Anne Hubbard, Michael Smith ac Erica Williams.

Hyderaf y bydd y pecyn cymorth hwn yn adnodd defnyddiol i chi, ac os hoffech chi unrhyw wybodaeth ychwanegol, mae croeso i chi gysylltu â mi,

Tracey Pead: TPead@carmarthenshire.gov.uk

ac/neu WSMP: WSMPcentraladmin@wlga.gov.uk

Chwefror 2023

**Gwefannau Allweddol:**

**Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru**

**Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru**




# Pennod 2: Cyflwyniad – Y Cyd-destun Cyfredol



## Gwybodaeth Gyd-destunol

## Plant y mae Mewnfudo wedi Effeithio Arnynt

Bydd y bennod hon yn edrych ar blant sydd newydd gyrraedd o:

- Wcráin,
- Affganistan, a
- Hong Kong.

Bydd pob un o'r grwpiau hyn o blant yn cyrraedd ein hysgolion wedi cael profiadau gwahanol a allai fod yn gythryblus ac yn drawmatig.

Byddwn hefyd yn edrych ar amrywiol gynlluniau Swyddfa Gartref Llywodraeth y DU sy'n adsefydlu'r plant hyn a'u teuluoedd yng Nghymru ac yn hwyluso mynediad i'n system ysgolion.

Yn ôl Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (data UNHCR), erbyn diwedd 2021, roedd nifer y bobl a oedd wedi'u dadleoli ar draws ffiniau a gafodd eu lletya mewn gwledydd Ewropeaidd wedi cyrraedd dros 7 miliwn, sef cynnydd o 3 y cant ers y flwyddyn flaenorol.

Yn y flwyddyn hyd at Hydref 2015, roedd mwy na 644,000 o bobl wedi cyrraedd Ewrop o wledydd fel Syria, Eritrea a Libya. Mae rhai ffoaduriaid yn cyrraedd dan raglenni adsefydlu Llywodraeth y DU a gall eraill, heb lwybrau diogel na chyfreithiol ar gael iddynt, deithio i Ewrop a chyrraedd y DU dros y môr. Yn 2020, daliwyd tua 8,500 o bobl yn ceisio dod i'r DU yn ddirgel ar gychod bychain - cynnydd ers nifer 2019, sef tua 1,800. O'r

8,500 o bobl, roedd 74% ohonynt rhwng 18 a 39 oed ac roedd 87% ohonynt yn ddynion (Migration Observatory).

Y llynedd, cafodd 3,231 o bobl eu cofnodi'n farw neu ar goll ar y môr ar lwybrau Môr y Canoldir a gogledd-orllewin Affrica.

Nid y DU yw'r unig wlad sy'n delio ag ymfudwyr yn cyrraedd ar gychod. Mae Gwlad Groeg, yr Eidal a Sbaen i gyd wedi gweld llawer mwy o bobl o'r fath yn cyrraedd yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r Cenhedloedd Unedig (CU) yn adrodd bod tua 34,000 o bobl wedi cyrraedd yr Eidal ar y môr, 40,000 wedi cyrraedd Sbaen a 10,000 wedi cyrraedd Gwlad Groeg yn 2020, o'i gymharu â 8,500 yn y DU.

Yn ogystal â nifer cynyddol y marwolaethau ar y môr, mae'r UNHCR yn parhau i bryderu bod marwolaethau a chamdriniaeth hefyd yn gyffredin ar hyd llwybrau dros y tir, yn fwyaf cyffredin yn y gwledydd gwreiddiol a'r rhai y teithir drwyddynt, gan gynnwys Eritrea, Somalia, Djibouti, Ethiopia, Sudan a Libya - lle'r adroddir am y mwyafrif llethol o'r risgiau a'r digwyddiadau (UNHCR).

Mae'r UNHCR yn adrodd bod cynnydd yn yr ymfudo i Ewrop wedi ysgogi cynnydd mewn hiliaeth a senoffobia. Gall profiadau plant mudol yn eu gwlad wreiddiol, ar deithiau i'r DU a'u profiadau o hiliaeth a senoffobia oll effeithio ar eu cynnydd drwy'r amgylcheddau addysg a dysgu.

### Newydd-ddyfodiaid

- Newydd-ddyfodiaid yw'r disgyblion sy'n cael eu derbyn i'r ysgol ar adegau nad ydynt fel arfer yn ymuno.
- Gall newydd-ddyfodiaid fod yn ddisgyblion o unrhyw gefndir ethnig neu ieithyddol.

### Ceiswyr lloches

- Ceiswyr lloches yw'r bobl sydd wedi croesi ffin ryngwladol ac sy'n ceisio diogelwch neu amddiffyniad (cydnabyddiaeth fel ffoadur) mewn gwlad arall.
- Bydd ceisiwr lloches angen i'r Swyddfa Gartref wneud penderfyniad ar eu cais am amddiffyniad.


## Ceisiadau am loches

Cafwyd 37,562 o geisiadau am loches (a oedd yn ymwneud â 44,190 o bobl) yn y DU yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2021. Mae hyn 18% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol ac yn uwch nag anterth yr argyfwng Ymfudo Ewropeaidd yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2016 (36,546). Dyma nifer uchaf y ceisiadau am loches yn y DU ers y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2004 (39,746), ond mae'n llai na hanner lefel yr anterth blaenorol yn 2022 (84,132 o geisiadau), a ysgogwyd yn rhannol gan weithredu milwrol, gwrthdaro neu anniddigrwydd gwleidyddol mewn gwledydd fel Irac, Affganistan, Zimbabwe a Somalia.

Cafwyd 1,974 o geisiadau am loches gan **wladolion o Affganistan** yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2021, sef cynnydd o 39% ers y flwyddyn flaenorol.

Dyma ddolen i gael rhagor o wybodaeth am pam y gallai pobl fod yn dewis croesi'r sianel:

[5 reasons people cross the Channel (redcross.org.uk)]




## Pwy yw plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches?

- Plant dan 18 oed sydd y tu allan i'w gwlad wreiddiol, *nad* ydynt yng nghwmni perthynas agos/gwarchodwr cyfreithiol.
- Prif wledydd gwreiddiol: Affganistan, Sudan, Iran, Albania a Syria (Cyngor Ffoaduriaid 2022).

Yn 2018, y DU gafodd y trydydd nifer uchaf o geisiadau am loches gan blant ar eu pennau eu hunain yn yr UE, gyda 15% o'r holl geisiadau gan blant ar eu pennau eu hunain ledled Ewrop.

Mae'r DU wedi caniatáu i 41,000 o blant gael eu hamddiffyn yma ers 2010. Yn y flwyddyn ddiwethaf, bu i'r DU amddiffyn neu roi mathau eraill o ganiatâd i aros i dros 7,500 o blant.

## Ffoaduriaid

- Yn ôl UNHCR, mae ffoadur yn rhywun sydd wedi gorfod gadael eu gwlad:


  *'Oherwydd bod sail dda i'w hofnau o gael eu herlid oherwydd rhesymau hil, crefydd, cenedligrwydd, aelodaeth grŵp cymdeithasol penodol neu farn wleidyddol.'*

## Ymfudwyr economaidd

Mae ymfudwyr economaidd yn unigolion sy'n mudo o un rhanbarth i'r nesaf yn chwilio am well safon bywyd, oherwydd bod yr amodau neu'r cyfleoedd am waith yn rhanbarth yr ymfudwr ei hun yn annigonol. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn defnyddio'r term 'gweithiwr mudol'.

## Plant Mudol

Cyfeirir at blant ceiswyr lloches, ffoaduriaid, gweithwyr mudol ac ymfudwyr eraill, yn ogystal â phlant ar eu pennau eu hunain, fel 'plant mudol'.



Words matter - summary table

| | refugees | migrants | asylum-seekers | internally displaced people |
|---|---|---|---|---|
| WHERE? | OUTSIDE HIS/HER COUNTRY | OUTSIDE HIS/HER COUNTRY | OUTSIDE HIS/HER COUNTRY | INSIDE HIS/HER COUNTRY |
| WHY? | FLEEING DANGER (WAR, PERSECUTION) | FLEEING FOR OTHER REASONS | REASONS FOR FLEEING NOT CLEAR YET | FLEEING DANGER (WAR, PERSECUTION) |
| RETURN? | IN DANGER IF RETURNED | COULD RETURN (NO IMMEDIATE DANGER) | DEPENDS ON OUTCOME PROCEDURE | IN DANGER IF RETURNED |
| RIGHTS? | CANNOT BE RETURNED | DEPENDS ON MIGRATION LAWS | DEPENDS ON OUTCOME PROCEDURE | STILL UNDER LOCAL LAWS / AUTHORITY |

Teaching About Refugees

UNHCR, the UN Refugee Agency, protects people forced to flee their homes because of conflict and persecution. We save lives, protect rights and help build better futures.

© 2021 UNHCR - More teaching materials on unhcr.org/teaching-about-refugees

## **Ffoaduriaid o Wcráin**



Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddwyd fod Cymru yn bwriadu gofalu am o leiaf 1,000 o ffoaduriaid o Wcráin, yn ôl Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford.

Dywedodd Mr Drakeford ei bod yn amhosib nodi cyfanswm y ffoaduriaid y gallai Cymru eu cymryd. Dywedodd ei fod eisiau i Gymru fod yn "genedl noddfa" a bod cynlluniau ar y gweill i dderbyn y "don gyntaf".

Bydd Cynghorau yn ganolog i'r gwaith o helpu teuluoedd ymgartrefu yn eu cymunedau a defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, iechyd cyhoeddus a chymorth arall fel cwnsela ar gyfer trawma.

Ynghyd â phrif weinidog Yr Alban, mae Mr Drakeford wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i gadarnhau ei ymrwymiad i gyfrannu at ei chynllun nawdd cymunedol fel Uwch-noddwr.

Bydd Cynllun Cartrefi i Wcráin Llywodraeth y DU yn caniatáu i unigolion, elusennau, grwpiau cymunedol a busnesau yn y DU ddod â phobl o Wcráin i fan diogel – gan gynnwys y rhai heb unrhyw gysylltiadau teuluol â'r DU.

Bydd Cam Un y cynllun yn gadael i noddwyr yn y DU enwebu unigolyn neu deulu a enwyd o Wcráin i ddod i aros gyda nhw yn eu cartref neu mewn eiddo ar wahân. Mae elusennau, grwpiau ffydd a sefydliadau cymunedol lleol hefyd yn helpu hwyluso cysylltiadau rhwng unigolion, a hynny ar gyfer darpar noddwyr sydd heb gyswllt a enwyd. *Amcangyfrifir bod 2/3 o blant Wcráin wedi cael eu dadleoli.*

***Bydd trigolion Wcráin sy'n cyrraedd y DU dan y cynllun hwn yn cael caniatâd i aros am 3 blynedd, gyda'r hawl i weithio, cael budd-daliadau a defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar y gwefannau canlynol:***

[***Cartrefi i Wcráin: Canllawiau i Awdurdodau Lleol***]

[***Cartrefi i Wcráin: Canllawiau i Letywyr a Noddwyr***]

## Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan

Ar 6 Ionawr 2022, cafodd Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS) ei agor yn ffurfiol gan y DU.

Bydd y cynllun yn blaenoriaethu:

- y rhai sydd wedi helpu gydag ymdrechion y DU yn Affganistan ac wedi amddiffyn gwerthoedd megis democratiaeth, hawliau merched, rhyddid i lefaru a threfn y gyfraith.
- pobl ddiamddiffyn, gan gynnwys merched a genethod mewn perygl ac aelodau o grwpiau lleiafrifol mewn perygl (gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig a chrefyddol a LHDTC+).

Bydd y llywodraeth yn adsefydlu dros 5,000 o bobl yn y flwyddyn gyntaf a hyd at 20,000 dros y blynyddoedd nesaf, gan gydweithio ag Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (UNHCR) i ganfod y rheiny sydd angen cymorth.

Mae'r cynllun hwn yn cael ei gynnal yn ychwanegol at gynllun Y Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid (ARAP), sydd eisoes wedi sefydlu miloedd o Affganiaid sydd wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU, a'u teuluoedd. Mae ARAP yn gynllun ar wahân i ACRS, ac yn cynnig adleoli gwladolion Affganistan sydd wedi gweithio gyda, neu ochr yn ochr â llywodraeth y DU, ac sy'n bodloni meini prawf ARAP, yn y DU.

Bydd unrhyw un sy'n cael ei adsefydlu drwy ACRS yn cael caniatâd amhenodol i aros (ILR) yn y DU ac yn cael gwneud cais am **ddinasyddiaeth Brydeinig ar ôl 5 mlynedd** yn y DU dan y rheolau presennol.

Nid oes proses ymgeisio ar gyfer ACRS. Bydd unigolion yn cael eu blaenoriaethu a'u hatgyfeirio i gael eu hadsefydlu mewn un o dair ffordd:

1. **Unigolion diamddiffyn ac mewn perygl** a gyrhaeddodd y DU dan y rhaglen fudo fydd y cyntaf i gael eu sefydlu dan ACRS. Bydd unigolion cymwys a hysbyswyd gan Lywodraeth y DU eu bod wedi cael eu galw ymlaen neu eu hawdurdodi'n benodol i fudo, ond a fethodd â chael lle ar awyren, hefyd yn cael cynnig lle dan y cynllun os byddant yn dod i'r DU wedyn. Mae'r teuluoedd cyntaf o Affganistan wedi cael ILR dan y cynllun.
2. Yn ail, o wanwyn 2022 ymlaen, bydd yr UNHCR yn atgyfeirio **ffoaduriaid sydd angen eu hadsefydlu sydd wedi ffoi o Affganistan**. Mae gan yr UNHCR y mandad byd-eang i ddarparu amddiffyniad a chymorth dyngarol rhyngwladol i ffoaduriaid. Byddwn yn parhau i dderbyn atgyfeiriadau o'r fath i'r cynllun yn y blynyddoedd i ddod.
3. Bydd y trydydd llwybr atgyfeirio yn adleoli'r unigolion hynny mewn perygl a gefnogodd ymgyrch y DU a'r gymuned ryngwladol yn Affganistan, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n arbennig o ddiamddiffyn, fel **merched a genethod mewn perygl ac aelodau grwpiau lleiafrifol**. Ym mlwyddyn gyntaf y llwybr hwn, bydd y llywodraeth yn cynnig lleoedd ACRS i'r grwpiau sy'n wynebu'r perygl mwyaf. Y tu hwnt i'r flwyddyn gyntaf, bydd y llywodraeth yn gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol a chyrff anllywodraethol i groesawu grwpiau ehangach o Affganiaid mewn perygl.



Bydd ACRS yn canolbwyntio ar y bobl hynny sy'n dal i fod yn Affganistan neu'r cyffiniau, yn wladolion Affganistan yn bennaf, er y bydd gwladolion gwledydd eraill, er enghraifft mewn teuluoedd cenedligrwydd cymysg, hefyd yn gymwys.

Bydd gwŷr, gwragedd, partneriaid a phlant dibynnol dan 18 oed unigolion cymwys hefyd yn gymwys ar gyfer y cynllun. Efallai y gellir adsefydlu aelodau eraill y teulu *mewn amgylchiadau eithriadol*.

## **Llwybr BN(O) Hong Kong**

Ar ôl i Tsieina orfodi'r Gyfraith Diogelwch Cenedlaethol ar bobl Hong Kong ym mis Gorffennaf 2020, cyflwynodd Llywodraeth y DU lwybr mewnfudo newydd ar gyfer deiliaid statws Gwladolyn Prydeinig (Tramor) Hong Kong, gan roi'r cyfle iddynt hwy ac aelodau eu teulu ddod i fyw, gweithio ac astudio yn y DU.

Mae pecyn cymorth pwrpasol ar gael i deuluoedd Gwladolion Prydeinig (Tramor) sy'n dod i'r DU drwy lwybr BN(O) Hong Kong, i'w helpu i ymgartrefu'n llwyddiannus ym mywyd y DU.

Bydd deiliaid statws BN(O) Hong Kong a'u teuluoedd sy'n ymgartrefu yn y Deyrnas Unedig yn cael pecyn cymorth pwrpasol gwerth £43 miliwn, sy'n cynnwys y canlynol:

- 12 canolbwynt croeso wedi'u lleoli mewn Partneriaethau Ymfudo Strategol ledled y DU a fydd yn helpu teuluoedd ac unigolion i gael gafael ar wasanaethau tai, iechyd, addysg a chyflogaeth er mwyn gallu creu bywyd yn y DU. Bydd cyllid ar gael ar gyfer prosiectau, gweithgareddau cymunedol a chymorth gyda'r Saesneg os bydd angen, er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo'n gartrefol yn eu cymuned newydd. Cliciwch yma i weld Canolbwynt Croeso Hong Kong Cymru.
- cyngor pwrpasol ar gyfer Gwladolion Prydeinig (Tramor) a phecyn croeso cynhwysfawr a fydd yn helpu teuluoedd i lywio'r broses fudo. Mae hwn yn cynnwys gwybodaeth am sut i gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus, cofrestru i bleidleisio ac agor cyfrif banc, ac yn cyfeirio pobl at amwynderau lleol fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, a hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol, celfyddydol a cherddorol cyfoethog y DU, a hyn oll wedi'i gyfieithu i'r Gantoneg.
- **https://www.gov.uk/guidance/british-nationals-overseas-in-hong-kong**



**Pam Cymru?**

Er nad yw mewnfudo yn fater sydd wedi'i ddatganoli, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb tuag at ymfudwyr rhyngwladol sy'n byw yng Nghymru dan ei swyddogaethau datganoledig, gan gynnwys tai, iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan allweddol mewn perthynas â chynnwys ymfudwyr yng nghymdeithas Cymru.

Mae'r cyfryngau wedi dangos llawer o ddiddordeb yn y gwrthdaro amrywiol diweddar a'n hymateb ni, ond mae pobl o Wcráin a ffoaduriaid eraill sy'n cyrraedd Cymru wedi bod drwy brofiadau erchyll, ac mae'n bosib nad ydynt eisiau sylw'r cyfryngau. Gallai hyn fod yn wir hefyd am newydd-ddyfodiaid o Hong Kong, gan y gallent fod ofn y byddai rhannu eu gwybodaeth a'u manylion personol yn eu rhoi nhw a'u teuluoedd mewn perygl.

Y peth pwysicaf yw bod Cymru'n cynnig lle diogel i bobl gael dechrau ailadeiladu eu bywydau.


Mae mwy o wybodaeth am holl Gynlluniau Adsefydlu Llywodraeth y DU i'w gweld yma:

Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru

Cymru: Cenedl Noddfa

## Cyd-destun y newydd-ddyfodiaid cyfredol

### Wcráin



Wcráin yw ail wlad fwyaf Ewrop, ar ôl Rwsia, sy'n ffinio â hi i'r dwyrain a'r gogledd-ddwyrain. KYIV yw enw ei phrifddinas.

Mae Wcráin yn un o allforwyr grawn mwyaf y byd oherwydd ei thir amaeth ffrwythlon a thoreithiog.

Iaith swyddogol Wcráin yw Wcreineg, sy'n iaith Slafig Ddwyreiniol, a dyma famiaith 67.5% o boblogaeth Wcráin. Rwseg yw mamiaith 29.6% o boblogaeth Wcráin ac mae'r gweddill (2.9%) yn siaradwyr brodorol ieithoedd eraill. Er mai Wcreineg yw'r iaith swyddogol a chenedlaethol, mae'r rhan fwyaf o'r bobl hefyd yn siarad Rwseg yn rhugl.

Mae mwyafrif y boblogaeth yn nodi mai **Cristnogion** ydynt.

## Y system addysg

Cyfradd llythrennedd Wcráin yw 99.4%. Ar hyn o bryd yn Wcráin, mae "ysgol" yn cael ei dynodi i blant a phobl ifanc yn eu harddegau, sy'n cychwyn mynychu yn 6 oed hyd nes y byddant yn 17 oed.

Mae calendr academaidd Wcráin fel arfer yn rhedeg o fis Medi i fis Mehefin.

## Addysg Gynradd

Ers 2018, mae addysg ysgol Wcráin wedi cael ei hymestyn o 11 i 12 mlynedd. Mae bellach yn cynnwys pedair blynedd o addysg gynradd, pum mlynedd o addysg ysgol ganol a thair blynedd o addysg uwchradd uwch (arbenigol). Bydd y newidiadau'n cael eu rhoi ar waith ar y tair lefel yn 2018, 2022 a 2027, gan ddechrau gyda'r cam cynradd.

**Darperir addysg am ddim mewn ysgolion gwladol ac mae'n orfodol hyd at flwyddyn 12 dan y system newydd.** Fodd bynnag, gall disgyblion a ddechreuodd astudio dan yr hen system adael yr ysgol ar ôl 11 mlynedd o hyd.

Mae addysg gynradd yn dechrau pan fydd y plentyn yn 6 oed ac yn para pedair blynedd. Mae'r cylch yn cael ei rannu ymhellach yn ddau gam:

- Cam 1 sylfaenol (blwyddyn 1 a 2) sy'n canolbwyntio ar addasu i'r ysgol drwy chwarae.
- Cam 2 (blwyddyn 3 a 4) sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cyfrifoldeb ac annibyniaeth.

Caiff y plant eu derbyn i'r ysgol ar sail eu man preswyl. Mae pob ysgol yn gwasanaethu ardal ddaearyddol benodol ac yn sicrhau lle i bob plentyn oed ysgol sy'n byw yn yr ardal. Nid oes unrhyw arholiadau mynediad ar wahân.

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys darllen, ysgrifennu, mathemateg, addysg gorfforol, natur, celf a cherddoriaeth. Nid yw pob cwrs ar y lefel hon yn cael eu graddio, ond mae blwyddyn 4 yn dod i ben gydag arholiad gwladol sy'n mesur perfformiad mewn Wcreineg (neu iaith frodorol arall), darllen a mathemateg.

**Addysg Uwchradd Sylfaenol (Ysgol Ganol)**

Mae addysg uwchradd sylfaenol yn para pum mlynedd (blwyddyn pump i naw) ac ar gael i bob disgybl sydd wedi cwblhau eu haddysg gynradd yn llwyddiannus. Mae'r cwricwlwm craidd cyffredinol yn cynnwys pynciau fel iaith a llenyddiaeth Wcráin, iaith dramor, hanes, mathemateg, bywydeg, cemeg, ffiseg, addysg gorfforol, cerddoriaeth a chelf. Mae asesiadau a chynnydd wedi'u seilio'n bennaf ar arholiadau. Ar ddiwedd blwyddyn naw, bydd y myfyrwyr yn sefyll yr arholiadau gwladol terfynol. Mae'r rhai hynny sy'n pasio yn cael "tystysgrif cwblhau addysg uwchradd sylfaenol" (*svidotstvo pro bazovu zagal'nu serednyu osvitu*).

Mewn rhai ysgolion, mae'r myfyrwyr hefyd yn astudio dosbarthiadau ar yr amgylchedd a dinasyddiaeth.

Fodd bynnag, dim ond unwaith neu ddwy yr wythnos y mae'r myfyrwyr yn mynd i bob dosbarth. Mae rhan o'r diwrnod ysgol yn cael ei dreulio ar weithgareddau fel gwyddbwyll, karate, perfformio dramâu, dysgu straeon a chaneuon gwerin, côr a band. Ar ôl yr ysgol, efallai y bydd y myfyrwyr hefyd yn cael gwersi cerddoriaeth, pêl-droed, tennis neu hoci.



Diwrnod Gwybodaeth yn Donetsk, 2013

## Addysg Uwchradd Uwch (Addysg Uwchradd Arbenigol)

Mae pawb sy'n graddio o addysg uwchradd sylfaenol yn gymwys i gofrestru mewn ysgol uwchradd uwch. Dan y rheoliadau newydd a fydd mewn grym erbyn 2027, bydd addysg uwchradd uwch yn para tair blynedd (blynyddoedd 9 i 12) yn lle dwy flynedd (blynyddoedd 9 i 11). Bydd hyn yn golygu y bydd system Wcráin yn cyd-fynd â'r systemau 12 mlynedd a welir yn y mwyafrif o wledydd y byd.

Mae'r hen system a'r system newydd ill dwy'n cyflwyno arbenigaethau cwricwlaidd ar y lefel uwchradd uwch. Fodd bynnag, bydd y system newydd yn cael ei dylunio i roi mwy o hyblygrwydd i'r myfyrwyr ddewis eu pynciau dewisol. Bydd y myfyrwyr yn gallu dewis rhwng llwybrau academaidd neu broffesiynol a astudir mewn addysgfeydd proffesiynol neu academaidd.

O fewn y llwybrau hyn, bydd y myfyrwyr yn astudio cwricwlwm craidd academaidd cyffredinol yn ogystal ag arbenigo mewn meysydd academaidd neu alwedigaethol. Tra bod astudiaethau ar y llwybr academaidd wedi'u dylunio i baratoi'r myfyrwyr ar gyfer addysg prifysgol, mae'r ffrydiau proffesiynol yn paratoi'r myfyrwyr ar gyfer gwaith yn ogystal â mynediad i addysg uwch. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw pob ysgol yn cynnig llwybrau arbenigaeth, a bod nifer o fyfyrwyr yn dilyn rhaglenni uwchradd cyffredinol ar hyn o bryd.

Ers 2019, mae pob unigolyn graddedig sy'n pasio'r arholiadau gwladol terfynol yn derbyn "tystysgrif cwblhau addysg uwchradd gyffredinol" (*svidotstvo pro zdobuttia povnoi zagalnoi serednoi osvity*), a arferai gael ei galw'n "dystysgrif cwblhau addysg uwchradd" (*atestat pro zagal'nu serednyu osvitu*).

Mae'r dystysgrif yn rhestru nifer fawr o bynciau sy'n rhychwantu'r cwricwlwm cyfan, yn ogystal â thri phwnc arholi gwladol, (iaith a llenyddiaeth Wcráin, mathemateg neu hanes Wcráin ac un pwnc dewisol). Yn ogystal, mae gofyn i'r myfyrwyr sefyll profion safonedig a asesir yn allanol gan Ganolfan Wcráin ar gyfer Asesu Ansawdd Addysgol. Defnyddir y profion safonedig hyn i bennu mynediad i brifysgol.

Caiff dros 99 y cant o fyfyrwyr ysgol uwchradd uwch eu cofrestru mewn ysgolion gwladol, yn ôl UNESCO. Nid yw addysg breifat yn chwarae rhan arwyddocaol yn system ysgolion Wcráin. Yn 2013, roedd y gyfradd gwblhau dros 95 y cant, gyda dros 80 y cant o'r graddedigion yn cofrestru

ar gyfer rhaglenni addysg uwch. Roedd 591,448 o fyfyrwyr uwchradd uwch yn Wcráin yn 2017 (wedi gostwng yn llym o 909,924 yn 2012, yn ôl UNESCO).

Mae Wcráin yn cynhyrchu'r pedwerydd nifer uchaf o raddedigion academaidd yn Ewrop.

Education in Ukraine (wes.org)

Mae'r wefan hon yn cynnig dogfennau enghreifftiol pdf o gymwysterau academaidd.

## Ieithoedd a ddefnyddir mewn Sefydliadau Addysgol

Ers cyfraith 2017 "Ar Addysg", iaith addysgu ysgolion Wcráin yw iaith y wlad, sef Wcreineg (mae gan leiafrifoedd cenedlaethol hawl gwarantedig i astudio mewn cyfleusterau addysgol gwladol sy'n cynnwys eu hiaith hwy ochr yn ochr â'r Wcreineg).

Ym mlwyddyn academaidd 2000/2001, roedd 70% o'r myfyrwyr yn mynd i ysgolion Wcreineg (h.y. gydag Wcreineg yn brif iaith yr addysgu), tra bod 29% yn astudio mewn ysgolion Rwseg.

Mae yna ysgolion sy'n addysgu drwy'r Rwmaneg, Tatareg y Crimea, Hwngareg a Phwyleg mewn rhanbarthau lle mae'r grwpiau hyn yn byw. Yn hanesyddol, mae'r iaith addysgu wedi newid yn aml yn Wcráin. Yn y 1970au a'r 1980au, roedd nifer yr ysgolion Rwseg yn cynyddu'n gyson ar draul ysgolion Wcreineg.

Ar ôl i Wcráin sicrhau annibyniaeth, gwelwyd y duedd hon yn gwrthdroi. Fodd bynnag, mae ailgyflwyno astudiaethau Wcreineg ffurfiol wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Mewn rhai ysgolion sydd wedi ceisio troi i'r Wcreineg, mae rhan neu'r rhan fwyaf o'r addysg yn dal i fod drwy gyfrwng Rwseg.

## Darganfod gwybodaeth flaenorol - disgyblion o Wcráin

Mae'n bwysig canfod ym mha iaith y mae'r myfyrwyr wedi dysgu a chael eu haddysg er mwyn darganfod eu gwybodaeth flaenorol yn defnyddio Penodau 4, 5 a 6 y Pecyn Cymorth, a chael gafael ar ddewis y myfyrwyr o iaith gyntaf i gael cymorth.

Bydd rhan fwyaf y disgyblion wedi bod yn mynychu'r ysgol tan yn ddiweddar, felly cyfnod eithaf byr o amhariad ar eu haddysg y byddant wedi'i gael.

## **Affganistan**

Enw Swyddogol Affganistan erbyn hyn yw Emiraeth Islamaidd Affganistan, ac mae'n wlad dirgaeedig wedi'i lleoli ar groesffordd Canol a De Asia. Cyfeirir ati fel "Calon Asia" ac mae'n ffinio â Pacistan i'r dwyrain a'r de,  Iran i'r gorllewin, Turkmenistan i'r gogledd-orllewin, Uzbekistan i'r gogledd, Tajikistan i'r gogledd-ddwyrain a Tsieina i'r gogledd-ddwyrain a'r dwyrain. Mae'r wlad yn mesur 652,864 cilomedr sgwâr (252,072 milltir sgwâr) o dir, ac mae'n wlad fynyddig gan mwyaf, gyda gwastatiroedd yn y gogledd a'r de-orllewin, sy'n cael eu gwahanu gan gadwyn fynyddoedd Hindi Kush.

Yn 2021, roedd ei phoblogaeth yn 40.2 miliwn, sy'n cynnwys Pashtuniaid, Tajikiaid, Hazariaid ac Uzbekiaid yn bennaf. Mae'r Hazariaid yn grŵp a erlidir yn Affganistan a Pacistan gerllaw. Kabul yw dinas fwyaf y wlad, a'i phrifddinas.






Mae Affganistan wedi bod yn destun gwrthdaro ers canrifoedd lawer. Ym mis Hydref 2001, bu i'r Unol Daleithiau ymosod ar Affganistan i gael gwared ar y Taliban ar ôl iddynt wrthod trosglwyddo Osama Bin Laden, sef y prif unigolyn dan amheuaeth o gyflawni ymosodiadau 11 Medi, a oedd yn "westai" i'r Taliban ac yn gweithredu ei rwydwaith al-Qaeda yn Affganistan.

Roedd nifer o Affganiaid yn cefnogi ymosodiad America ar eu gwlad. Yn ystod yr ymosodiad cychwynnol, gollyngodd lluoedd yr UD a'r DU fomiau ar wersylloedd hyfforddi al-Qaeda, ac yn ddiweddarach, mewn cydweithrediad â Chynghrair y Gogledd, daeth llywodraeth y Taliban i ben.

Ym mis Rhagfyr 2001 (ar ôl i lywodraeth y Taliban gael ei ddymchwel, ac ar ôl dwy ddegawd o ryfel yn ogystal â newyn enbyd), roedd gan Affganistan un o gyfraddau marwolaethau babanod a phlant uchaf y byd, y disgwyliad oes isaf, roedd llawer o'r boblogaeth yn llwgu ac roedd yr isadeiledd wedi'i ddinistrio'n llwyr. Cychwynnodd nifer o noddwyr tramor gynnig cymorth i ailadeiladu'r wlad a rwygwyd gan ryfel.

Ond yn y cyfamser, dechreuodd lluoedd y Taliban ailgynnull yn Pacistan, tra bod mwy o filwyr y gynghrair yn dod i Affganistan i helpu gyda'r

broses ailadeiladu. Cychwynnodd y Taliban wrthryfel er mwyn adennill rheolaeth ar Affganistan. Dros y ddegawd nesaf, arweiniodd ISAF (y Llu Cynorthwyol Diogelwch Rhyngwladol), ynghyd â milwyr Affganistan, nifer o ymosodiadau yn erbyn y Taliban, ond methwyd â'u gorchfygu'n llwyr.

Parhaodd Affganistan i fod yn un o wledydd tlotaf y byd oherwydd diffyg buddsoddiad tramor, llygredigaeth y llywodraeth a gwrthryfel y Taliban.


Ym mis Medi 2014, daeth Ashraf Ghani yn arlywydd yn dilyn etholiad arlywyddol 2014, a chafodd grym ei drosglwyddo'n ddemocrataidd am y tro cyntaf yn hanes Affganistan. Ym mis Rhagfyr 2014, daeth NATO ag ymgyrchoedd brwydro ISAF i ben yn Affganistan a throsglwyddo cyfrifoldeb llwyr am ddiogelwch i lywodraeth Affganistan.

Arhosodd miloedd o filwyr NATO yn y wlad i hyfforddi a chynghori lluoedd llywodraeth Affganistan a pharhau eu brwydr yn erbyn y Taliban. Amcangyfrifwyd yn 2015, bod "tua 147,000 o bobl wedi cael eu lladd yn rhyfel Affganistan ers 2001. Dinasyddion oedd dros 38,000 o'r rhai a laddwyd". Casglodd adroddiad o'r enw *Body Count* bod rhwng 106,000 a 170,000 o ddinasyddion wedi cael eu lladd yn sgil yr ymladd yn Affganistan gan bob ochr i'r gwrthdaro.

Ym mis Ebrill 2021, dywedodd NATO fod y gynghrair wedi cytuno i gychwyn tynnu ei filwyr yn ôl o Affganistan erbyn 1 Mai. Yn fuan ar ôl cychwyn tynnu milwyr NATO yn ôl, lansiodd y Taliban ymosodiad yn erbyn llywodraeth Affganistan, gan symud ymlaen yn gyflym o flaen lluoedd llywodraeth Affganistan a oedd yn cwympo.

Erbyn mis Awst 2021, a'r Taliban unwaith eto'n rheoli mwyafrif helaeth tiriogaeth Affganistan, bu iddynt ail-gipio prifddinas Kabul, a chafodd nifer o ddinasyddion, swyddogion y llywodraeth a diplomyddion tramor eu symud oddi yno. Bu i'r Arlywydd Ghani ffoi o Affganistan y diwrnod hwnnw.

Ailsefydlwyd **Emiraeth Islamaidd Affganistan** yn gyflym wrth i'w gwrthwynebwyr gael eu gorchfygu neu adael y wlad. Gorfodwyd nifer o breswylwyr, yn enwedig y rhai hynny a helpodd gefnogi lluoedd NATO, i geisio ffoi Affganistan, gan ofni y byddai'r Taliban yn dial arnynt, a'r rheiny'n cynnwys barnwyr, athrawon a chyfieithwyr.



Mae cenhedloedd y gorllewin wedi atal y rhan fwyaf o gymorth dyngarol i Affganistan ar ôl i'r Taliban feddiannu grym yn y wlad ym mis Awst 2021, ac mae Banc y Byd a'r Gronfa Ariannol Ryngwladol hefyd wedi rhoi'r gorau i wneud taliadau.

Ym mis Hydref 2021, roedd dros hanner 39 miliwn o bobl Affganistan yn wynebu prinder bwyd enbyd. Ar 11 Tachwedd 2021, adroddodd yr *Human Rights Watch* bod Affganistan yn wynebu newyn helaeth yn sgil yr argyfwng economaidd a bancio.

Ar ôl tynnu lluoedd arfog Prydain a'r UD yn ôl o Affganistan, ac yn dilyn ymgodiad y Taliban i rym yn ystod haf 2021, gwelwyd cynnydd serth yn nifer yr Affganiaid a ddadleolwyd drwy rym. Mae'r CU yn amcangyfrif bod 677,000 o bobl wedi'u dadleoli o'r newydd yn Affganistan rhwng 1 Ionawr a 20 Hydref 2021. Roedd y rhain yn ychwanegol at y miliynau a oedd eisoes wedi'u dadleoli cyn 2021. Ym mis Gorffennaf 2022, allan o boblogaeth Affganistan o tua 40 miliwn, roedd 3.5 miliwn wedi'u dadleoli'n fewnol (y rhan fwyaf cyn 2021). Mae 2.6 miliwn arall o ffoaduriaid o Affganistan wedi'u cofrestru gydag UNHCR (asiantaeth ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig) o amgylch y byd y tu allan i Affganistan, ac amcangyfrifir bod 2.2 miliwn ohonynt yn Iran a Pacistan. Cafodd y rhan fwyaf o'r rhain eu dadleoli cyn 2021, ac mae'n debyg y bydd y niferoedd yn parhau i dyfu.

Mewn ymateb i'r argyfwng hwn, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi rhaglenni i adsefydlu ffoaduriaid o Affganistan yn y DU. Mae ffoaduriaid eraill o Affganistan yn debygol o gyrraedd y DU ar eu liwt eu hunain yn y blynyddoedd i ddod a hawlio lloches. Fodd bynnag, mae rhagweld ymfudiad sy'n gysylltiedig â lloches yn arbennig o anodd. Mae'n anodd rhagfynegi nifer yr unigolion a fydd yn gadael Affganistan, heb sôn am y niferoedd a fydd yn cyrraedd Ewrop neu'r DU. Yn y cyfnod o ddeng

mlynedd rhwng 2011 ac 2020, yn cynnwys y blynyddoedd hynny, hawliodd nifer cyfartalog o tua 2,000 o wladolion Affganistan loches yn y DU bob blwyddyn. Mae'n rhesymol disgwyl i'r nifer hwn gynyddu, ond nid yw'n amlwg o faint.

I raddau helaeth, y rheswm am hyn yw bod **rhan fwyaf y ffoaduriaid o Affganistan wedi aros yn y rhanbarth**, gyda thua 2.2 miliwn yn Iran a Pacistan yn 2020. Nid yw'r ceiswyr lloches o Affganistan sydd yn cyrraedd Ewrop fel arfer yn dod i'r DU. Yn 2020, hawliodd ychydig dros 48,000 o wladolion Affganistan loches yng ngwledydd yr EU-27, o'i gymharu â thua 1,600 yn y DU (sy'n cynnwys y prif ymgeiswyr ac aelodau dibynnol eu teuluoedd).

Mae'r mwyafrif llethol, dros **99% o'r boblogaeth, yn Fwslemiaid Sunni**

Y prif ieithoedd a siaradir yw Pashto a Dari.

## System Addysg Affganistan



Ar ôl y rhyfel gyda'r Undeb Sofietaidd a meddiant grym dilynol y Taliban yn y wlad, nid oedd llawer o gyfleoedd am addysg yn Affganistan. Ymhellach, roedd system addysg y cyfnod hwnnw yn llai na digonol. Ar ôl dymchwel y Taliban ar ddiwedd 2001 a sefydlu llywodraeth fwy democrataidd yn Affganistan, gwelwyd gwelliannau yn system addysg y wlad.

Yn 2002, ar ôl i fyddin cynghrair dan arweiniad yr UD ddymchwel y Taliban, amcangyfrifwyd mai dim ond tua miliwn o blant oedd yn mynd i'r ysgol. O'r nifer hwnnw, roedd y mwyafrif helaeth yn fechgyn.

Cyn 2002, roedd unrhyw addysg roedd y plant yn ei chael wedi'i dylanwadu'n drwm gan grefydd. Roedd plant yn cael eu haddysgu drwy'r

Quran a dysgeidiaeth y Proffwyd Mohammed. Ychydig iawn o sylw a roddwyd i gyrsiau gwyddoniaeth, technoleg neu'r celfyddydau breiniol.

Dan lywodraeth y Taliban, roedd genethod wedi'u gwahardd mwy neu lai rhag cael addysg. Roedd yr ychydig addysg roedd y genethod yn ei chael wedi'i seilio ar ysgrythur y Quran a sgiliau darllen ac ysgrifennu sylfaenol.

Ers i'r Taliban ail-gipio rheolaeth ar Affganistan ym mis Awst 2022, maent wedi ailgyflwyno **rheolau llym ar ryddid personol**. Mae'r rheolwyr eithafol wedi cyhoeddi bod dysgu modern yn amherthnasol, wedi gwahardd genethod rhag mynd i'r ysgol ac yn dweud mai'r cwricwlwm crefyddol a addysgir mewn *madrassas* yw'r unig addysg y mae ar y wlad ei angen. Ym mis Mawrth 2022, ar ôl bod ar gau am beth amser, cyhoeddwyd y byddai ysgolion genethod ar ôl blwyddyn 6 yn cael eu hailagor cyn bo hir. Fodd bynnag, ychydig amser cyn eu hailagor, diddymwyd y gorchymyn a pharhaodd ysgolion ar gyfer genethod hŷn i fod ar gau. **Hyd yma, mae'r gyfundrefn newydd wedi gwahardd genethod ac athrawon benywaidd rhag dychwelyd i ysgolion uwchradd**.

Yr wythnos hon, dywedodd Abdul Baqi Haqqani, gweinidog addysg uwch dros dro y Taliban, nad yw'r cymwysterau a enillwyd yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf – gan fod y gymuned ryngwladol wedi buddsoddi biliynau o ddoleri mewn datblygiad – o unrhyw fudd i'r wlad, hyd yn oed wrth iddi lithro i argyfwng economaidd a thrychineb dyngarol.

Mae cyfradd lythrennedd gyffredinol y rhan fwyaf o'r genedl yn dal i fod yn is na'r cyfartaledd.

## Darganfod gwybodaeth flaenorol - disgyblion o Affganistan

Yn yr un modd â ffoaduriaid Syria, mae'r system addysg wedi dioddef effaith enfawr dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan wneud profiad y disgyblion yn un anodd iawn ei ragweld. Bydd pob disgybl wedi wynebu ***set unigryw o amgylchiadau***, yn dibynnu ymhle yn Affganistan roedden nhw'n byw, mewn lleoliad gwledig neu drefol, pwy oedd yn rheoli eu rhanbarth, p'un a wnaethon nhw ffoi i Pacistan neu i Iran ac a wnaethon nhw gyrraedd gwersylloedd ffoaduriaid ai peidio. Efallai eu bod wedi clywed yr iaith Saesneg, yn enwedig os oedd eu tadau'n gweithio i luoedd America neu NATO ac felly'n deall rhywfaint o Saesneg. Fodd bynnag, mae'n hynod annhebygol y byddant wedi cael cyflwyniad ffurfiol i Saesneg o fewn y system addysg.

**Hong Kong**

Mae Hong Kong bellach yn cael ei hadnabod yn swyddogol fel Rhanbarth Gweinyddol Arbennig Hong Kong Gweriniaeth Pobl Tsieina (HKSAR), ac mae'n ddinas ac yn rhanbarth gweinyddol arbennig Tsieina ar Ddelta Afon Perl ddwyreiniol de Tsieina. Gyda dros 7.5 miliwn o drigolion o amrywiol genedligrwydd mewn tiriogaeth sy’n mesur 1,104 cilometr sgwâr (426 milltir sgwâr), Hong Kong yw un o’r ardaloedd â’r boblogaeth ddwysaf yn y byd. Mae Hong Kong hefyd yn un o dair ardal ariannol fyd-eang ac yn un o ddinasoedd mwyaf datblygedig y byd.

Sefydlwyd Hong Kong fel trefedigaeth yr Ymerodraeth Brydeinig ar ôl i Ymerodraeth Qing ildio Ynys Hong Kong o Sir Xin’an ar ddiwedd y Rhyfel Opiwm Cyntaf ym 1841, ac yna eto ym 1842. Cafodd y diriogaeth gyfan ei throsglwyddo i Tsieina ym 1997. Fel un o ddau ranbarth gweinyddol arbennig Tsieina (Macau yw’r llall), mae gan Hong Kong systemau llywodraethu ac economaidd ar wahân i dir mawr Tsieina dan yr egwyddor “un wlad, dwy system”.

Mae’r diriogaeth, a oedd yn ardal brin ei phoblogaeth o bentrefi ffermio a physgota yn wreiddiol, wedi dod yn un o ganolfannau ariannol a phorthladdoedd masnachol mwyaf arwyddocaol y byd. Mae’n ddegfed allforiwr mwyaf a nawfed mewnforiwr mwyaf y byd. Mae gan Hong Kong economi wasanaeth gyfalafol bwysig a nodweddir gan drethi isel a masnach rydd, a’i arian cyfred, sef doler Hong Kong, yw’r wythfed arian cyfred a fasnechir fwyaf yn y byd. Hong Kong yw cartref y trydydd nifer uchaf o biliwnyddion yn unrhyw ddinas yn y byd, yr ail nifer uchaf o biliwnyddion yn unrhyw ddinas yn Asia, a’r crynhoad mwyaf o unigolion â gwerth-net tra-uchel yn unrhyw ddinas yn y byd. Er bod gan y ddinas un o’r cyfraddau incwm uchaf y pen yn y byd, mae yna anghydraddoldeb incwm difrifol ymysg y boblogaeth.

Mae Hong Kong yn diriogaeth dra datblygedig ac yn sgorio'n bedwerydd ar Fynegai Datblygiad Dynol y CU. Mae gan y ddinas y nifer uchaf o nendyrau yn unrhyw ddinas yn y byd, ac mae gan ei thrigolion rai o'r cyfraddau disgwyliad oes uchaf yn y byd.



Amcangyfrifwyd bod poblogaeth Hong Kong yn 7,482,500 yng nghanol 2019. Mae'r mwyafrif helaeth (92%) yn Tsieineaid Han. Mae'r 8% arall yn lleiafrifoedd Tsieineaidd heb fod yn ethnig, yn Ffilipiniaid, yn Indonesiaid ac yn Dde Asiaid yn bennaf. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r Ffilipiniaid ac Indonesiaid yn Hong Kong yn weithwyr tymor byr.

Mae gan tua hanner y boblogaeth ryw fath o genedligrwydd Prydeinig, sy'n waddol y rheolaeth drefedigaethol; **mae gan 3.4 miliwn o drigolion statws Gwladolyn Prydeinig (Tramor), ac mae 260,000 o ddinasyddion Prydain yn byw yn y diriogaeth.** Mae'r mwyafrif helaeth hefyd yn ddinasyddion Tsieina, statws a roddwyd yn awtomatig i'r holl drigolion Tsieineaidd adeg trosglwyddo sofraniaeth.

Y brif iaith yw Cantoneg. Fe'i siaredir gan 94.6% o'r boblogaeth; 88.9% fel iaith gyntaf a 5.7% fel ail iaith.

Mae ychydig dros hanner y boblogaeth (53.2%) yn siarad Saesneg, sef yr iaith swyddogol arall; mae 4.3% yn siaradwyr brodorol a 48.9% yn siarad Saesneg fel ail iaith. Mae Newid Cod, sef cymysgu Saesneg a Chantoneg mewn sgwrs anffurfiol, yn gyffredin ymysg y boblogaeth ddwyieithog.

Mae llywodraethau yn dilyn y trosglwyddiad wedi hyrwyddo'r iaith Mandarin, sydd ar hyn o bryd tua'r un mor gyffredin â'r Saesneg; mae 48.6% o'r boblogaeth yn siarad Mandarin, gydag 1.9% yn siaradwyr brodorol a 46.7% yn ei siarad fel ail iaith.

Defnyddir symbolau Tsieineaidd traddodiadol i ysgrifennu yn hytrach na'r symbolau wedi'u symleiddio a ddefnyddir ar y tir mawr.

Ymysg y boblogaeth grefyddol, "tair dysgeidiaeth" Tsieina, sef Bwdhaeth, Conffiwsiaeth a Taoaeth sydd â'r mwyaf o ddilynwyr (20%), gyda Christnogaeth (12%) ac Islam (4%) yn dilyn. Mae dilynwyr crefyddau eraill, gan gynnwys Siciaeth, Hindŵaeth ac Iddewiaeth, yn deillio'n gyffredinol o ranbarthau lle mae eu crefydd yn fwyaf amlwg.

Mae'r *Datganiad ar y Cyd* yn gwarantu Cyfraith Sylfaenol Hong Kong am 50 mlynedd ar ôl trosglwyddo sofraniaeth.  Nid yw'n nodi sut y bydd Hong Kong yn cael ei llywodraethu ar ôl 2047, ac mae rhan y llywodraeth ganolog mewn pennu system lywodraethu'r diriogaeth at y dyfodol yn destun damcaniaethu a dadlau gwleidyddol. Efallai y bydd systemau gwleidyddol a barnwrol Hong Kong wedi'u hintegreiddio gyda rhai Tsieina erbyn hynny, neu efallai y bydd y diriogaeth yn parhau i gael ei gweinyddu ar wahân.

Fodd bynnag, yn ystod cyfnod o brotestiadau ar raddfa fawr yn 2019-2020, bu i Bwyllgor Sefydlog Cyngres Genedlaethol y Bobl basio Cyfraith Diogelwch Cenedlaethol ddadleuol Hong Kong. Mae'r gyfraith yn gwneud gweithredoedd a oedd yn arfer cael eu hystyried yn llefaru gwarchodedig dan gyfraith Hong Kong yn rhai troseddol. Wrth lofnodi'r Datganiad ar y Cyd Sino-Brydeinig, gwnaeth Tsieina ymrwymiadau cyfreithiol rwymol i amddiffyn hawliau a rhyddid sylfaenol, ac i barchu graddau uchel o hunanlywodraeth Hong Kong am o leiaf 50 mlynedd o 1997 ymlaen.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystyried bod y gyfraith yn gam difrifol yn erbyn y Datganiad ar y Cyd. Cafodd protestiadau a therfysgoedd yn erbyn y gyfraith diogelwch eu hatal yn sydyn ac yn filain. **Bu i nifer o'r protestwyr ffoi o'r wlad** gan ofni y byddent yn cael eu carcharu a'u teuluoedd yn cael eu cosbi.



☐ Mae Llywodraeth y DU wedi creu fisa newydd i alluogi deiliaid statws Gwladolion Prydeinig (Tramor) (BN(O)) a oedd yn arfer byw yn Hong Kong, ac aelodau uniongyrchol eu teuluoedd, i ymgartrefu yn y DU i fyw, gweithio ac astudio. Mae **fisa BN(O) Hong Kong yn rhan o ymateb Llywodraeth y DU i fethiant Tsieina i gadw at ei rwymedigaethau rhyngwladol** mewn perthynas â deiliaid statws Hong Kong a'u dibynyddion, y mae disgwyl iddynt fod yn hunangynhaliol a chyfrannu i gymdeithas y DU, yn eu tro. Bydd yr unigolion cymwys yn gallu gwneud cais i breswylio'n sefydlog ar ôl 5 mlynedd os ydynt yn bodloni'r gofynion, ac yna wneud cais am Ddinasyddiaeth Brydeinig 12 mis ar ôl preswylio'n sefydlog.

Roedd Cydlynydd Prosiect Cynllun BN(O) Hong Kong WSMP wedi datblygu Canolbwynt Croeso a mentrau eraill i gefnogi'r cynllun, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a'r gefnogaeth briodol ar gael i groesawu deiliaid y Fisa i Gymru.

Os ydych chi'n gweithio mewn ysgol, i gyngor neu i elusen leol ac wedi cael ceisiadau am gymorth gan newydd-ddyfodiaid o Hong Kong, cysylltwch â WSMP i roi gwybod i ni ble rydych chi wedi eich lleoli, sawl teulu rydych chi'n gweithio gyda nhw a'r math o gyngor adsefydlu y mae pobl ei angen.

**Cyswllt: Sonya Foley @ sonya.foley@wlga.gov.uk**

**System Addysg Hong Kong**

Addysg Gynradd

Mae system addysg Hong Kong wedi'i seilio ar y model Prydeinig, ond bod yr addysg yn cael ei chyflwyno drwy gyfrwng y Tsieinëeg y dyddiau yma. Mae'r 9 mlynedd gyntaf yn orfodol, ond mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr yn cwblhau'r 12 mlynedd gyfan.

Mae hyd yn oed yr ysgol gynradd yn hynod gystadleuol. Yn ystod y 6 mlynedd hyn, mae'r disgyblion yn sefyll cyfres o arholiadau. Mae'r pynciau'n cynnwys Tsieinëeg, Saesneg, mathemateg, cerddoriaeth a'r celfyddydau, gwyddoniaeth, astudiaethau cymdeithasol ac addysg gorfforol.



Addysg Uwchradd

Mae'r addysg yn parhau yn yr ysgol uwchradd, gyda'r 3 blynedd gyntaf yn orfodol o fewn rhaglen academaidd safonedig. Ond ym mlynyddoedd 4 i 6, gall myfyrwyr ddewis 2 i 3 pwnc dewisol o ddewis o 20, yn ychwanegol at eu rhaglenni Tsieinëeg, Saesneg, astudiaethau breiniol a mathemateg rhagnodedig. Mae dewisiadau eraill yn cynnwys cwrs BTEC.

Addysg Alwedigaethol

Mae prifysgolion a sefydliadau eraill yn cynnig hyfforddiant proffesiynol yn ogystal ag amrywiaeth enfawr o raglenni heb fod yn rhai gradd. Mae ieithoedd, gan gynnwys Saesneg, Mandarin a Siapanaeg, yn arbennig o boblogaidd.

Addysg Drydyddol

Mae addysg drydyddol yn ganolbwynt i nifer o ddinasyddion Hong Kong mewn dinas-wladwriaeth sydd ag 8 prifysgol. Un o'r rhain yw Prifysgol Hong Kong, a ystyrir yn un o'r mwyaf clodfawr yn Asia gyfan, ac sydd i'w gweld yn y llun hwn.



## Cyfrwng (iaith) yr addysgu

Yn y 1990au, yn dilyn trosglwyddiad Hong Kong, newidiodd y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn y diriogaeth eu cyfrwng addysgu o'r Saesneg i'r Tsieinëeg Draddodiadol (Cantoneg). Gelwir y 114 o ysgolion eraill (tua 20-30%) yn ysgolion EMI ac fe'u hystyrir yn aml yn rai mawr eu bri.

Yn ogystal, mae llywodraeth Hong Kong wedi gwthio'r defnydd o Putonghua (Tsieinëeg Mandarin Safonol) fel cyfrwng addysgu yn y pwnc iaith Tsieinëeg.

Ers 2015-2016, mae tua 16.4% o ysgolion cynradd a 2.5% o ysgolion uwchradd wedi mabwysiadu Putonghua, yn hytrach na Chantoneg, ar

gyfer addysgu pwnc yr iaith Tsieinëeg ar draws pob blwyddyn a dosbarth. Mae 55.3% o ysgolion cynradd a 34.4% o ysgolion uwchradd eraill wedi mabwysiadu Putonghua mewn rhai o'u blynyddoedd a'u dosbarthiadau. Mae'r 28.3% o ysgolion cynradd a'r 63.1% o ysgolion uwchradd sy'n weddill yn dal i ddefnyddio'r Gantoneg yn eu holl flynyddoedd a dosbarthiadau.

Mae gan System Addysg Hong Kong (scholaro.com) enghreifftiau pdf o gymwysterau.

### Darganfod gwybodaeth flaenorol

Ni fydd nifer o'r disgyblion sy'n dod o Hong Kong ar y cynllun fisa wedi cael bylchau yn eu haddysg. Bydd rhai disgyblion wedi cael eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg. Bydd tebygrwydd rhwng eu system nhw a'n system addysg ni, a fydd o fudd i helpu disgyblion i gaffael iaith.

Mae llwyth gwaith myfyriwr cynradd yn Hong Kong ar hyn o bryd yn cynnwys tua dwy awr o waith ysgol bob gyda'r nos. Ynghyd â gweithgareddau allgyrsiol, mae addysg Hong Kong wedi dod i'r amlwg am wyro tuag at ormodedd o waith. Mor bell yn ôl â mis Mawrth 1987, daeth arolygwyr ymgynghorol addysg yn bryderus am y symiau gormodol o "waith mecanyddol a gwaith cartref diystyr".

Roedd yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn ceisio cyflawni set gyntaf o adnoddau'n barod i ysgolion a Cholegau AB eu defnyddio erbyn **hanner tymor yr Hydref 2022**, gyda mwy o adnoddau ar gael yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Bydd yr adnoddau'n cynnwys gwybodaeth a fydd yn:

- darparu gwybodaeth ffeithiol am gysylltiad ac ymrwymiad hanesyddol y DU i Hong Kong a'i phobl;
  dathlu cyfraniad Prydeinwyr-Hong Kong i'r DU.
- cefnogi integreiddiad y gymuned BN(O) - galluogi ysgolion i sicrhau y croesewir disgyblion newydd.

Nid oes rhagor o wybodaeth ynglŷn â phryd y bydd yr adnoddau ar gael ar hyn o bryd.

Cysylltwch â Sonya Foley @ sonya.foley@wlga.gov.uk

i gael gafael ar adnodd SIY ar-lein y *Flash Academy* ar gyfer disgyblion a rhieni.

## Dolenni eraill

Q&A: Migrants crossing the English Channel in small boats - Migration Observatory - The Migration Observatory (ox.ac.uk)

5 reasons people cross the Channel (redcross.org.uk)




# Pennod 3: Cynllunio a Pharatoi

## *1. Gwaith Paratoi*

**Gwaith paratoi cyn i'r disgyblion gyrraedd.**

**Mae'n hanfodol cynllunio a pharatoi cyn i'r disgyblion yr effeithiwyd arnynt gan ymfudo gyrraedd. Mae ysgolion sydd eisoes wedi derbyn plant mudol wedi tynnu sylw at y ffaith bod y gwaith a wnaed cyn iddynt gyrraedd wedi bod yn hanfodol i helpu'r newydd-ddyfodiaid ymgartrefu'n llwyddiannus yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.** Mae'n werth trefnu cyfarfodydd cychwynnol gyda'r holl fudd-ddeiliaid allweddol sy'n gysylltiedig â helpu'r plant/pobl ifanc a'u teuluoedd yn y broses gynllunio gynnar. Mae'r budd-ddeiliaid hyn yn cynnwys Uwch Reolwyr/Cydlynydd ADY yr ysgol, elusennau ffoaduriaid neu ddarparwyr cymorth lleol, Cydlyniant Cymunedol, Iechyd, yr Heddlu, Tai ac unrhyw wasanaeth Ymgynghorol Arbenigol SYI (os oes yna rai ar gael, fel GEMS, Gwasanaeth Addysg Ethnig Lleiafrifol Gwent). **Gellir rhoi cynllun gweithredu ar waith** i ystyried a pharatoi ar gyfer ymsefydlu yn yr ysgol, y cyfnod ymgartrefu cychwynnol a ffyrdd o fynd i'r afael ag unrhyw broblemau neu anawsterau posib o ran lles a chaffael iaith.

Yn y cyfarfod amlasiantaeth cychwynnol hwn, mae angen rhannu gwybodaeth allweddol sylfaenol am y teulu a'r plant/pobl ifanc o fewn y teulu, a dylid cynnwys dyddiadau geni, iaith gyntaf, unrhyw ieithoedd eraill y maent yn eu siarad, eu crefydd ac a ydynt yn arfer eu crefydd ai peidio, yn ogystal ag unrhyw broblemau iechyd y mae angen i'r ysgol wybod amdanynt.

**Effeithiau trawma a dadleoli:** mae'n werth ystyried, o safbwynt addysgol, effaith ehangach yr amhariad sydd wedi digwydd i'r plant hyn a'u teuluoedd. Bydd nifer o'r plant o Wcráin wedi cyrraedd heb aelodau gwrywaidd eu teulu, sydd wedi gorfod aros yn Wcráin i ymladd, ac efallai nad ydynt wedi clywed ganddynt ers peth amser. Gallai plant eraill yr effeithiwyd arnynt gan ymfudiad fod wedi gorfod gadael perthnasau hŷn, fel neiniau a theidiau, eu cartrefi, eu heiddo a'u hanifeiliaid anwes. Mae'r holl newidiadau hyn sydd wedi'u gorfodi ar eu hamgylchiadau yn siŵr o gael effaith ar eu bywydau yn y tymor byr a'r hirdymor.

Mae'n bwysig yn y cyd-destun hwn bod ysgolion yn ymwybodol o unrhyw drawma y mae'r plant/pobl ifanc a gweddill y teulu wedi ei ddioddef neu wedi bod yn dyst iddo, gan y gallai hyn gael rhywfaint o effaith ar sut y maent yn ymgartrefu yn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae'n hanfodol canfod a yw'r plant/pobl ifanc wedi mynychu'r ysgol; yr ieuengaf ydynt (e.e. o fewn y Cyfnod Sylfaen), y lleiaf tebygol fydd hi y byddant wedi cael unrhyw brofiad o addysg ffurfiol neu gyn-ysgol. Mae hefyd yn gyffredin i rai o'r plant/pobl ifanc fod wedi cael addysg ysbeidiol neu ran amser, yn bennaf oherwydd eu bod wedi'u dadleoli neu am nad oeddent yn gallu fforddio cost addysg yn y wlad yr oeddent yn ceisio lloches ynddi. Efallai na fydd rhai wedi cael unrhyw addysg ffurfiol ers rhai blynyddoedd, neu efallai y bydd oedi yn eu datblygiad (ond nad ydynt wedi cael diagnosis).

## Cyfarfod Croeso (Cyflwyniad i'r Ysgol)




*Er mwyn croesawu'r plant/pobl ifanc newydd a'u rhieni, bu i Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII baratoi cyflwyniad gweledol byr gyda chyfieithiad Arabeg o eiriau ac ymadroddion allweddol, a gafodd ei gyflwyno gan y Pennaeth i groesawu'r teuluoedd i'w hysgol.*

**Trefnwch Gyfarfod Croeso i'r rhieni a'r plant, yn ddelfrydol gyda dehonglwyr a chyfieithwyr**. Yn y cyfarfod hwn, gallwch sicrhau bod y teuluoedd yn cael eu croesawu ac yn teimlo'n ddiogel, ond mae hefyd yn gyfle gwych i egluro ambell i fater allweddol:

- System Addysg Cymru yng nghyd-destun yr ysgol y byddant yn ei mynychu.
- Tawelu meddwl rhieni ynghylch diogelwch eu plant tra byddant yn yr ysgol.
- Egluro’r hyn y mae cysyniadau fel ‘partneriaeth rhwng y cartref a’r ysgol’ yn ei olygu, gan y gallent fod yn newydd iddynt.
- Rhoi trosolwg iddynt o amserau a threfnau’r ysgol.
- Amlygu’r gwahaniaethau mewn dulliau addysgu.
- Y Cwricwlwm Cymreig: dwyieithrwydd a’r hyn y mae’n ei olygu.
- Cwricwlwm sy’n seiliedig ar chwarae yng Nghyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar.
- Sut y bydd y plant yn cael cymorth i ddysgu Saesneg.
- Gofynion o ran gwisg ysgol, gwisg ymarfer corff, cyfleusterau newid ar wahân i enethod a bechgyn.
- Disgwyliadau o ran gwneud gwaith cartref a chyfleoedd ar gyfer dysgu allgyrsiol (yn enwedig dysgu digidol) drwy’r ysgol neu’r llyfrgell gyhoeddus.
- Amlinellu’r disgwyliadau o ran cymryd rhan ym mywyd yr ysgol a’r hyn y mae ymddygiad ‘da’ yn ei olygu.

Gellir defnyddio’r amser hwn hefyd fel cyfle i gyflwyno aelodau allweddol o’r staff a allai fod yn rhan o addysgu’r plant a chefnogi’r teuluoedd:

- Y Pennaeth
- Yr Athro Dosbarth/Blwyddyn
- Yr Athro Ymgysylltu â Theuluoedd
- Y Cydlynydd ADY

Dilynwch y cyfarfod gyda thaith o amgylch yr ysgol gyda chymorth dwyieithog. Mae'n gyfle delfrydol i gyflwyno 'Cyfeillion' i helpu tywys y newydd-ddyfodiaid a'u teuluoedd o amgylch yr ysgol, gan gymryd y cam cadarnhaol cyntaf tuag at sefydlu perthynas dda.

## Cyfweliad Derbyn

Gellir cynnal y cyfweliad derbyn gyda theuluoedd a phlant / pobl ifanc cyn y Cyfarfod Croeso, ond mae rhai Penaethiaid wedi sôn ei bod yn well eu cynnal ar ôl hynny, o'u profiad nhw. Bydd y ffoaduriaid sy'n dod drwy un o'r cynlluniau adsefydlu wedi cael nifer fawr o gyfweliadau a chyfarfodydd swyddogol lle byddant wedi cael eu holi'n drylwyr gan swyddogion y Sefydliad Rhyngwladol Ymfudo a'r Swyddfa Gartref, cyn iddynt gael eu derbyn i'r DU. **Gallai rhai teuluoedd gysylltu cyfweliadau swyddogol â phrofiadau negyddol yn y gorffennol, a bod yn amheus iawn o'r broses.** Unwaith y bydd y teuluoedd yn teimlo'n ddiogel ac yn gartrefol, gellir mynd i'r afael â chwestiynau am iechyd, dysgu blaenorol, diddordebau a materion ymarferol o ran cod gwisg yn y cyfarfod hwn, gan wneud trefniadau ar gyfer unrhyw arferion crefyddol (os oes angen).

Er y gallai gwybodaeth allweddol fod wedi cael ei rhannu yn y cyfarfod aml-asiantaeth cychwynnol, bu nifer o achosion lle mae teulu wedi datgelu gwybodaeth yn y cyfweliad derbyn nad oeddent wedi'i datgelu mewn cyfarfodydd blaenorol.

*Mewn un ysgol gynradd, enghraifft anarferol o hyn oedd teulu gydag 'efeilliaid'. Ond camgymeriad oedd hyn – rhoddodd y dystysgrif geni wreiddiol yr un dyddiad geni i'r plant oherwydd 'gwall teipio', ac ni allai'r teulu fforddio ei gywiro! Gan fod y plant mor ifanc ar y pryd (oedran Derbyn a Blwyddyn 1), nid oeddent yn credu ei fod yn fater digon pwysig i sôn amdano. Yn naturiol, cafodd hyn effaith annisgwyl ar gynllunio ar gyfer mynediad grŵp blwyddyn a chael gafael ar Brydau Ysgol am Ddim. Sylwch fod y Swyddfa Gartref wedi cael gwybod am y broblem er mwyn mynd i'r afael â hi!*

**Eglurwch pwy y gall y teulu gysylltu â nhw os oes yna broblem**: mae angen iddynt gwrdd â'r unigolyn hwnnw/unigolion hynny a chael ffordd syml o gael gafael arnynt os bydd angen. Efallai y bydd angen cyfieithu geiriau ac ymadroddion allweddol o'r Saesneg i iaith y cartref pan na fydd cymorth dwyieithog ar gael.




## Cyfeillion: Pwysigrwydd Cyfeillgarwch a Modelau Rôl

**Mae'r holl waith paratoi sydd ei angen i drefnu Cyfeillion ar gyfer newydd-ddyfodiaid wir werth yr ymdrech yn y pen draw.** Mae newydd-ddyfodiaid a'u teuluoedd wedi dweud mai dyma'r plant sydd wedi parhau i fod yn ffrindiau iddynt hyd yn oed ar ôl y cyfnod ymsefydlu cychwynnol. Mae'n bwysig bod y Cyfeillion wedi cael gwybod beth sydd angen ei wneud a sut i ymddwyn yn briodol cyn i'r disgyblion newydd ddechrau. Bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o anghenion posib y newydd-ddyfodiaid (e.e. dysgu iaith newydd, gwneud ffrindiau, ymgyfarwyddo). Bydd empathi, cydymdeimlad a hyblygrwydd o fewn ffiniau yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf hynny, gan oedolion a chyfoedion fel ei gilydd, yn helpu i wneud y broses honno o gychwyn bywyd ysgol newydd yn fwy esmwyth. Yn ddelfrydol, dylech gyflwyno 'Cyfeillion' ysgol i'r disgyblion newydd yn ystod y Cyfarfod Croeso, neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosib.

Argymhellir bod mwy nag un Cyfaill yn cael ei neilltuo i ddisgyblion newydd at wahanol ddibenion, i sicrhau nad oes unrhyw un disgybl yn teimlo mai dim ond nhw sy'n gyfrifol am les rhywun arall. Bydd hyn hefyd yn ffordd arall o ddiwallu anghenion amrywiol y newydd-ddyfodiad.

Rhowch wobrau a chydnabyddiaeth am y rôl y mae'r Cyfeillion yn ei chwarae i ddarparu cefnogaeth i'w cyfoed newydd. Mae hon yn rôl allai wneud gwahaniaeth sylweddol i les grŵp bregus o unigolion, a gall fod yn heriol iawn ar adegau.




(***Arolwg Adborth Disgyblion sy'n Ffoaduriaid** - GEMS*)

Mae angen i Gyfeillion fod yn:

- Groesawgar a chyfeillgar.
- Modelau rôl da o ran **iaith**.  (Iaith y cartref os yw'n bosib **a** Saesneg i osgoi dibynnu gormod ar y rhai sy'n siarad yr un iaith, ac i sicrhau eu bod yn integreiddio).
- Modelau rôl da o ran **ymddygiad**.
- Rhywun sy'n dangos empathi a chydymdeimlad ac yn dangos sgiliau Personol, Cymdeithasol a Lles da.

Gall Cyfaill/Cyfeillion roi taith 'hanfodion' i ddisgyblion newydd o amgylch yr ysgol (toiledau, neuadd fwyta, yr iard chwarae gywir i fynd iddi yn ystod amser egwyl), a helpu rheoli sefyllfaoedd a allai beri gofid, fel amser cinio, amser chwarae, amser mynd adref, Addysg Gorfforol ac unrhyw wersi sy'n digwydd y tu allan i'r brif ystafell ddosbarth ac a allai gynnwys gwahanol oedolion.

Gwnewch yn siŵr bod yna gyfleoedd i Gyfeillion a modelau rôl da eraill chwarae gemau iaith gyda'r disgybl newydd.  Gellir cysylltu hyn â defnyddio adnoddau SIY a'r cwricwlwm.

Defnyddiwch iaith/ffaniau gwepluniau i helpu'r disgyblion fynegi eu hanghenion a'u hemosiynau pan nad oes cymorth ar gael yn iaith y cartref. (Mae gan www.sparklebox.co.uk a www.twinkl.co.uk enghreifftiau da). Defnyddiwch aelodau staff dwyieithog (pan fo'n bosib) a chyfoedion i helpu sefydlu hyn.




Gall Cyfeillion helpu gyda deall ffyrdd o weithio yn y dosbarth drwy fodelu'r ymddygiad a dymunir ac/neu gyfieithu pan fo hynny'n bosib. Mae'n bwysig cofio pa mor flinedig yw hi i ddisgyblion y mae'r iaith Saesneg yn newydd iddynt, a pha mor anodd yw dysgu a gweithio drwy gyfrwng iaith newydd bob dydd, bum diwrnod yr wythnos. Mae hyn yn aml yn arwain at ddiflastod, aflonyddwch ac awydd i ddianc o'r ystafell ddosbarth drwy ymweld â'r 'cyfleusterau' yn rheolaidd. Rhowch 'seibiant' iddynt gyda chyfaill pan fydd hyn yn digwydd.



## Paratoi'r Ysgol a'r Ddarpariaeth Gychwynnol ar gyfer y Newydd-ddyfodiaid

**Er mwyn sicrhau croeso cadarnhaol i'r teuluoedd, mae angen system gyfathrebu da ac ymatebion hyblyg i anghenion ehangach y plant sydd ar fin dod yn ddisgyblion.** Mae'n hanfodol rhannu gwybodaeth gydag athrawon er mwyn iddynt allu cynllunio'n effeithiol ar gyfer cynhwysiant, cefnogaeth gan gymheiriaid yn y dosbarth ac i olrhain ac adolygu cynnydd.

Rhaid ystyried anghenion pob teulu ynghyd â'u plant, a hynny fesul achos. Nid yw plant mudol yn grŵp unffurf gydag anghenion neu broblemau unffurf, felly mae'n bosib y bydd angen cyfnod ymsefydlu 'pwrpasol' yn dibynnu ar eu profiadau a chanlyniad sgyrsiau cychwynnol rhwng rhieni a'r ysgol am sut y byddant yn ymdopi os nad ydynt erioed wedi bod yn yr ysgol neu heb fynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Mae'n gyffredin i rieni fod eisiau i'w plant ddechrau'r ysgol yn llawn amser ar unwaith, am eu bod eisiau iddynt ailddechrau bywyd 'normal' a dal i fyny ar yr addysg y maent wedi'i cholli o ganlyniad i'r rhyfel a dadleoli. Mae teuluoedd ffoaduriaid o bob cefndir yn aml yn uchelgeisiol iawn ac yn rhoi gwerth uchel ar addysg, ac yn aml yn cyflawni'n uchel iawn. Fodd bynnag, mae angen rheoli eu disgwyliadau yn sensitif. Yn seiliedig ar anghenion, profiadau ac oedran y plant/pobl ifanc, mae angen ystyried y cyngor canlynol:

- **Cychwyn yn yr Ysgol yn Llawn Amser**

**Ar ôl rhoi'r cyfweliadau derbyn a'r paratoadau ar waith, gall cychwyn yn yr ysgol yn llawn amser ar unwaith helpu'r plant/pobl**

**ifanc i ymgartrefu'n gyflym, sydd o fantais i'r rhai sy'n awyddus iawn i ddechrau ar unwaith.** Hyd yn oed os yw'r tymor ysgol bron â gorffen, bydd cyfle iddynt feithrin perthynas â'u cyfoedion cyn symud i fyny i'r grŵp blwyddyn nesaf neu ddechrau ar dymor newydd. Bydd cyfle iddynt ymgyfarwyddo â chynllun yr ysgol, dysgu sut mae ysgol yng Nghymru yn gweithio a dysgu rhywfaint o eiriau ac ymadroddion Cymraeg/Saesneg syml i gyfathrebu.

- **Cychwyn yn yr Ysgol Fesul Cam**

> Cydweithiodd Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII ac Ysgol Gynradd Golwg y Deri i gynllunio ar gyfer y teuluoedd yr oedd ganddynt yn gyffredin, gan drefnu i'r disgyblion sy'n ffoaduriaid o Syria gychwyn yn yr ysgol fesul cam. Dechreuodd diwrnod 1 gyda'r Cyfarfodydd Croeso a thaith o amgylch eu hysgolion gyda'r teuluoedd; cynhaliwyd cyfweliadau derbyn gyda'r Athrawon Ymgysylltu â Theuluoedd/ Cydlynwyr ADY/ Penaethiaid ar ddiwrnod 2; cafodd gwybodaeth allweddol ei chyfleu i'r staff perthnasol ar ddiwrnod 3, gan alluogi'r staff i baratoi eu hunain a'r dosbarth ar gyfer y newydd-ddyfodiaid, ac yna dechreuodd y plant/pobl ifanc yn rhan amser ar ddiwrnodau 4 a 5. Ar ddiwrnodau 4 a 5, roedd yr athrawon dosbarth yn gallu barnu a oeddent yn barod am ddiwrnod llawn ai peidio, a pharatoi ar gyfer unrhyw broblemau a allai fod wedi codi. Rhoddwyd anghenion lles y disgyblion uwchlaw'r cwricwlwm ar y cam hwn.
>
> ***(Gweler yr Adran Adnoddau am bytiau o gyfweliadau gan Benaethiaid Ysgol Gynradd Golwg y Deri ac Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII)***

Mae problemau wedi codi mewn ysgolion eraill sydd wedi galw am yr angen i gychwyn disgyblion yn yr ysgol fesul cam. Mae'r rhain yn cynnwys disgyblion yn disgyn i gysgu ganol y bore/prynhawn; crio gofidus am gyfnodau hir; ymdrechion i fynd adref; ymddygiad goddefol/ymosodol, i enwi rhai yn unig.

- **Amserlennu a Gosod Disgyblion mewn Grŵp Blwyddyn**

**Yn CA3/CA4, mae angen ymagwedd hyblyg wrth fynd ati i lunio amserlen ar gyfer pobl ifanc.** Yn ddelfrydol, dylai hon fod mor agos at amserlen lawn ag sy'n bosib. Wrth i anghenion a galluoedd y disgyblion ddod yn fwy amlwg, gellir gwneud addasiadau i ddiwallu'r anghenion hynny yn nes ymlaen. Mae'n fwy priodol i'r disgyblion ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9 gael amserlen arferol gyda'u cyfoedion. Dylid gwneud mân newidiadau a chynnig cymorth dwyieithog i'w helpu i ddilyn y cwricwlwm. I'r rheini sydd ym Mlynyddoedd 10 ac 11, efallai y bydd angen i'r ysgol greu llwybr mwy 'pwrpasol' yn dibynnu ar alluoedd a diddordebau'r disgyblion. Byddant naill ai'n gallu cael amserlen sydd bron yn llawn amser gyda'u cyfoedion neu bydd angen creu amserlen arbennig iddynt gyda nifer cyfyngedig o bynciau, a gallent fod angen sesiynau dwbl o bynciau penodol (e.e. Iaith Saesneg a Mathemateg mewn grwpiau dwy flynedd).

**Efallai y bydd ysgolion yn dymuno rhoi disgyblion mewn grŵp blwyddyn is, a bydd pob awdurdod lleol yn cael arfer eu doethineb yn hyn o beth.** Ond mae'n bwysig cofio, os bydd y disgyblion hyn wedyn yn symud i ysgol arall, awdurdod lleol arall neu’n symud y tu hwnt i Gymru, efallai y bydd yr ysgol sy'n eu derbyn eisiau gosod y disgybl yn y grŵp blwyddyn sy'n briodol i'w hoedran. Gall hyn effeithio ar astudiaethau'r disgybl a allai fod wedi ei roi mewn grŵp blwyddyn is yn yr ysgol flaenorol. Gall rhoi disgyblion mewn grŵp blwyddyn is gynyddu eu siawns o lwyddo os nad yw’r teuluoedd yn symud a’u bod yn ymgartrefu yn yr ysgol. Mae'n rhoi mwy o amser iddynt gaffael y sgiliau angenrheidiol a'r iaith Saesneg i allu dilyn y cwricwlwm ac ennill cymwysterau, fel TGAU. O ran disgyblion sy’n cyrraedd yn hwyr, e.e. yn ystod tymor yr haf mewn blwyddyn bontio allweddol fel Bl 6, Bl 10 neu Bl 11, efallai y bydd angen ystyried eu cadw yn y grŵp blwyddyn hwnnw am flwyddyn lawn arall, i’w drafod gyda gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol.

**Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i setio/grwpio disgyblion y mae Saesneg yn newydd iddynt. Mae'n bwysig eu bod yn cael cyflwyniad i fodelau ieithyddol Saesneg da**. Mae hyn yn fwy tebygol o ddigwydd mewn setiau uwch. Mae'r grwpiau hyn yn fwy tebygol o gael modelau rôl effeithiol o ran ymddygiad dymunol a chymorth cyfoedion. Ni argymhellir eu bod yn cael eu rhoi mewn setiau is oherwydd y gymhareb oedolyn/disgyblion uwch neu waith sy'n rhy hawdd. Mae setiau is hefyd yn tueddu i anelu at gefnogi disgyblion ag anawsterau dysgu penodol neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Oni nodwyd yn glir bod gan y newydd-ddyfodiaid ADY, mae'n well gosod disgyblion y mae Saesneg yn newydd iddynt mewn grwpiau yn ôl eu gallu gwybyddol yn hytrach na lefel eu Saesneg llafar.

- **Amserlenni gweledol**

**Mae'n werth cofio y bydd rhai plant/oedolion ifanc mudol nid yn unig yn dysgu Saesneg o’r newydd, ond hefyd o bosib yn dioddef trawma cymhleth** yn ogystal â sioc ddiwylliannol o fod wedi symud i wlad newydd, a bydd angen gwneud iddynt deimlo'n ddiogel a chyfforddus o'r cychwyn. Mae gwybod beth sy'n dod nesaf a chael trefn arferol y gallant ei deall yn hawdd yn bwysig i sicrhau eu lles ac osgoi dechrau anodd i'w bywyd ysgol newydd.

**Rhowch amserlen weledol iddynt gyda geiriau ac ymadroddion allweddol yn iaith eu cartref (os yw'r newydd-ddyfodiaid yn llythrennog yn iaith eu cartref), ynghyd â map gweledol o'r ysgol.** Gadewch i 'Gyfaill' neu dywysydd dwyieithog eu tywys o amgylch yr ysgol gyda'r map i'w helpu i ddod i ddeall lle mae popeth. Rhowch amserlen weledol iddynt ar gyfer pob pwnc, gyda llun o'r athro a'u henw wrth ymyl y symbol gweledol, fel bod y disgyblion yn gallu eu hadnabod.

Ar gyfer ysgolion cynradd, mae'n fuddiol trefnu amserlenni gweledol gyda ffotograffau o wahanol leoedd yn yr ysgol, gan ddangos disgyblion yn gwneud y gweithgareddau dan sylw, e.e. cael cinio, mynd i chwarae allan, Ysgol Goedwig ac ati.

***Enghraifft o amserlen weledol ar gyfer dosbarth Bl2, Ysgol Gynradd Maindee***



- **Rhannu Gwybodaeth Derbyn gydag Aelodau Staff**

Yn Ysgol Gynradd Maindee yng Nghasnewydd, defnyddiwyd staff dwyieithog i ysgrifennu a thrawslythrennu geiriau ac ymadroddion Arabeg allweddol yn erbyn yr ymadroddion Saesneg a ddefnyddir yn aml, ac sydd eu hangen i ryngweithio â staff gweinyddol/y dderbynfa. Mae rhieni sy'n siarad Arabeg, gydag ychydig iawn o Saesneg, os o gwbl, yn ei ddefnyddio i helpu cyfleu'r pethau y mae angen i ysgolion wybod, e.e. os yw eu plentyn yn sâl, os oes ganddynt apwyntiad neu broblem sy'n ymwneud ag arian cinio ac ati.

**Hysbyswch a pharatowch y staff a fydd yn ymwneud â dysgu'r plant/pobl ifanc yn eich ysgol.** Gall hyn hefyd gynnwys yr aelodau staff a fydd yn dod i gysylltiad â'r rhieni yn ogystal â'r plant/pobl ifanc yn achlysurol neu'n ysbeidiol, fel staff y dderbynfa neu staff sydd ar ddyletswydd amser cinio (staff y ffreutur, athrawon/cymorthyddion addysgu sydd ar ddyletswydd amser chwarae).

**Gall fod gan blant sy'n ffoaduriaid anghenion mwy cymhleth nad oes ganddynt unrhyw beth i'w wneud â lefel eu Saesneg na'r ffaith eu bod yn dod o gefndir ethnig gwahanol.** Os ydynt wedi dioddef trawma, heb fynychu ysgol o'r blaen, wedi treulio amser mewn

gwersyll ffoaduriaid, wedi byw gyda rhieni sy'n sâl neu sydd hefyd yn teimlo effaith y gwrthdaro, dadleoli ac ailsefydlu mewn gwlad newydd, gallai'r holl ffactorau hyn gyfrannu at sbarduno ymddygiad anarferol neu ofidus (*gweler yr adran ar **Ofal Bugeiliol / Lles***). Felly, mae o fudd i bawb fod yn ymwybodol o'u dyfodiad a bod wedi cytuno ar gynllun o ran sut i ddelio ag unrhyw anawsterau wrth iddynt godi. Bydd angen i athrawon gael y manylion cefndir hanfodol a gasglwyd yn ystod y cyfweliad derbyn, megis eu hiaith gyntaf, a ydynt yn siarad neu'n deall unrhyw Saesneg, pa grefydd y maent yn ei dilyn neu a ydynt o grŵp lleiafrifol, yn ogystal ag unrhyw addysg flaenorol neu gefndir addysgol sydd ganddynt. Mae angen rhannu manylion am unrhyw drawma y mae'r plant/pobl ifanc wedi'i ddioddef, os yw'r wybodaeth hon ar gael, gan y gallai hyn helpu gyda'r gwaith cynllunio a pharatoi yn y dosbarth a gyda chyfoedion cyn iddynt gyrraedd.

**Neilltuwch Fentor Dysgu neu Fentor Bugeiliol i ddisgyblion hŷn, i gydlynu a monitro eu dysgu yn gyffredinol a sicrhau bod eu lles a'u hintegreiddiad yn yr ysgol yn parhau.** Gwnewch yn siŵr bod y plant/pobl ifanc a'r rhieni yn gwybod pwy yw'r unigolyn hwnnw. Bydd angen iddynt wybod pwy y gallant gysylltu â nhw os byddant yn cael trafferthion neu os oes ganddynt unrhyw angen. Gall yr unigolyn hwn hefyd fod yn athro dosbarth, yn Gydlynydd ADY neu'n Gydlynydd Ymgysylltu â'r Teulu.

- **Hyfforddiant**

**Mae'n werth buddsoddi amser ar hyfforddiant mewn dau faes allweddol i helpu staff i baratoi a diwallu anghenion eu disgyblion sy'n ffoaduriaid.** Yn gyntaf, mae hyfforddiant ar gefndir y wlad wreiddiol cyn ac ar ôl yr amgylchiadau/gwrthdaro presennol wedi profi i fod yn hynod werthfawr. Mae ysgolion sydd wedi derbyn hyn drwy GEMS, IOM neu unrhyw rai o'r sefydliadau elusennol sy'n gysylltiedig ag ymgartrefu plant a effeithiwyd gan ymfudiad (Y Groes Goch, Achub y Plant a Chyngor Ffoaduriaid Cymru), wedi sôn cymaint y gwnaeth yr hyfforddiant eu paratoi ar gyfer yr heriau posib. Rhoddodd gyd-destun i aelodau staff prif ffrwd ddeall a dangos empathi tuag at eu disgyblion newydd, yn ogystal â sylweddoli natur a photensial system addysg eu cartref cyn i'r angen i ffoi ddechrau. Yn ail, mae hyfforddiant ar strategaethau dysgu ac addysgu SIY hefyd yn werthfawr i sicrhau bod yr holl staff yn barod i gefnogi eu newydd-ddyfodiaid. (Mae dulliau o addasu a chreu ffyrdd i ddilyn y cwricwlwm i'w gweld yn adrannau 5 a 6).

- **Adnoddau eraill**

**Cynhaliwch archwiliad o adnoddau addas i gefnogi eich newydd-ddyfodiaid cyn i'r disgyblion sy'n ffoaduriaid gyrraedd**. Bydd angen ymchwilio i wefannau ac offer cyfieithu a hyd yn oed gosod rhaglenni fel Google Translate ac EMAS UK. Os yw'n bosib, archebwch adnoddau fel geiriaduron dwyieithog neu weledol cyn iddynt gyrraedd, yn ogystal ag unrhyw gymhorthion digidol ychwanegol fel Pinnau Ysgrifennu sy'n Siarad http://uk.mantralingua.com/, gliniaduron/ dyfeisiau llechen/ Chromebooks/ iPads. Ar gyfer plant hŷn, ystyriwch archebu canllawiau astudio am eu bod fel arfer yn cynnwys fersiwn gryno weledol o'r testun e.e. Canllawiau Testun Saesneg TGAU CGP www.cgpbooks.co.uk. Efallai fod adnoddau arbenigol hefyd ar gael i'w benthyg gan wasanaethau rhanbarthol EMTAS. (Trowch at y bennod ar Astudiaethau Achos am enghreifftiau o'r arferion gorau a dolenni i wasanaethau EMAS a'u hadnoddau).

Mae amgylchedd ac adnoddau'r Cyfnod Sylfaen yn ddelfrydol i blant ifanc ddysgu iaith a dilyn y cwricwlwm mewn ffordd ymarferol sy'n berffaith i ddysgwyr sydd wedi'u hamddifadu o brofiadau blynyddoedd cynnar.

Gall chwarae synhwyraidd ac archwiliol dan do ac yn yr awyr agored fod o gymorth, nid yn unig i ddysgu Saesneg, ond hefyd i roi cyfleoedd i fagu hyder yn eu hamgylchedd newydd, rhyngweithio â chyfoedion, a gwneud synnwyr o'r straen a'r newidiadau y maent wedi'u hwynebu yn eu bywydau ifanc. Mae chwarae gyda thywod, dŵr, toes, teganau byd bach (e.e. ffigurau, anifeiliaid a doliau), cerbydau tegan, traciau trên a theganau adeiladu (Lego, Duplo a blociau pren) yn hanfodol, yn ogystal â'r cyfoeth o ddeunyddiau creadigol sy'n gysylltiedig â'r Cyfnod Sylfaen.

- **Cymorth Ychwanegol**

**Ystyriwch pa gymorth ychwanegol y gellid bod ei angen a sut y bydd yn cael ei ddarparu.** Bydd angen ystyried hyn fesul achos unigol. Efallai y bydd angen cymorth mwy dwys i helpu disgyblion ddal i fyny gyda'u cyfoedion o ran sgiliau sylfaenol neu ddysgu Saesneg. Gallai hyn fod ar ffurf grwpiau bychain neu gymorth unigol yn y tymor byr.

Ewch i'r adran ar wefannau ac adnoddau i gael rhagor o syniadau a gwybodaeth.




# **Pennod 4: Gofal Bugeiliol a Lles**

(Gweler hefyd Pennod 11: Straen, Trawma, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod).


Ers cychwyn y rhyfel cartref yn Syria, y rhyfel yn Wcráin, meddiannaeth y Taliban o Affganistan, ynghyd â phob gwrthdaro arall sydd wedi codi, bu'r mater o ffoaduriaid yn bwnc llosg dadleuol sydd wedi codi cwestiynau ac iddynt ganlyniadau gwleidyddol, dyngarol a chymdeithasol. Mae delweddau a hanesion parhaus am ryfel, a phrofiadau'r unigolion sydd wedi ffoi rhag gwrthdaro, wedi creu cryn gydymdeimlad a phryder am les y rhai mwyaf bregus sydd bellach wedi dod yn ffoaduriaid. Efallai fod yr ysgolion yn y DU sy'n derbyn plant a phobl ifanc yn cynnig y lleoliad sefydlog cyntaf ers blynyddoedd lawer i'r teuluoedd hynny sy'n ymdrechu i gael sicrwydd a threfn, er mwyn gallu ail-ddechrau bywyd 'normal' (*gweler cyfweliadau rhieni Ysgol Gynradd Golwg y Deri*).

Fodd bynnag, ni fydd pob ymfudwr wedi wynebu trawma ac/neu'n dangos arwyddion sy'n gysylltiedig â thrawma.  Mae nifer o blant mudol yn ymgartrefu'n dda ac yn dysgu Saesneg yn gyflym gyda chefnogaeth.


Ond mae'n bwysig i ysgolion fod yn ymwybodol y gallai rhieni a'u plant fod wedi wynebu lefelau amrywiol o drawma, yn ogystal â bod yn dyst i weithredoedd a digwyddiadau erchyll sy'n gysylltiedig â rhyfel a dadleoli. Efallai eu bod wedi cael eu gwahanu oddi wrth aelodau agos eu teulu ac nad ydynt bellach yn gwybod a ydynt yn fyw neu'n farw.  Gall hyn beri pryder parhaus. Mae'n bosib y bydd y plant/pobl ifanc yn dangos arwyddion o drawma neu straen.  Mae'n bosib y byddant yn dangos y symptomau hyn o'r cychwyn, neu fe allent ymddangos yn nes ymlaen wrth iddynt ymgartrefu yn eu hamgylchedd newydd.

Mae angen i'r aelodau staff wybod y gallai'r plant/pobl ifanc hyn fod yn dioddef o effeithiau cyfunol newidiadau arwyddocaol mewn bywyd megis trawma, gwahanu, dadleoli a sioc ddiwylliannol. Yn naturiol, bydd gan hyn oblygiadau o ran eu hymddygiad yn eu cartref ac yn yr ysgol. Mae posib i hyn gael effaith negyddol ar eu lles a'u dysgu cyffredinol os nad eir ati i gynllunio a pharatoi ar gyfer y ffactorau hyn cyn iddynt gyrraedd.

Hierarchaeth Anghenion Maslow




**Abraham Maslow 1908-1970**
Seicolegydd a gynigiodd, trwy ei fodel pyramid o anghenion dynol, bod rhaid bodloni anghenion sylfaenol unigolion er mwyn iddynt ennill hunansylweddoliad.




Mae Hierarchaeth Anghenion Maslow yn dangos pa mor bwysig yw mynd i'r afael ag anghenion meddyliol a ffisiolegol plant/pobl ifanc sy'n ffoaduriaid ar ôl iddynt ddechrau yn yr ysgol. Os nad yw eu hanghenion sy'n is i lawr yn y pyramid yn cael eu bodloni, maent yn llai tebygol o feithrin digon o gymhelliant a theimlo'n ddigon diogel i ddatblygu ymdeimlad o hunansylweddoliad: eu potensial o ran pwy y gallant fod. Felly mae'n bwysig cydnabod arwyddion a symptomau trawma, colled, profedigaeth neu newid.

## Ymddygiad y Gall Disgyblion ei Ddangos os ydynt wedi Dioddef Trawma/Colled/Profedigaeth/Newid.

Gall plant mudol ddangos amrywiaeth eang o ymddygiad yn dilyn profiadau fel trawma, colled, profedigaeth neu newid. Gall ysgolion ddisgwyl gweld:

- ✓ Tristwch/iselder/llesgedd/aflonyddwch
- ✓ Natur flin neu ymosodol

- ✓ Gofid/pryder/tristwch
- ✓ Diffyg canolbwyntio
- ✓ Methu anwybyddu pethau sy’n tynnu eu sylw
- ✓ Lefel isel o ymddygiad aflonyddgar
- ✓ Gorfywiogrwydd
- ✓ Ansicrwydd oherwydd dieithrwch amgylchedd yr ysgol, yr offer, y diwylliant
- ✓ Ofn larymau tân, effeithiau sain uchel, sŵn clecian uchel
- ✓ Ofn grwpiau o ddynion neu ddynion mewn gwisg ffurfiol - (diffyg ymddiriedaeth yn yr heddlu am eu bod yn/yn arfer cael eu defnyddio gan y ddwy ochr yn y gwrthdaro i ‘gasglu’/holi pobl/achosi anaf).

Gallai’r disgyblion fod yn ymosodol neu'n aflonyddgar fel ffordd o fynegi rhwystredigaeth. Efallai nad oes ganddynt ffiniau os nad ydynt wedi arfer â rheolau a threfnau'r ysgol, a gall hyn, ynghyd â'r rhwystr iaith ychwanegol, ddod yn gyfuniad anodd o broblemau i'w rheoli heb ystyriaeth briodol. Efallai y bydd rhai disgyblion yn gyfarwydd â chyfrifoldeb a bod yn ‘gyfrifol’ fel oedolyn am frodyr neu chwiorydd iau, neu am eu bod wedi gorfod gweithio yn hytrach na mynd i'r ysgol.  Gall newid yn ôl i fod yn 'blentyn/person ifanc' fod yn heriol i rai ffoaduriaid, yn enwedig os ydynt wedi bod yn ymddwyn mewn 'rôl oedolyn' ers peth amser. Bydd angen amser ar rai ohonynt a chymorth gan yr ysgol i wneud yr addasiad seicolegol.

Efallai na fydd rhai plant/pobl ifanc yn gallu ymddiried mewn oedolion neu fe allai cael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd/rhieni beri gofid iddynt. Efallai y byddant yn crio am gyfnodau hir, gan lynu wrth ofalwyr neu geisio rhedeg i ffwrdd. Dyma ffyrdd eraill mwy eithafol y gall y plant/pobl ifanc ymateb:

- ✓ Meddwl yn ddi-baid am ddigwyddiadau trawmatig a brofwyd/a welwyd (gan arwain at 'ddatgelu' i eraill o bosib).
- ✓ Ail-fyw profiadau trawmatig drwy chwarae a gwneud lluniau.
- ✓ Hunan-niweidio/anafu eu hunain.
- ✓ Cadw draw oddi wrth gyfoedion ac oedolion.

Gallai symptomau corfforol trawma gynnwys:

- ✓ Methu cysgu
- ✓ Hunllefau
- ✓ Gwlychu’r gwely
- ✓ Colli’r awydd am fwyd (hefyd oherwydd y newid yn eu diet o bosib)
- ✓ Poenau

✓ Creithiau/anafiadau corfforol

**Sut i helpu/Mynd i'r afael â'r Problemau**

- Rhoi anghenion emosiynol y disgyblion o flaen canlyniadau addysgol.

Mae'n anodd dysgu ac addysgu'n effeithiol os nad yw lles a diogelwch plentyn/person ifanc yn cael sylw fel blaenoriaeth gyntaf a pharhaus.

- Dyrannu a dewis aelodau penodol o staff i helpu'r disgyblion (e.e. Cydlynydd ADY, mentor bugeiliol/dysgu, Cymorthyddion Addysgu Dwyieithog, arbenigwyr SIY/EMTAS fel GEMS).
- Creu cysylltiadau ag asiantaethau allanol:

  Cenedl Noddfa

  Dewis Cymru

  Hyb ACE Cymru

Efallai y bydd angen ceisio cyngor a hyfforddiant gan arbenigwyr eraill fel seicolegwyr addysg, therapyddion, gwasanaethau cwnsela, neu ymgynghori ag elusennau sydd ag arbenigwyr yn y maes hwn, fel Achub y Plant, Alltudion ar Waith DPIA, Y Groes Goch Brydeinig a'r Cyngor Ffoaduriaid.

Cyfleoedd i feithrin perthynas/cael seibiant o'r sefyllfa, yn enwedig gyda chyfaill sy'n cydymdeimlo â'u hanghenion neu sy'n siarad yr un iaith.

Gall fod yn fuddiol hefyd i ddisgyblion hŷn wrando ar gerddoriaeth, gwylio ffilmiau a darllen yn eu hiaith eu hunain. Ond cofiwch nad yw'n anghyffredin i ddisgyblion sy'n ffoaduriaid fod eisiau creu pellter rhyngddynt â'r wlad a oedd yn gartref iddynt, ac mae rhai yn hapusach yn edrych ac yn gwrando ar bethau cyfarwydd yn Saesneg hyd yn oed os nad ydynt yn deall yr hyn y maent yn ei weld neu'n ei glywed.

- Llunio Cyfeillgarwch

Bydd angen cymorth ar rai disgyblion i wneud ffrindiau gan ei bod yn bosib nad ydynt wedi arfer llunio perthnasoedd y tu allan i'w teulu. Mae'n bosib camddeall ymddygiad sy'n cynnig cyfeillgarwch, a gall ymddangos yn ymosodol ac yn amhriodol i ni. Efallai y bydd angen cyfaill neu oedolyn i fodelu ymddygiad 'cyfeillgarwch' iddynt yn iaith eu cartref.

- Cyfleoedd i chwarae'n rhydd (yn enwedig mewn mannau chwarae rôl).

Mae hyn yn caniatáu i blant gyfleu teimladau a phroblemau drwy chwarae ac o bosib actio digwyddiadau anodd y maent wedi eu hwynebu.

- Dilyn trefn 'arferol' o fynychu'r ysgol yn rheolaidd.

- Dysgu am reolau a ffiniau.

Rhaid neilltuo amser i helpu a modelu ffiniau a rheolau. Gallwch ddefnyddio cymorth dwyieithog neu gyfoedion/cyfeillion i gyflawni hyn trwy fodelu ymddygiad dymunol e.e. eistedd i lawr; sefyll mewn llinell; chwarae gemau i ymgyfarwyddo â chymryd tro. Ewch ati i gyfleu gorchmynion a chanmoliaeth drwy ailadrodd geiriau ac ymadroddion allweddol byr sy'n ymwneud â dilyn rheolau e.e. 'stopia', 'eistedd da', 'dy dro di, fy nhro i' a defnyddio ystum i ategu hynny neu ddefnyddio darluniau fel Cardiau Cyfathrebu ac Ymddygiad.

[Visual supports (autism.org.uk)]

- **Cynlluniwch a pharatowch eich gweithgareddau a'ch gwersi gan roi ystyriaeth ofalus i bethau sy'n gysylltiedig â gwrthdaro a allai sbarduno pryder a straen.**

Gall pynciau sy'n gysylltiedig â rhyfel e.e. Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd, neu straeon sydd wedi'u lleoli adeg rhyfel, fel *Oranges in No Man's Land* a *Goodnight Mr. Tom*, gynnig cyfleoedd da i ddatblygu agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu drwy drafodaeth neu ddrama/chwarae rôl, a chyfle i rannu profiadau. Ond gall hefyd ysgogi gofid, felly mae angen rhoi ystyriaeth i weithgareddau gan gofio anghenion y disgybl a gofynion y cwricwlwm.

> Mewn un ysgol gynradd, roedd plentyn o Syria yn edrych ar arteffactau'r Ail Ryfel Byd pan gyfeiriodd at y llyfr dognau a dweud, "Mae gan fy chwaer a fi lyfrau dognau yn Syria". Roedd yr athro dosbarth wedi bwriadu ail-greu'r *blitz* yn nes ymlaen, gan ddefnyddio effeithiau sain bomiau a seirenau a diffodd y goleuadau. Gan sylweddoli'r risg bosib o ofid i'w ddisgybl o Syria, anfonodd hi i ymchwilio i'r arteffactau gyda chyfaill mewn rhan arall o'r ysgol. Pan ddaethant yn eu holau, bu iddynt gyflwyno adborth ar eu canfyddiadau ac fe rannodd y dosbarth eu profiad rhithwir o'r *blitz* mewn trafodaethau dilynol.

- Dylai athrawon a staff gynnig anogaeth reolaidd a chanmol eu cynnydd o ran dysgu, caffael iaith a phan welir ymddygiad dymunol.

- Dylid rhoi cyfle i’r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgaredd neu ddiddordeb y maen nhw’n ei fwynhau, naill ai drwy glwb ar ôl ysgol neu yn y gymuned.

- Gall clybiau gwaith cartref helpu lleddfu straen a diffyg hunan-barch o ran bod 'ar ei hôl hi o’u cymharu â’u cyfoedion', neu gellir eu defnyddio fel cyfleoedd i gynnig cymorth iaith Saesneg os na ellir cynnig cymorth gartref.

- Byddwch yn wyliadwrus o fwlio a hiliaeth, yn yr ysgol a thu hwnt, a deliwch yn effeithiol ag achosion yn ddi-oed.

Gallai hyn olygu adolygu a diweddaru polisïau ar hiliaeth, darparu hyfforddiant i ddisgyblion a staff drwy ‘Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth’ a sefydlu dosbarthiadau sy'n 'ystyriol o ffoaduriaid’.



## Amgylchedd Croesawgar

Mae creu amgylchedd croesawgar sy'n adlewyrchu iaith a diwylliant y plentyn yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o wneud i blant sy'n ffoaduriaid deimlo'n gartrefol. Gellir creu arwyddion 'Croeso' yn iaith y cartref a’u gosod mewn ardaloedd dynodedig megis toiledau, swyddfa'r ysgol, y brif neuadd, ac ati. Mewn un ysgol gynradd, aeth cyfaill a Chymhorthydd Addysgu Dwyieithog (CAD) ati i greu labeli ar gyfer yr ardaloedd allweddol mewn Arabeg. Aethant â’r newydd-ddyfodiad ar eu 'taith' o amgylch yr ysgol gan roi'r labeli ar y gwahanol ardaloedd, ac ychwanegu rhai newydd yn ôl yr angen.  Roedd yn fesur dros dro a buddiol a wnaeth i’r plentyn wenu o glust i glust, gan osod naws dda ar gyfer gweddill y diwrnod.

Lluniwch arddangosfeydd neu osod lluniau cadarnhaol o bobl o ddiwylliannau eraill, gan gynnwys eu diwylliant nhw.

Gall arddangosfeydd dosbarth gynnwys iaith eu cartref ochr yn ochr â’r Saesneg neu wrth ymyl gwaith y plentyn (gall y CAD neu’r rhieni hwyluso hyn).

Mae modd cynnwys llyfrau dwyieithog mewn corneli darllen neu ddarparu mynediad at straeon digidol yn iaith y cartref. Mae nifer o straeon neu destunau traddodiadol ar gael ar lein.

## Cynnwys Teuluoedd

Mae'n hollbwysig cyfathrebu â theuluoedd yn iawn fel eu bod nhw a'u plant yn teimlo'n gartrefol, yn ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi. Sefydlwch bolisi drws agored a chyflwyno rhieni i unigolyn y gallant droi atynt yn benodol os oes ganddynt bryderon neu ofidion ynglŷn ag addysg neu les eu plentyn.

Pan fo'n bosib, rhowch ddeunyddiau wedi'u cyfieithu i'r rhieni; defnyddiwch eiriau ac ymadroddion Saesneg syml neu ddeunyddiau gweledol.  Rhowch flaenoriaeth i'r hyn y mae angen i'r rhieni ei wybod.

Ymgysylltwch yn gadarnhaol gyda'r rhieni ynghylch addysg eu plentyn. Hwyluswch gyfieithiadau lle bynnag y gallwch chi, er mwyn helpu rhieni i ddeall beth sy'n mynd ymlaen yn yr ysgol a pham. Gallai hyn olygu gwahodd rhieni i sesiynau yn yr ystafell ddosbarth i weld y plant yn chwarae ac yn gweithio, ac yn dysgu o fewn system addysg Cymru.

Estynnwch wahoddiad iddynt i ddigwyddiadau dosbarth fel gwasanaethau, Eisteddfodau, mabolgampau neu berfformiadau ysgol, ac, os yw'n bosib, eu cyfieithu, gan na fyddant o reidrwydd yn deall arwyddocâd neu bwysigrwydd y digwyddiadau hyn ym mywydau ysgol ein plant.

Dangoswch fod yr ysgol yn gwerthfawrogi ac yn parchu eu diwylliant, eu hiaith a'u cefndir crefyddol (gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth yw eu ffydd neu ethnigrwydd, gan beidio â gwneud rhagdybiaethau; cofiwch er enghraifft nad yw pob ffoadur o Syria yn Fwslim neu'n Arab).

Ymgysylltwch â rhieni yn sensitif am ymddygiad eu plentyn ac unrhyw arwyddion o straen, trawma neu ymddygiad annymunol.  Fel rheol, llunio ateb neu gynllun gweithredu i siarad drwyddo a chydweithio arno yw'r ffordd fwyaf effeithiol ymlaen.

Cofiwch gynnwys ac ymgysylltu â mudiadau cymunedol sy'n gweithio'n benodol i gefnogi ffoaduriaid fel Cymru: Cenedl Noddfa. Mae'r elusen hon yn cydweithio ag Alltudion ar Waith (DPIA) i helpu teuluoedd sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid i integreiddio i'r cymunedau. Er enghraifft,

mae Tref Lloches y Fenni yn Sir Fynwy wedi bod yn gweithio'n llwyddiannus i helpu'r teuluoedd o Syria ac Affganistan ymuno â chlybiau, gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol sy'n lleihau unrhyw risg o gael eu hynysu mewn tref fechan Gymreig.

Gall [Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru (WSMP)](#) helpu cyfeirio a hwyluso cyswllt gydag amrywiaeth eang o sefydliadau a allai ddarparu gwasanaethau cynghori a chymorth i gyfoedion.
WSMPCentralAdmin@wlga.gov.uk

## Defnyddio Cymorthyddion Addysgu Dwyieithog (CAD)

Mae cymorthyddion addysgu dwyieithog yn adnodd hynod werthfawr. Gallant gefnogi disgyblion drwy ddefnyddio eu hiaith gyntaf. Mae'r rhan fwyaf o ffoaduriaid Syria, er enghraifft, yn siarad Arabeg fel iaith gyntaf. Siaredir Arabeg yn eang yn y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica. Mae'n werth gwybod bod yr Arabeg a siaredir gan Syriaid yn dueddol o fod yn agosach i'r hyn a siaredir yn y gwledydd hynny y mae Syria yn ffinio â nhw (e.e. Irac, Libanus a Gwlad yr Iorddonen).

Gall cymorthyddion addysgu dwyieithog helpu disgyblion i ddefnyddio eu gwybodaeth ddiwylliannol ac ieithyddol i ddilyn y cwricwlwm, ac annog cynhwysiant drwy gyfieithu ar eu cyfer mewn sesiynau grŵp a rhoi 'llais' iddynt.

Gall cymorthyddion addysgu dwyieithog nid yn unig helpu disgyblion i ddilyn y cwricwlwm trwy gyfieithu, ond hefyd mewn nifer o ffyrdd effeithiol eraill:

- Darganfod gwybodaeth flaenorol.
- Asesu rhuglder yn yr iaith gyntaf.
- Addysgu cysyniadau ymlaen llaw (yn enwedig rhai haniaethol sy'n anodd eu cyfleu trwy unrhyw ddull arall. Efallai y bydd athrawon dosbarth eisiau i'r CAD addysgu themâu a'r iaith newydd gysylltiedig cyn y gwersi gyda'r dosbarth cyfan).
- Cyfieithu ac egluro cyfarwyddiadau a geiriau allweddol newydd.
- Egluro rheolau a threfnau nad oeddent yn rhan o brofiadau blaenorol y disgyblion neu sy'n ymddangos yn rhyfedd yn ddiwylliannol.
- Trawslythrennu geiriau ac ymadroddion Arabeg allweddol i'r athrawon dosbarth allu eu defnyddio pan na fydd cymorth Arabeg ar gael.

- Helpu disgyblion i wneud cysylltiadau rhwng eu hiaith gyntaf a'r Saesneg.
- Cyfieithu papurau profion cenedlaethol (er enghraifft y Profion Rhifedd Cenedlaethol).
- Darparu cefnogaeth a pharatoi ar gyfer TGAU yn iaith y cartref.

Mae amser cynllunio (neu gyfathrebu rheolaidd) rhwng yr athro dosbarth/pwnc a'r CAD yn hanfodol i sicrhau cymorth effeithiol. Bydd hyn yn helpu i:

- Osod targedau ar gyfer caffael iaith ac unrhyw anghenion dysgu.
- Rhannu gwybodaeth fel bod anghenion emosiynol a lles y disgyblion yn cael eu bodloni.
- Rhannu amcanion dysgu cyn y gwersi.
- Dod o hyd i dasgau dysgu priodol a fydd yn datblygu sgiliau iaith y disgyblion.
- Cyfrannu syniadau i asesu ar gyfer dysgu.
- Creu adnoddau a strategaethau (diwylliannol briodol a sensitif).
- Rhoi adborth i athrawon ar gynnydd y disgyblion.

Gall cymorthyddion dysgu dwyieithog hefyd helpu i ddarparu cymorth bugeiliol hanfodol. Gellir eu defnyddio ar gyfer y canlynol:

- Y broses ymsefydlu a'r cyfweliad derbyn.
- I gysylltu â rhieni drwy gyfieithu llythyrau, gwneud galwadau ffôn, cyfieithu yn ystod cyfarfodydd rhieni, neu eu henwebu fel yr unigolyn 'i droi atyn nhw' yn ôl yr angen (dim ond os yw'r CAD yn gweithio'n uniongyrchol i'r ysgol).
- Cyfieithu mewn cyfarfodydd amlasiantaeth.
- Pontio o un grŵp blwyddyn i'r nesaf neu o un ysgol i'r llall.

**Adnoddau a Chysylltiadau**
(gweler hefyd y gwefannau defnyddiol yn y ffolder adnoddau).

**Alltudion ar Waith DPIA**

https://www.dpia.org.uk/ School and teacher resources | British Council

**Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Ymfudo (IOM)**

http://unitedkingdom.iom.int/

**Achub y Plant**

www.savethechildren.org.uk

http://www.savethechildren.org/site/c.8rKLIXMGIpI4E/b.7998857/k.D075/Syria.htm

Mae adroddiad 'Invisible Wounds' Achub y Plant yn rhoi dadansoddiad o effaith 6 mlynedd o ryfel ar iechyd meddwl plant Syria.

**Y Groes Goch Brydeinig**

Explore teaching resources at the British Red Cross

**Cyngor Ffoaduriaid Cymru**

Home - Welsh Refugee Council (wrc.wales)

**Cymru: Cenedl Noddfa**

Cymru: Cenedl Noddfa | Datblygu diwylliant o letygarwch i bobl sy'n ceisio noddfa (cityofsanctuary.org)

Schools of Sanctuary | Building a culture of hospitality for people seeking sanctuary (cityofsanctuary.org)

Ukrainian Refugees: hosting, support & more (cityofsanctuary.org)

Resources on Anti-racism | Building a culture of hospitality for people seeking sanctuary (cityofsanctuary.org)

**Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru**

Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru - CLlLC




# Pennod 5: Asesu ac ADY

## Yn cynnwys Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a threfniadau sefyll arholiadau.

**Mae asesu disgyblion sydd newydd gyrraedd yn hollbwysig i gadarnhau lefelau eu rhuglder yn y Saesneg a'u gallu gwybyddol, yn ogystal ag i ddysgu am brofiadau addysgol blaenorol y disgybl.** Bydd hyn yn llywio'r ddarpariaeth addysgu ac yn arwain at leoli'r disgybl yn briodol. Bydd angen adolygu cynnydd y disgybl bob tymor i sicrhau bod y gefnogaeth a'r ddarpariaeth gywir yn cael eu darparu.

Er bod asesu disgyblion sydd newydd gyrraedd yn gynnar yn hanfodol, rhaid ystyried profiadau blaenorol y disgybl, h.y. y flaenoriaeth ar gyfer disgybl sydd newydd gyrraedd ac wedi wynebu trawma yw darparu cymorth iddynt ymgartrefu (**Trowch at Bennod 4 - Gofal Bugeiliol a Lles a Phennod 10 - Trawma**).

Mae angen i'r broses asesu fod yn barhaus a rhaid cychwyn arni o fewn ychydig wythnosau cyntaf y disgybl yn yr ysgol gan **Wasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS)** yr Awdurdod Lleol, pan fo ar gael. Os yw'n bosib, dylid cynnal yr asesiad yn iaith gyntaf y disgybl er mwyn cael golwg fanwl gywir ar allu gwybyddol y disgybl.   Dylai hefyd ddarparu argymhellion i'r ysgol ynglŷn â chefnogi datblygiad bugeiliol ac academaidd y disgybl.

Bydd yr asesiad yn galluogi'r asesydd EMAS i sefydlu cam Caffael Iaith ar gyfer y disgybl, a fydd yn helpu ymarferwyr i wahaniaethu gweithgareddau dysgu yn briodol. Defnyddiwch daflen drosolwg o gamau Llywodraeth Cymru (**LlC**) fel arweiniad, a'r daflen strategaeth i helpu gyda defnyddio gweithgareddau addas. Taflen Trosolwg o Gamau Llywodraeth Cymru (gweler y Ffolder Adnoddau).

Os oes Cymhorthydd Addysgu Dwyieithog (**CAD**) neu Gyfieithydd ar gael, byddant hefyd yn gallu hwyluso'r cyswllt â rhieni/gwarcheidwaid y disgybl (os ydynt yn y DU).

Bydd y gwasanaeth cyflawniad lleiafrifoedd ethnig (EMAS) hefyd yn gallu creu 'proffil' ar gyfer y disgybl i hysbysu'r ysgol ac asiantaethau eraill. Bydd y proffil hwn yn hysbysu'r bobl hynny sydd angen gwybod am fanylion personol y disgybl, sef eu rhuglder yn yr ieithoedd a siaredir, gan gynnwys Saesneg; eu cefndir addysgol; eu cefndir teuluol ac unrhyw wybodaeth bwysig arall a gasglwyd am y disgybl. Mae'n syniad da defnyddio Proffil Un Dudalen i gasglu gwybodaeth bwysig gan y disgybl ei hun.

Mae'n hollbwysig bod ysgolion ac Awdurdodau Lleol yn ystyried yr amrywiaeth o brofiadau addysgol blaenorol y mae pob disgybl sydd wedi'i effeithio gan ymfudiad wedi'u cael. Gallai'r rhain gynnwys:

- Addysg ffurfiol
- Addysg dameidiog
- Dim addysg flaenorol
- Addysg mewn gwersylloedd



**Bydd lefel yr addysg y mae'r disgybl wedi'i gyflawni yn effeithio ar eu lefelau llythrennedd yn eu hiaith/ieithoedd cartref;** efallai y bydd rhai yn gallu siarad iaith yn rhugl ond eu bod yn methu ei darllen na'i hysgrifennu.  Bydd profiadau addysgol blaenorol y disgybl cyn cyrraedd y DU hefyd yn dylanwadu ar y sgiliau trosglwyddadwy sydd gan y disgybl, a bydd angen i ymarferwyr dosbarth gofio hynny wrth gynllunio'r ddarpariaeth ar eu cyfer.

**<u>Sut i Asesu Disgyblion:</u>**

- Cyfeiriwch at yr holl wybodaeth a gasglwyd am ddisgybl yn y cyfarfod derbyn i lywio'ch asesiad.
- Os yw'n bosib, trefnwch gyfieithydd sy'n siarad yr un iaith a thafodiaith â'r disgybl.
- Dewiswch le tawel braf i gynnal yr asesiad, lle mae'r disgybl yn teimlo'n gyfforddus.
- Casglwch adnoddau addas i asesu rhuglder y disgybl o ran llafaredd, darllen, ysgrifennu a rhifedd, a hynny yn y Saesneg ac yn iaith y cartref.

- Dylid rhannu’r asesiad gyda’r holl ymarferwyr sy’n gweithio gyda’r disgybl.

## Sut i Osod Targedau Caffael Iaith:

Ar ôl ei chwblhau, bydd y broses asesu wedi canfod y meysydd lle bydd angen cymorth ychwanegol ar y disgybl, ac wedi sefydlu cam Caffael Iaith y disgybl. Gall yr ysgol bellach benderfynu sut i ddarparu'r cymorth hwn, a dylai ddechrau ei ddarparu cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Bydd angen y disgybl am gymorth yn newid dros amser, felly mae'n bwysig adolygu'r cymorth a gynigir yn rheolaidd i weld a oes ei angen ac a yw'n briodol o hyd.

Gellir gosod targedau rhagarweiniol ar y cam hwn hefyd. Bydd angen adolygu'r rhain yn weddol fuan, e.e. erbyn diwedd tymor cyntaf y disgybl, i wirio eu bod yn dal i fod yn briodol. Efallai y bydd rhai disgyblion sy'n ffoaduriaid yn gwneud cynnydd cyflym iawn wrth gaffael y Saesneg ar ôl cychwyn yn yr ysgol yn y DU, felly efallai y bydd angen adolygu eu targedau yn amlach na myfyrwyr eraill sy'n cael cymorth ychwanegol.

Gellir gosod targedau o ganfyddiadau'r asesiad, a dylent gynnwys yr holl sgiliau: llafaredd, darllen, ysgrifennu a rhifedd. Er enghraifft, os nad oes gan y disgybl lawer o wybodaeth o ran ffoneg, neu ddim o gwbl, yna un targed fyddai dysgu'r 5 sain gyntaf yn Saesneg. Dylai’r targedau fod yn rhai **CAMPUS** - Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol. Ar gyfer newydd-ddyfodiad sy’n ffoadur ac wedi wynebu trawma ac/neu'n cael trafferth ymgartrefu, gallai targedau gyda ffocws bugeiliol fod yn fwy priodol, e.e. cychwyn gweithgaredd allgyrsiol neu gymdeithasu gyda chyfeillion yn ystod amser chwarae.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol a Cymraeg/Saesneg fel Iaith Ychwanegol (ADY/CIY/SIY)

### Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar yr agenda Trawsnewid ADY ers rhai blynyddoedd. Mae’r Ddeddf a’r Cod ADY gorfodol bellach yn statudol ar gyfer pob ysgol, Sefydliad Addysg Bellach a lleoliad blynyddoedd cynnar.

### Gweledigaeth y Ddeddf

- Mae Llywodraeth Cymru'n ymdrechu i greu system addysg wirioneddol gynhwysol ar gyfer dysgwyr Cymru. System lle caiff anghenion eu hadnabod yn gynnar a'u bodloni'n gyflym, a lle cefnogir yr holl ddysgwyr i gyflawni eu potensial.
- Mae angen i'r cynllunio fod yn hyblyg ac yn ymatebol er mwyn i'n gweithwyr proffesiynol fod â'r sgiliau a'r hyder i adnabod anghenion a rhoi strategaethau ar waith i helpu dysgwyr oresgyn rhwystrau i ddysgu.
- Cred Llywodraeth Cymru y dylai'r dysgwr fod yn ganolog i bopeth a wnawn, a bod y dysgwr a'u rhieni neu ofalwyr yn bartneriaid cyfartal yn eu haddysg (Dull sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn).

**Amcanion diwygio ADY**



1. Mae'r term ADY yn disodli'r term AAA
2. Mae'r ddeddf yn cynnwys plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed
3. Cynllun statudol unedig – y cynllun datblygu unigol
4. Mwy o gyfranogiad gan y plant a'r bobl ifanc
5. Dyheadau uchel a gwell canlyniadau
6. System symlach sy'n llai gwrthwynebol
7. Mwy o gydweithio
8. Osgoi anghydfodau a datrys unrhyw anghydfod yn gynt
9. Hawliau apelio clir a chyson
10. Y Cod ADY
11. System ddwyieithog

**Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

**Diffiniad o anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**(1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddynt anabledd neu anhawster dysgu (p’un a yw'r anabledd neu anhawster dysgu yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.**

**(2) Mae gan blentyn sydd o oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anabledd neu anhawster dysgu:**

**(a) os ydynt yn cael llawer mwy o drafferth dysgu na'r rhan fwyaf o blant eraill sydd o'r un oedran, neu**

**(b) os oes ganddynt anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15) sy'n eu hatal neu'n eu llesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.**

**(3) Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anabledd neu anhawster dysgu os yw'r plentyn o fewn is-adran (2), neu’n debygol o fod os na wneir darpariaeth ddysgu ychwanegol, pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol.**

**(4) Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae, neu y bydd, person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael, neu sydd wedi cael, ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anabledd neu anhawster dysgu.**

Yn bwysig iawn, mae diffiniad ADY yn cynnwys dysgwyr y mae eu hanhawster neu anabledd dysgu yn codi o gyflwr meddygol.

Dylid cefnogi disgyblion sydd ag angen meddygol nad yw’n effeithio ar eu dysgu drwy **Gynllun Anghenion Gofal Iechyd Unigol**

**Dwyieithrwydd** – mae hyn yn cyfeirio at blant sydd m[illegible]ysylltiad rheolaidd â mwy nag un iaith er dibenion byw fel teulu.  Gallant fod yn gymwys ym mhob un o'r pedair sgil (gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu) yn y naill iaith neu'r ddwy, ac maent yn debygol o fod ar lefelau amrywiol.

Mae’r **Cod ADY 2021** gorfodol yn rhoi cyngor penodol ar ganfod ac asesu plant sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.  Mae’n nodi’r canlynol:

- Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae, neu y bydd, person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael, neu sydd wedi cael, ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anabledd neu anhawster dysgu.
- Efallai y bydd disgyblion y mae’r Gymraeg neu’r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt angen mwy o gymorth i gyflawni eu potensial, ond nid oes ganddynt ADY o reidrwydd. Wedi dweud hynny, pan fo plentyn neu berson ifanc y mae’r Gymraeg neu’r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn araf i wneud cynnydd (er gwaethaf yr addysgu gwahaniaethol a ddarparwyd i’w helpu), dylid ystyried a oes yna broblem ddysgu benodol ai peidio.
- Mae angen cymryd cryn ofal wrth adnabod ADY ymysg plant nad yw’r Gymraeg neu’r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Mae angen ystyried pob agwedd ar ddysg a datblygiad plentyn neu berson ifanc er mwyn asesu a yw eu hanhawster yn ganlyniad i’r her o ddysgu Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol, neu a yw’n

codi o ADY. Dylai'r ysgol, y sefydliad addysg bellach neu'r awdurdod lleol edrych yn ofalus ar bob agwedd ar berfformiad y dysgwr ar draws y cwricwlwm, i gadarnhau a yw'r anawsterau y maent yn eu cael yn ganlyniad i gyfyngiadau ar eu meistrolaeth ar yr iaith a ddefnyddir, neu a ydynt yn codi o ADY.

**Wrth ystyried a oes gan ddisgybl angen dysgu ychwanegol neu angen ieithyddol, mae'n hollbwysig darganfod:**

- Oedran y disgybl yn cyrraedd y DU.
- Nifer y blynyddoedd o addysg ffurfiol a gawsant yn eu hiaith gyntaf.
- Ers faint o flynyddoedd y maent wedi bod yn dysgu Saesneg.
- A yw sgiliau siarad a llythrennedd y disgybl yn briodol i'w hoedran yn eu hiaith eu hunain? Mae hyn yn rhagweld eu potensial yn y Saesneg, gan fod angen sgiliau trosglwyddadwy i gaffael iaith ychwanegol.

## Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)

Os oes gan blentyn sy'n dysgu CIY/SIY **ADY** sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY), a hynny'n ychwanegol neu'n wahanol i'r hyn y mae dysgwyr eraill ei angen, dylid llunio cynllun datblygu unigol (CDU) sy'n nodi'r DDdY y mae'r dysgwr ei angen. Cynghorir cynnwys Athro Cynorthwyol CIY/SIY a Chymhorthydd Dysgu Dwyieithog yn y gwaith cynllunio hwn, er mwyn helpu'r plentyn i ddatblygu ar yr hyn y maent yn ei wybod ac yn ei ddeall yn eu hiaith gartref. Bydd hyn yn darparu sylfaen ar gyfer mynd i'r afael â'r cymorth y mae'r dysgwr ei angen i wneud cynnydd.

Dim ond drwy gyfeirio at y diffiniad o **ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY)** y gellir dehongli'r diffiniad o ADY.

**Rhaid ystyried y ddau beth gyda'i gilydd.**

Ni fydd gan blentyn neu berson ifanc ADY os gellir mynd i'r afael â'u diffyg cynnydd neu eu hanawsterau drwy addysgu gwahaniaethol. Mae addysgu sy'n cydnabod ac yn ymateb i anghenion dysgwyr unigol yn elfen allweddol o bob addysg o ansawdd; ***bydd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc angen darpariaeth wahaniaethol ar ryw agwedd o addysg ar ryw adeg.***

Nid yw cynnydd araf a chyrhaeddiad isel o reidrwydd yn golygu bod gan y plentyn ADY, ac ni ddylai arwain yn awtomatig at benderfynu bod gan y dysgwr ADY.

**Diffiniad o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY)**

**Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol**

**(1) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw**

***darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran*:**

**(a) mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru,**
**(b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu**
**(c) mewn mannau yng Nghymru lle darperir addysg feithrin.**

**(2) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i blentyn dan dair oed yw unrhyw fath o ddarpariaeth ddysgu.**

**(3) Ystyr 'addysg feithrin' yw addysg sy'n addas i blentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol.**

**ADY + DDdY = CDU**

**Awgrymir weithiau y dylai pob plentyn sy'n dysgu SIY gael CDU.** Mae hynny'n gamddealltwriaeth o bwrpas cynlluniau datblygu unigol. Mae gan blant sy'n dysgu SIY anghenion dysgu ieithyddol. Nid yw hyn yr un fath ag ADY, ac ni ddylent gael eu grwpio gyda phlant ag ADY. Mae'r cyngor gan y gwasanaethau cyflawniad lleiafrifoedd ethnig yn glir: *"Maent yr un mor alluog ag unrhyw blentyn arall ac yn elwa ar weithio ochr yn ochr â siaradwyr sy'n gymwys yn eu hiaith gyntaf, lle bo hynny'n bosib, ac yn y Saesneg. Nid oes angen CDU arnynt oni nodwyd bod ganddynt ADY yn ychwanegol at eu hangen dysgu SIY."*

**Yn achos plant sy'n dysgu CIY neu SIY, dylai unrhyw gynllunio gynnwys eu targedau o ran caffael yr iaith Saesneg ac amlinellu strategaethau addysgu a fydd o gymorth iddynt ddatblygu eu meistrolaeth ar y Saesneg at ddibenion academaidd**. Dylai ystyried unrhyw brofiad ysgol perthnasol blaenorol sydd ganddynt o bwnc mewn gwlad dramor, a dylai gyfeirio at ystyriaethau diwylliannol, os gallent effeithio ar eu cynnydd. Os yw'r ddarpariaeth a wneir yn cynnwys staff ychwanegol a gyflogir i gefnogi disgyblion sy'n dysgu SIY, dylid gwneud trefniadau cydlynu rhwng yr athro dosbarth ac/neu'r Cydlynydd ADY a'r staff, er mwyn sicrhau cydweithrediad llawn wrth gynllunio a chyfuno dysgu newydd.

## Beth yw CDU?




- Mae CDU yn amlinellu ac yn cofnodi’r DDdY y mae ei hangen i ddiwallu’r ADY a nodwyd.
- Mae’n ganolog i asesu a bodloni ADY wrth symud ymlaen.
- Bydd yn disodli’r Datganiad o Anghenion Addysg Arbennig dros amser.
- Mae’n un cynllun gyda fformat cyffredin i ddysgwyr rhwng 0 a 25 oed.
- Bydd yn integreiddio pob cynllun unigol arall.
- Mae wedi’i ddylunio i fod yn haws ei ddefnyddio a’i ddiweddaru er mwyn diwallu anghenion sy’n newid.
- Bydd yn nodi’r DDdY sydd ei hangen i ddiwallu ADY y dysgwr.

## Beth mae CDU yn ei gynnwys?

- Gwybodaeth fywgraffiadol am y plentyn a manylion cyswllt y rhieni ac unrhyw weithwyr proffesiynol perthnasol.
- Safbwyntiau, dymuniadau a theimladau’r plentyn neu’r person ifanc a’r rhieni.
- Disgrifiad eglur a chynhwysfawr o anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu’r person ifanc.

- Disgrifiad o'r DDdY benodol a phwy sy'n gyfrifol am gyflwyno'r DDdY honno.
- Manylion unrhyw ddatgymhwysiad o'r cwricwlwm, darpariaeth o ran arholiadau ac unrhyw ofynion o ran cludiant.
- Manylion y trawsnewid.
- Enw'r lleoliad.
- Cofnod o drafodaethau, cyngor a thystiolaeth a dyddiad adolygu.
- Templed gorfodol.

**Pwy fydd yn cael CDU?**

Pwy fydd yn cael CDU?

Bydd unrhyw blentyn neu berson ifanc (rhwng 0 a 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac sydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n "wahanol neu'n ychwanegol" i'r hyn a ddarperir fel rhan o'r cwricwlwm arferol neu wahaniaethol, yn cael CDU.

Bydd pob plentyn a pherson ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael CDU.

Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am baratoi CauDU ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sydd ag ADY mwy difrifol neu gymhleth, a'r plant sy'n 'Derbyn Gofal' ac sydd â chofrestriad deuol, e.e. UCD.

Gall y rhieni neu weithiwr iechyd proffesiynol dynnu sylw'r awdurdod lleol at blant dan oedran ysgol gorfodol a'r rhai nad ydynt mewn ysgol a gynhelir.

## Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant?



- Bydd pob CDU yn cynnwys cynllun gweithredu eglur a fydd yn cael ei adolygu o leiaf bob 12 mis neu ar gais rhiant/gweithiwr proffesiynol, er mwyn ystyried a yw'r plentyn neu'r person ifanc yn gwneud cynnydd tuag at eu targedau.
- Bydd adolygiad o'r CDU yn casglu ac yn dadansoddi unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth newydd. Bydd yn ystyried a yw'r disgrifiad o'r ADY yn y CDU yn dal i fod yn gywir yng ngoleuni unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth newydd; a ddylid gosod targedau newydd ac a yw'r ddarpariaeth yn dal i fod yn briodol.

## Cam-adnabod oherwydd SIY

**Mae disgyblion sy'n dysgu SIY yn fwy tebygol o gael eu labelu ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu**, sy'n awgrymu y gallai disgyblion gael diagnosis o broblem iaith sylfaenol, pan fo'u problem yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â'r ffaith eu bod yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

## Rhesymau posib dros wahaniaethau ymhlith lleiafrifoedd ethnig

- Arferion Diwylliannol

Er enghraifft, gall yr arfer diwylliannol o briodasau o'r un gwaed arwain at fwy o achosion o rai anawsterau dysgu. (Gweler Astudiaeth Bradford https://bradscholars.brad.ac.uk/handle/10454/5862).

- O ran anawsterau dysgu eraill, mae'n bosib na fyddant i gyd yn cael eu hadnabod oherwydd gwahaniaethau diwylliannol e.e. nid yw llawer o ddisgyblion o dde-ddwyrain Asia yn darllen ffuglen pan fyddant yn dysgu darllen. Diben darllen yn niwylliannau'r ysgolion hyn yw cael gwybodaeth ac nid ydynt yn darllen er pleser. Felly, gall disgyblion gael trafferth adnabod sgiliau darllen uwch fel canfyddiad ac empathi - nid o ganlyniad i anghenion ychwanegol ond oherwydd profiadau diwylliannol.

Canfyddiadau Athrawon

- Dadleuwyd bod gan rai athrawon ddisgwyliadau is o rai o'u disgyblion. Yng nghyd-destun ADY, gallai hyn arwain at or-adnabod anghenion ymysg disgyblion nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.
- Ymgysylltu â Gwasanaethau yn y cyfnod cyn ysgol. Mae'n bosib bod mwy o anawsterau dysgu difrifol a chymhleth i'w gweld mewn ysgolion cynradd oherwydd na chawsant eu hadnabod yn gynharach.

Mae tystiolaeth yn dangos mai'r rheswm pam nad yw llawer o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid, yn defnyddio gwasanaethau mamolaeth a gwasanaethau eraill Meddygon Teulu, yw am fod y gwasanaethau hyn yn amhriodol neu'n cael eu gweld yn amhriodol ganddynt oherwydd eu diwylliant. Efallai y bydd angen cymorth ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches i gael gafael ar wasanaethau mamolaeth yn y wlad hon, ac efallai nad ydynt wedi cael cymorth gwasanaethau mamolaeth yn y wlad a oedd yn gartref iddynt oherwydd amgylchiadau gwrthdaro ac ati.

**Y cwestiwn allweddol yw – pam nad yw'r disgybl *dwyieithog* hwn yn gwneud y cynnydd y byddwn yn ei ddisgwyl?** Datblygwyd dull profi damcaniaeth gan dîm o seicolegwyr ac athrawon yn Surrey i ymchwilio i'r mater hwn (*The assessment of bilingual pupils with reported learning difficulties: a hypothesis-testing approach. Yn Cline, T. and Frederickson, N. (Ed). Bilingual Pupils and the National Curriculum: Overcoming Difficulties in Teaching and Learning. (tud.185 - 192). London, University College London Department of Psychology*). Bu iddynt gynnig y rhestr ganlynol o ddamcaniaethau, gan amlinellu gwahanol resymau pam y gallai plentyn dwyieithog fod yn tanberfformio. Yna, aethant ati i archwilio goblygiadau pob esboniad ar gyfer sut y gallai athrawon geisio helpu.

| Damcaniaeth |
| --- |
| Mae'r plentyn yn dysgu'n arafach nag eraill oherwydd bod ethos a chwricwlwm yr ysgol yn brofiad heriol ac estron iddynt, yn hytrach nag yn groesawgar ac yn hyblyg. |
| Nid yw'r plentyn yn dysgu oherwydd bod lefel iaith Saesneg llafar y plentyn yn dda, sydd wedi camarwain yr athro i osod tasgau sy'n rhy haniaethol i lefel iaith bresennol y plentyn. |
| Mae'r plentyn yn dysgu ar gyfradd briodol, ond eu bod angen ychydig mwy o amser i ddod i arfer â gofynion gweithio yn eu hail iaith. |
| Nid yw'r plentyn yn meddu ar lefel sylfaenol o ruglder mewn unrhyw iaith, gan nad yw'r naill iaith na'r llall wedi cael digon o gyfleoedd i ddatblygu. |
| Mae'r plentyn yn methu oherwydd eu bod wedi ymgolli mewn straen sy'n effeithio ar eu teulu neu eu cymuned. |
| Mae'r plentyn yn cael anhawster cyffredinol i ddysgu o’i gymharu â phlant eraill o'r un oedran. |
| Mae’r plentyn yn methu oherwydd anhwylder iaith penodol. |

## Canfod ac asesu

Anghenion ieithyddol neu anghenion dysgu ychwanegol: oes yna wahaniaeth?

Pan fo plentyn sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd araf yn yr ysgol, mae’n anodd dweud ai’r rheswm dros yr oedi yw nad ydynt yn hyderus yn defnyddio iaith yr ysgol neu bod ganddynt anawsterau dysgu “go iawn” ar wahân i’r gwahaniaeth iaith.

Mae’n bwysig deall achosion eu problemau. Os oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY), bydd dadansoddiad o’u hanghenion yn helpu penderfynu ar y ffordd orau o’u haddysgu. Os mai dim ond datblygu eu rhuglder yn Saesneg sydd angen ei wneud, bydd angen pwyslais gwahanol ar yr addysgu.

Dyfyniad o Adroddiad Ofsted (2003) *Addysgu disgyblion sy'n geiswyr lloches (cyfieithiad)*

*"Bu enghreifftiau o athrawon yn gosod disgyblion sy'n ceisio lloches mewn grwpiau neu setiau amhriodol o ran gallu. Lle digwyddodd hyn, nid oedd gallu'r disgyblion yn cyfateb yn dda â gofynion y dasg ddysgu. Er enghraifft, gosododd un ysgol y newydd-ddyfodiaid ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar gam, ac roedd y strategaethau a'r adnoddau addysgu dilynol wedi'u modelu'n bennaf ar addysgu disgyblion ag ADY. Arweiniodd hyn at addysgu nad oedd yn darparu her wybyddol gyfatebol i'r ceiswyr lloches, ac roeddent yn araf i wneud cynnydd."*

(HMI 453, para. 49)

**Anghenion ieithyddol neu anghenion dysgu ychwanegol: sut allwch chi ddweud?**

Nid gwahaniaeth ieithyddol ac ADY yw'r unig esboniadau eraill pan fo plentyn sy'n dysgu CIY/SIY i'w weld yn gwneud cynnydd araf yn yr ysgol. Ond mae'r cwestiwn rhy syml hwn yn fan cychwyn da i athrawon. O leiaf mae'n ein hatgoffa i wneud yn siŵr o allu plentyn i ddelio â gofynion ieithyddol yn yr ysgol cyn gwneud rhagdybiaethau ynghylch natur eu hanawsterau dysgu.

Er mwyn arwain y gwaith o arsylwi ac asesu disgybl yn y sefyllfa hon, addaswyd deunyddiau gan EMAS Portsmouth, sydd wedi cyhoeddi eu fersiwn ar eu gwefan.  Maent yn defnyddio'r penawdau a restrir isod i benderfynu ar y pwynt asesu cyntaf mwyaf priodol ar gyfer disgybl dwyieithog penodol, sef asesiad ADY neu CIY /SIY. Maent yn pwysleisio mai ar gyfer **asesiad cychwynnol yn unig** y mae'r cwestiynau hyn.

Wrth i ddisgybl ddod i gysylltiad pellach â'r Gymraeg a'r Saesneg, gall anghenion dysgu ychwanegol ddod i'r amlwg.  Gall fod yn briodol dilyn y ddau gam gweithredu ar gyfer rhai disgyblion dwyieithog, h.y. profi damcaniaethau o ran ADY a chaffael CIY/SIY.

**Sylwch: dylai'r holl atebion fod yn seiliedig ar dystiolaeth asesu dda a gasglwyd mewn amrywiaeth o amgylchiadau dros gyfnod o amser. Dylai'r holl dystiolaeth gael ei chofnodi'n gywir a dylid nodi'r dyddiad arni.**

Mae’r cwestiynau profi damcaniaeth yn ymwneud â:

1. Diffyg Ymateb

2. Problemau gwrando

3. Diffyg mynegiant llafar dros amrywiaeth o bynciau

4. Trafferth gwneud cynnydd mewn meysydd o’r cwricwlwm ar wahân i Saesneg

5. Cynnydd araf, neu fawr o gynnydd, wrth ddarllen

6. Anawsterau ysgrifennu er amrywiaeth o ddibenion

7. Anawsterau gyda’u llawysgrifen

8. Anawsterau ymddygiadol, emosiynol neu gymdeithasol

Mae rhagor o wybodaeth i’w gweld yn:
http://emas.lea.portsmouth.sch.uk.

Fel rheol, mae'n bwysig cynnal asesiad CIY/SIY cyn unrhyw beth arall. Pan fydd athrawon eisiau ymchwilio ymhellach i'r rhesymau posib dros ddiffyg cynnydd plentyn, un ffordd bosib ymlaen yw mabwysiadu'r *dull profi damcaniaeth fel yr amlinellir uchod.* Bydd hyn yn cynhyrchu ymchwiliadau mwy cymhleth na'r cwestiwn naill neu'r llall a holwyd ar ddechrau'r adran hon.

Er mwyn gweithio trwy rai o'r cwestiynau neu'r damcaniaethau, efallai y bydd angen cymorth allanol ar athro / athrawes. Mae'n bosib y bydd angen gwahanol weithdrefnau na fyddai eu hangen gyda disgybl uniaith Saesneg:

• Cynnwys athrawon cymorth dwyieithog a SIY mewn ffordd weithredol ar bob cam.

• Cofnodi ac adolygu manylion am wybodaeth y plentyn a’i ddefnydd o iaith y cartref *a* Saesneg.

• Gosod canlyniadau addysgol penodol sy’n cynnwys anghenion ieithyddol a diwylliannol, ac adolygu’r cynnydd tuag at eu cyflawni.

• Sicrhau bod gan y plentyn ddarpariaeth ieithyddol briodol.

• Ymchwilio i ynysu cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol ac aflonyddu ymysg cymheiriaid fel ffactorau posib yn anawsterau'r plentyn.

• Os bydd angen, gwneud defnydd o ddehonglydd/ymgynghorydd o gymuned y rhiant/rhieni eu hunain.

Er mwyn cynllunio asesiad plentyn y gallai fod ganddo anghenion dysgu ychwanegol, p'un a ydynt yn dysgu CIY/SIY ai peidio, mae angen gweithio o fewn fframwaith y Cod ADY.

## Deall y cyd-destun

Mae angen gwybodaeth gefndir er mwyn deall cyd-destun y rhwystrau i ddysgu y mae unrhyw blentyn yn eu hwynebu yn yr ysgol. Yn achos plant sy'n dysgu CIY/SIY, mae hyn yn bwysicach fyth. Yn gyntaf oll, mae'n hanfodol cael gwybodaeth gefndir lawn a chywir am y plentyn ei hun. Gall hyn gynnwys:

• Iaith/ieithoedd a siaredir yn y cartref
  - rhwng oedolion
  - rhwng oedolion a phlant
  - rhwng plant

• Crefydd a diet

• Unrhyw gyfnodau y bu’r plentyn yn byw neu’n mynd i’r ysgol y tu allan i’r DU

- Newid ysgolion yn y DU
- Profiad o waith dosbarth yn eu hiaith gyntaf
- Profiad o addysg y tu allan i'r ysgol yn eu hiaith gyntaf
- Profiad o ddulliau addysgu dwyieithog
- Trefniadau ar gyfer dysgu Cymraeg neu Saesneg.

Ond nid yw'r wybodaeth gefndir bersonol a theuluol yn ddigon ynddi ei hun. Er mwyn cael dealltwriaeth lawn o anghenion addysgol y plant sy'n dysgu SIY ac sy'n cael trafferth yn yr ysgol, mae'n hanfodol cael gwybodaeth gefndir am yr ysgol yn ogystal â gwybodaeth gefndir am y plentyn a'r teulu. **Ni ellir barnu anghenion addysgol y plentyn heb ddeall y cyd-destun addysgol.** I ba raddau y mae anawsterau'r plentyn wrth ddysgu yn adlewyrchiad o broblem yn ethos neu ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer yr holl blant sy'n dysgu SIY/CIY, yn hytrach na phroblem anochel sy'n ymwneud â'r plentyn hwn yn unig?

Bydd y rhestr o gwestiynau a roddir isod yn berthnasol yn y sefyllfa hon. Gellir ychwanegu eraill os ydynt yn debygol o amlygu'r *rhwystrau* sydd i'w goresgyn er mwyn i'r plentyn wneud cynnydd:

1. Oes yna nifer o ddisgyblion eraill yn yr ysgol yn siarad yr un iaith gyntaf â'r plentyn?

2. Oes yna oedolion yn yr ysgol sy'n siarad yr un iaith gyntaf â'r plentyn?

3. Oes yna bolisi ieithoedd ysgol gyfan sy'n cynnwys disgyblion dwyieithog?

4. Pa adnoddau ac athrawon sydd ar gael i fodloni anghenion unigryw disgyblion dwyieithog?

5. Oes yna lyfrau, recordiadau, posteri ac arddangosiadau yn iaith gyntaf y plentyn?

6. Faint o hyblygrwydd o ran darpariaeth sydd yna y tu hwnt i'r hyn y mae'r plentyn yn ei dderbyn ar hyn o bryd?

7. A yw'r staff yn pwysleisio ac yn gwerthfawrogi dull aml-ddiwylliannol o addysgu?

8. Oes yna bolisi ysgol eglur ac effeithiol ar hiliaeth ac aflonyddu hiliol?

9. Oes yna gyswllt effeithiol gyda rhieni o gymuned y plentyn?

10. Oes yna wybodaeth lafar ac ysgrifenedig ar gael i rieni'r plentyn yn eu hiaith gyntaf os oes angen?

11. Pa ymdrechion a wneir i sicrhau bod y rhieni'n deall yr hyn y mae'r ysgol yn ceisio ei wneud ar gyfer eu plant, ac i ganfod eu barn am yr hyn yr hoffent hwy i'r ysgol ei wneud?

Dyma rai meysydd i'w hystyried wrth drefnu asesiad:

- Naratif - ailddweud stori gyffredin o'r diwylliant sy'n gysylltiedig â'r iaith honno.
- Dilyniant - esbonio'r drefn ar gyfer gweithred bob dydd, fel gwisgo amdanynt neu ddod i'r ysgol.
- Cyfleu profiad personol.
- Dealltwriaeth - gall yr aseswr adrodd stori neu egluro sut i wneud rhywbeth yn iaith y cartref, cyn gofyn cwestiynau amdano i weld a yw'r disgybl wedi deall.
- Dilyn cyfarwyddiadau llafar.
- Cof.
- Sgiliau gwrando a thalu sylw, a asesir drwy arsylwi.
- Rhyngweithio ag eraill, ar lafar a heb eiriau.

**Dyma rai ffactorau a allai awgrymu bod gan y plentyn anawsterau dysgu:**

- Geirfa anaeddfed
- Geirfa amhriodol
- Syniadau mewn trefn afresymol
- Trefn geiriau anghywir
- Iaith fynegiannol heb ei datblygu, e.e. ddim yn siarad mewn brawddegau
- Defnydd cyfyngedig o gysyllteiriau
- Defnydd gwael o iaith gymdeithasol
- Sgiliau rhagfynegi annigonol

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol y bydd y cam caffael iaith y mae'r disgybl arno yn Saesneg yn effeithio ar rai o'r ffactorau uchod, ac mae hyn yn atgyfnerthu pa mor hanfodol yw asesiad dwyieithog i bennu anhawster dysgu neu angen dysgu ychwanegol.

**Os byddwch chi'n gwylio'r DVD "Un Gymru, Sawl Llais", mae yna bennod sy'n ymdrin yn benodol â phennu anghenion dysgu disgyblion**. Mae'r bennod hon yn dangos asesiad yn cael ei gynnal yn iaith y cartref; sgiliau iaith disgyblion yn cael eu harsylwi y tu allan i'r ystafell ddosbarth, e.e. ar yr iard chwarae; ac anghenion disgyblion yn cael eu bodloni trwy gynllunio ar y cyd.

Mae "Un Gymru, Sawl Llais" ar gael yma:

**https://vimeo.com/album/1705088 Canllawiau Addysg ar gyfer asesiad allanol/mewnol**

### Datgymhwyso mewn perthynas â dysgwyr CIY/SIY

Byddai datgymhwyso'n briodol ar gyfer dysgwyr CIY/SIY nad ydynt yn gallu sefyll yr arholiadau, neu a fyddai o dan anfantais sylweddol wrth wneud hynny hyd yn oed wrth ddefnyddio'r holl drefniadau mynediad sydd ar gael. Wrth ddod i'r casgliad na all y dysgwyr sefyll yr arholiadau, efallai yr hoffai'r ysgolion ystyried a all y dysgwyr ddangos unrhyw un o ddisgwyliadau'r arholiadau hynny ai peidio.

Ym mhob achos, rhaid i'r ysgol ddangos tystiolaeth dros y penderfyniad i ddatgymhwyso, a gallu egluro a chyfiawnhau'r penderfyniad hwn, gan gyfeirio at y dystiolaeth honno, i rieni'r dysgwyr ac i'r awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol perthnasol.

**Trefniadau i sefyll arholiadau allanol**

**[Access Arrangements and Reasonable Adjustments 2021-2022 (pearson.com)](#) (caiff ei ddiweddaru'n flynyddol)**

Gweler 'Arweiniad y Cyd-gyngor Cymwysterau' a gaiff ei ddiweddaru bob blwyddyn gydag amserlen ar gyfer gwneud cais am "addasiadau rhesymol". **Ni chaniateir** amser ychwanegol os mai'r rheswm pennaf dros anawsterau llythrennedd yr ymgeisydd yw'r ffaith nad Cymraeg, Saesneg neu Gwyddeleg yw eu hiaith gyntaf.

Ni chaniateir darllenydd/darllenydd cyfrifiadurol os mai'r rheswm pennaf dros anawsterau llythrennedd ymgeisydd yw'r ffaith nad Saesneg, Gwyddeleg neu Gymraeg yw eu hiaith gyntaf.

Rhaid i'r Cydlynydd SIY neu'r Cydlynydd ADY bennu anghenion yr ymgeisydd unigol. Ni fydd pob ymgeisydd y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt angen defnyddio geiriadur cyfieithu dwyieithog.

Ychydig iawn o ddefnyddwyr geiriadur cyfieithu dwyieithog fydd angen 10% o amser ychwanegol. Mae hwn yn drefniant prin ac eithriadol yn benodol ar gyfer ymgeiswyr a ddaeth i'r Deyrnas Unedig **lai na thair blynedd** cyn amser yr arholiad(au), heb unrhyw wybodaeth flaenorol am y Saesneg. (Mae cyfnodau gwyliau yn cael eu cynnwys yn y rheol tair blynedd). (Hysbyswyd gan y Cydlynydd ADY a'r Cydlynydd SIY)

**Darllenwch Bennod 4 *Access Arrangements and Reasonable Adjustments - Managing the Needs of Candidates with Disabilities and Learning Difficulties* .**

Gall disgyblion sy'n dysgu SIY ac sydd â CDU wneud cais am "addasiad rhesymol" yn dibynnu ar yr ADY dan sylw. Cyfeiriwch at y canllawiau bob amser a chysylltwch â swyddog arholiadau'r ysgol neu'r coleg.




# Pennod 6 - CAFFAEL IAITH

Gellir rhannu caffael iaith yn ddau faes: **BICS** (Sgiliau Cyfathrebu Rhyngbersonol Sylfaenol) a **CALP** (Rhuglder Iaith Academaidd Gwybyddol). Nid yw BICS yn iaith arbenigol ac fel arfer mae wedi'i wreiddio mewn cyd-destun. Dyma'r iaith a ddefnyddir i ryngweithio'n gymdeithasol, e.e. ar yr iard chwarae ac ar y ffôn. Mae fel arfer yn cymryd hyd at 2 flynedd i ddisgyblion gaffael BICS.

Mae CALP yn golygu iaith sy'n fwy gwybyddol ddwys sydd ei hangen er mwyn i blant ddilyn y cwricwlwm yn llawn. Bydd y sgiliau sydd eu hangen ar y lefel hon o ruglder yn cynnwys cymharu, dosbarthu, gwerthuso a chasglu. Mae'n cymryd 5 i 7 mlynedd, dan amodau **<u>delfrydol</u>**, i ddatblygu iaith academaidd ar lefel sy'n cyfateb i gyfoedion yn yr ysgol.

Edrychwch ar yr enghreifftiau isod a phenderfynu a ydynt yn esiamplau o **BICS** ynteu **CALP**:

A) Mae athro/athrawes yn gofyn i ddisgybl enwi gwahanol rannau blodyn ac yna i ddidoli planhigion yn rhai sy'n blodeuo a rhai nad ydynt yn blodeuo.
B) Mae'r disgyblion yn gofyn i ddisgybl sydd newydd gyrraedd a hoffent fynd i'r ffreutur ac yna i chwarae pêl-droed.
C) Mae dau ddisgybl yn siarad am eu hoff ganwr ar YouTube.
D) Gofynnir i'r disgyblion drafod a rhoi eu barn am wahardd gwisg ysgol neu beidio.

Mae A a D yn enghreifftiau o **CALP**. Dyma'r iaith sy'n debygol o gael ei defnyddio mewn ystafell ddosbarth yn unig, felly ni fydd yn gyfarwydd i ddisgybl sy'n dysgu'r iaith. Bydd yn cymryd mwy o amser o lawer i'w chaffael, felly mae angen i athrawon fodelu'r iaith hon yn rheolaidd er mwyn i'r disgybl ei chofio a'i defnyddio'n rhugl. Y ffordd i adnabod CALP yw edrych ar ba iaith y mae'r dasg


yn gofyn amdani, e.e. didoli, trafod a rhoi barn ar bynciau sy'n fwy academaidd yn hytrach na chymdeithasol.

Mae B a C yn enghreifftiau o iaith gymdeithasol y gall plentyn ei chaffael yn gyflymach o lawer am eu bod yn ei defnyddio'n ddyddiol.

Bydd cyfradd caffael Saesneg y disgyblion hefyd yn dibynnu ar ffactorau eraill fel eu haddysg flaenorol. Efallai y bydd profiadau ysgol blaenorol plant sy'n ffoaduriaid yn ysbeidiol, os cawsant rai o gwbl, a gallai hyn effeithio ar eu cynnydd. At hynny, mae'n debygol y bydd plant sy'n ffoaduriaid wedi dioddef trawma a gallant fod yn dawedog neu'n dawel am gyfnod o amser ar ôl cyrraedd y DU, a fydd hefyd yn dylanwadu ar eu gallu i gaffael iaith.


## **Model rhewfryn o bwysigrwydd iaith gyntaf (I1)**

Mae'r defnydd o iaith y cartref ochr yn ochr â chaffael iaith newydd yn hollbwysig. Cred Jim Cummins fod plentyn, trwy ddysgu un iaith, yn caffael set o sgiliau a gwybodaeth feta-ieithyddol y gall eu defnyddio wrth weithio mewn iaith arall. Dangosir y rhuglder ieithyddol sylfaenol cyffredin (CULP) hwn, fel y mae'n galw'r sgiliau a'r wybodaeth yma, yn y diagram isod. Mae CULP yn creu'r sylfaen i ddatblygu'r iaith gyntaf (I1) a'r ail iaith (I2). Mae'n dilyn y bydd unrhyw gamau i ehangu'r CULP yn un iaith yn cael effaith fuddiol ar yr iaith/ieithoedd eraill. Mae'r ddamcaniaeth hon hefyd yn esbonio pam mae'n dod yn haws ac yn haws dysgu ieithoedd ychwanegol.



Mae'n bwysig iawn bod myfyrwyr yn cael eu hannog i barhau i ddatblygu eu hiaith gyntaf. Pan fydd rhieni'n gofyn am y ffyrdd gorau i helpu eu plentyn gartref, gallwch ddweud y dylai'r plentyn gael cyfle i ddarllen yn helaeth yn eu hiaith eu hunain. Gallech awgrymu bod rhieni'n treulio rhywfaint o amser bob nos yn trafod gyda'u plentyn, *yn iaith y cartref*, yr hyn y maent wedi'i wneud yn yr ysgol y diwrnod hwnnw: gofynnwch iddynt siarad am yr arbrawf gwyddoniaeth a wnaethant, eu holi am eu dealltwriaeth o brif ffynonellau a ffynonellau eilaidd o wybodaeth hanesyddol, gofynnwch iddynt egluro sut y gwnaethant ddatrys problem fathemateg ac ati.
Gall effaith straen ac/neu drawma ddylanwadu ar ba mor gyflym y byddant yn caffael iaith – gweler Cognitive assessment of refugee children: Effects of trauma and new language acquisition - PubMed (nih.gov).

## Cwadrant Cummins




Mae Cummins wedi dyfeisio model lle gellir categoreiddio'r gwahanol dasgau y disgwyliwn i'n myfyrwyr gymryd rhan ynddynt. Mae'r tasgau'n amrywio o rai hawdd nad ydynt yn wybyddol ddwys i rai sydd yn wybyddol ddwys, ac o rai sydd wedi'u gwreiddio mwy mewn cyd-destun i rai sydd â llai o gyd-destun.

Mae ***tasg sydd wedi'i gwreiddio mewn cyd-destun*** yn un lle gall y myfyriwr gael gafael ar amrediad o enghreifftiau gweledol a llafar ychwanegol; er enghraifft, gall edrych ar ddarluniau o'r hyn sy'n cael ei drafod neu holi cwestiynau i gadarnhau dealltwriaeth.


Enghraifft o ***dasg sydd â llai o gyd-destun*** fyddai gwrando ar ddarlith neu ddarllen testun dwys, lle nad oes unrhyw ffynonellau eraill o gymorth heblaw am yr iaith ei hun.

Yn amlwg, mae'n debygol mai tasg cwadrant D, sy'n ***wybyddol ddwys gyda llai o gyd-destun***, fydd yr anoddaf i'r myfyrwyr, yn enwedig y siaradwyr anfrodorol yn eu blynyddoedd cyntaf o ddysgu Saesneg. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod myfyrwyr sy'n dysgu SIY yn datblygu'r gallu i gyflawni'r fath dasgau, gan fod llwyddiant academaidd yn amhosib hebddo.

Os yw athrawon yn ymwybodol bod tasg yn debygol o fod yn anodd, ar sail model Cummins, gallant farnu pa mor briodol yw hi i siaradwyr anfrodorol yn eu dosbarthiadau, a thrwy hynny osgoi llawer o rwystredigaeth.

Fodd bynnag, **nid** yw hyn yn golygu y dylid bwydo tasgau nad ydynt yn wybyddol ddwys i fyfyrwyr sy'n dysgu SIY. Efallai y byddai'n fuddiol defnyddio'r fath weithgareddau yn niwrnodau cynnar y myfyrwyr yn yr ysgol er mwyn magu hyder, neu fel modd o arwain at weithgareddau mwy heriol.

Fodd bynnag, dylai athrawon newid yn fuan i dasgau sy'n gwneud i'r myfyrwyr ddefnyddio'u hymennydd, gan sicrhau bod y tasgau hyn yn hygyrch trwy ddarparu cymorth gweledol neu gymorth arall. Unwaith y bydd y myfyrwyr yn gyfforddus â'r mathau hyn o weithgareddau, gellir cyflwyno tasgau sy'n fwy gwybyddol ddwys gyda llai o gyd-destun yn raddol (dolen i'r daflen strategaethau).




# Pennod 7 - Dilyn y Cwricwlwm

Bydd angen i chi ystyried anghenion bugeiliol ac addysgol y disgybl. I nifer o ddisgyblion o deuluoedd ffoaduriaid, pryd bynnag y byddant yn dechrau'r ysgol, mae'n debyg mai ceisio 'ffitio i mewn' fydd y ffactor pwysicaf ar gyfer cael amser llwyddiannus yn yr ysgol, gyda thasgau addysgol o bosib yn peri llai o bryder.

Efallai y bydd disgyblion eraill eisiau 'ffitio i mewn' yn syth a bwrw ymlaen â'u gwaith ysgol, ac mae'n bwysig bob amser bod gennym ddisgwyliadau uchel o'r newydd-ddyfodiaid. Mewn sawl ffordd, yr un yw'r dasg a wynebir gan athrawon gyda phob plentyn newydd sy'n dysgu SIY. Y nod yw gwneud iddynt deimlo'n gartrefol, cynnig cymorth iddynt, eu hannog i wneud ffrindiau a gwneud asesiadau sensitif ynghylch anghenion ieithyddol, anghenion dysgu a lles.

**Bydd y pwyntiau canlynol yn helpu athrawon dosbarth i gefnogi eu newydd-ddyfodiaid:**

- **Cynnig profiad diogel a chroesawgar**
  Bydd disgyblion sydd newydd gyrraedd i gyd yn dod â phrofiadau a disgwyliadau gwahanol am yr ysgol gyda nhw. Efallai y bydd rhai yn cyrraedd yn gyffrous i ddechrau'r ysgol ac eraill yn nerfus am ddechrau mewn ysgol newydd. Efallai bod rhai ohonynt wedi cael profiad blaenorol ysbeidiol ac eraill heb gael unrhyw addysg yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yr hyn sy'n bwysig yw bod ysgolion yn canfod y wybodaeth hon **cyn** i'r disgyblion gyrraedd yr ysgol. Mae'n bwysig croesawu eich newydd-ddyfodiad i'r ystafell ddosbarth mewn ffordd briodol.

- **Gwahaniaethu**
  Canolbwyntio ar wybodaeth o'r asesiad sylfaenol cychwynnol **(trowch at Bennod 3 - Asesu)**. Eglurodd Jim Cummins (**The Theory of Bilingualism**) y bydd angen gostwng her wybyddol rhai tasgau ar gyfer plant y mae Saesneg yn newydd iddynt, wrth iddynt ddysgu llawer o eirfa newydd.  Fodd bynnag, yn fuan iawn bydd angen codi'r her wybyddol i'r un lefel â mwyafrif y disgyblion. Bydd y disgyblion yn dysgu Saesneg wrth iddynt ddysgu gwybodaeth a sgiliau'r cwricwlwm.  Er ei bod weithiau'n briodol addysgu modiwlau ar wahân, fel rhaglenni dal i fyny gyda ffoneg, dylai'r mwyafrif o ddisgyblion sy'n dysgu SIY fod yn dilyn y cwricwlwm ac yn dysgu'r cynnwys ochr yn ochr â'u cyfoedion, a bydd angen gwahaniaethu'r gwaith ( www.*EAL-teaching-strategies.com*). Bydd disgyblion sy'n ffoaduriaid yn dod i'r ysgol o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd addysgol, ac mae'n bwysig cydnabod profiadau unigol pob disgybl wrth gynllunio gwaith.  Gall athrawon edrych ar y wefan ganlynol ar gyfer yr Wythnos Ffoaduriaid i ddod o hyd i gysylltiadau defnyddiol i fideos a straeon sy'n amlygu profiadau'r ffoaduriaid (www.refugeeweek.org.uk

- **Cynnig modelau rôl da o ran iaith, ymddygiad a dysgu.**
  Oherwydd profiadau gwahanol iawn o'r ysgol, gall disgyblion eu canfod eu hunain mewn amgylchedd sy'n anghyfarwydd iddynt. Felly, mae cael modelau rôl da mewn iaith ac ymddygiad yn arfer da hanfodol, a dylid ei ymgorffori o fewn arferion yr ysgol. https://www.youtube.com/watch?v=l4a70A88DS0 – Dilynwch y ddolen hon sy'n amlygu arferion SIY da.

# Cynllunio

- Dylai athrawon ddechrau cynllunio ar gyfer anghenion unigol pob disgybl fel y byddent yn ei wneud ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol.  Gwnewch yn siŵr fod anghenion emosiynol ac addysgol y disgyblion yn cael eu bodloni yn y dosbarth.  Nodwch anghenion ieithyddol gwersi a **SUT** y bydd y disgyblion yn caffael yr iaith hon.

Dyma'r pwyntiau allweddol i'w cofio wrth gynllunio ar gyfer newydd-ddyfodiaid sy'n dysgu SIY

1. Beth yw profiadau addysgol blaenorol y disgyblion (a gasglwyd yn ystod yr asesiad cychwynnol)?
2. A yw'r disgyblion yn llythrennog yn iaith eu cartref?
3. A fydd angen unrhyw gymorth dwyieithog ar y disgyblion?
4. A yw'r disgyblion wedi profi unrhyw drawma cyn cyrraedd y DU? (dylai pynciau sy'n delio â gwrthdaro/rhyfel gael eu cynllunio'n sensitif).
5. Beth yw'r geiriau/ymadroddion allweddol y mae angen i'r disgybl eu deall?
6. Pa swyddogaethau iaith y gofynnir i'r disgyblion eu dangos?
7. Pa strwythurau ieithyddol sydd eu hangen ar y disgybl?

Mae fframwaith cynllunio Pauline Gibbons yn adnodd ardderchog i athrawon ei ddefnyddio wrth gynllunio gweithgareddau ar gyfer disgyblion sy'n siarad SIY.

https://www.naldic.org.uk/Resources/NALDIC/Teaching%20and%20Learning/Documents/Using_Gibbons_Framework.pdf

Dyma enghreifftiau o swyddogaethau iaith:

- disgrifio
- cymharu
- adrodd
- arddodiaid

Dyma enghreifftiau o strwythurau ieithyddol:

- Pa liw mae'n ei greu?
- Beth sy'n digwydd i'r…….?
- Mae'n newid i'r lliw yma pan …….
- Rydw i'n meddwl………

- **Defnyddio Allwedd Cynllunio**

  Bydd hyn yn helpu i ganolbwyntio ar strategaethau penodol sy'n dda ar gyfer caffael iaith.

Bydd angen i ddisgyblion ddysgu llawer iawn o iaith newydd er mwyn gallu dilyn pynciau neu destunau.

**Enghraifft 1:**

**Hanes – Y Normaniaid**

Dylech:

- Ganfod geirfa ieithyddol benodol; *brwydr, Brenin, arfwisg, ymosod.*
- Canfod adnoddau gweledol allweddol – *Lluniau o'r Brenin, lluniau milwyr, mapiau.*
- Penderfynu ar ba ramadeg yr ydych am ganolbwyntio – *Disgrifio, gan ddefnyddio'r amser gorffennol e.e. Roedd y Brenin Harold yn ………, Roedd gan gastell………*
- Defnyddiwch CA neu Gymorthyddion Addysgu Dwyieithog, yn ddelfrydol, all fod yn hynod werthfawr o ran y cymorth y gallant ei roi i ddisgyblion sy'n newydd-ddyfodiaid. Ynghyd â chyfeillion dosbarth, gallant lunio rolau cefnogol agos sy'n hanfodol i'ch disgyblion newydd yn ystod y dyddiau cynnar.

**Enghraifft 2:**

**Gwyddoniaeth – Priodweddau Solidau, Hylifau a Nwyon**

Dylech:

- Ganfod geirfa ieithyddol benodol; solid, hylif, nwy, toddi, anweddu, rhewi, ac ati.
- Canfod adnoddau gweledol allweddol: Lluniau o enghreifftiau, clipiau YouTube sy'n dangos y broses doddi/rhewi, cael CAD i egluro yn iaith y cartref drwy ddefnyddio lluniau a dangos y prosesau.
- Penderfynu pa swyddogaethau iaith fydd yn cael eu defnyddio: disgrifio, enwi, labelu.
- Canfod strwythurau ieithyddol syml i'w modelu: Dyma nwy/solid/hylif. Pan fydd …….. yn cael ei gynhesu mae'n ……….. (toddi/anweddu).

## Dysgu ar y Cyd

- Ffordd hynod effeithiol o gynnwys dysgwyr newydd sy'n dysgu SIY mewn gwersi dosbarth. Mae'n caniatáu i ddisgyblion gyfrannu gan ddefnyddio eu lefel iaith bresennol.
- Gall cyfoedion helpu cefnogi'r disgybl.
- Mae'r disgybl yn cael gweld modelau rôl ieithyddol da pan fydd grwpiau'n cael eu rhoi gyda'i gilydd yn effeithiol.

Gallwch gael gafael ar amrywiaeth eang o wersi ar y cyd yn:

www.collaborativelearning.org

## Arholiadau yn Iaith y Cartref

Mae disgyblion sy'n newydd-ddyfodiaid yn CA4 yn arbennig o agored i fynd yn NEET (Nid mewn Addysg, Hyfforddiant na Gwaith). Gall sefyll arholiadau yn iaith y cartref fod yn ffordd wych o sicrhau bod y disgyblion hynny'n ennill cymhwyster.  Gyda chymorth cyfieithydd neu gymhorthydd addysgu dwyieithog, mae'n bwysig canfod lefel lythrennedd y disgyblion cyn eu cofrestru i sefyll arholiadau.

Dylai sicrhau y gall y disgyblion sefyll yr arholiadau hyn, os yw'n briodol, fod yn flaenoriaeth i ysgolion wrth iddynt edrych ar ddarpariaeth addas ar gyfer disgyblion sy'n cyrraedd CA4 yn hwyr. Gellir lawrlwytho cyn-bapurau a'u rhoi i'r disgyblion er mwyn iddynt ymarfer cyn sefyll yr arholiad.

Gall sefyll arholiadau yn iaith y cartref roi ymdeimlad o gyflawniad i'r disgyblion, ac mae hyn yn hanfodol bwysig i'r disgyblion hynny sy'n cyrraedd ar ôl cael addysg ar lefel uchel.




# Pennod 8 – Amrywiaeth ar draws y Cwricwlwm / Herio Ystrydebau

Ni all plant ddysgu parchu eraill, herio cyffredinoli annheg a dysgu cynhwysiant ac ystyriaeth gadarnhaol ar gyfer amrywiaeth onid ydynt yn gweld yr oedolion o'u hamgylch yn gwneud yr un peth.

- Mae plant yn copïo ymddygiad oedolion
- Nid yw'r ffordd y mae plant yn teimlo amdanyn nhw eu hunain yn cael ei etifeddu ond yn cael ei ddysgu
- Mae ffurfio hunaniaeth yn broses gymhleth nad yw byth yn cael ei chwblhau
- Mae effaith rhywedd, dosbarth a chategorïau ffurfiannol eraill yn gorgyffwrdd mewn ffyrdd cymhleth iawn i lunio hunaniaeth unigolyn
- Byddwch yn ymwybodol o natur newid hunaniaethau
- Byddwch yn ymwybodol o frandio ystrydebol
- Mae'n gwbl naturiol i blant ailadrodd ymddygiad rhieni ac oedolion arwyddocaol eraill.

Mae angen pedwar prif amod cyn y gellir mynd ati i ddysgu:

- Lles emosiynol da a diogelwch.
- Hunaniaeth a hunan-barch cadarnhaol.

- Mae’n rhaid i’r cwricwlwm fod yn rhyngweithiol yn gymdeithasol ac addysgiadol.
- Mae angen i blant gymryd rhan yn wybyddol.

**Mae angen i athrawon ddefnyddio’r cwricwlwm i:**

- Ymgorffori gwaith ar debygrwydd a gwahaniaethau.
- Cynnig arweiniad a chymorth i bob plentyn ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at bawb.
- Adnabod gwerth pob iaith a diwylliant.
- Datblygu pynciau a darllen storïau sy'n codi materion tebygrwydd a gwahaniaethau o ran rhywedd, iaith ac ethnigrwydd.
- Annog plant i ddeall a siarad am eu teimladau.
- Creu'r math o ethos sy'n hyrwyddo a gwerthfawrogi delweddau a chyfraniadau amrywiol mewn cymdeithas.
- Cynnwys rhieni a phlant, yn enwedig wrth ddatblygu polisi ar gydraddoldeb.
- Siaradwch drwy eich polisi cydraddoldeb gyda'r holl rieni a phlant pan fyddant yn cychwyn yn y lleoliad.
- Datblygwch strategaethau addysgu a dysgu priodol ar gyfer disgyblion SIY.
- Caffael iaith ac amrywiaeth – mae iaith yn golygu mwy na dysgu cod ieithyddol i labelu'r byd neu gyfeirio at gysyniadau haniaethol.
- Mae iaith hefyd yn golygu dysgu sut i ddefnyddio'r cod mewn ffyrdd effeithiol ac sy'n briodol yn gymdeithasol.
- Mae dysgu iaith yn ddibynnol ar wybyddiaeth.
- Y prif nodweddion yw gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu.
- Mae 60% o gyfathrebu yn gyfathrebu heb eiriau.

## Datblygu Cymhwysedd Cymdeithasol – helpu i adeiladu ymddiriedaeth

## Pwyntiau allweddol – Dylai'r athro

- Ymateb yn briodol i wahaniaethau unigol o ran anian.
- Helpu plant i ddysgu rheolau.
- Helpu plant i ddysgu sut i gydweithredu a derbyn cyfrifoldeb wrth helpu.
- Creu amgylchedd ffisegol sy'n meithrin gweithgareddau a diddordebau grŵp bach.
- Helpu plant i ddysgu sut i rannu a chymryd tro.
- Helpu plant i ddatblygu perthynas lwyddiannus â chyfoedion.
- Helpu plant i fod yn bendant nid yn ymosodol.
- Helpu plant i ddatblygu ymdeimlad o ystyriaeth dros les pobl eraill.
- Helpu plant i ofyn am gymorth pan fo hynny'n briodol.
- Helpu plant i ddatblygu sgiliau o ran datrys problemau rhyngbersonol.
- Meithrin hunan-barch plant.
- Cydnabod cefndiroedd diwylliannol ac ieithyddol pob plentyn.
- Cynnal a datblygu iaith gyntaf neu iaith gartref y plant.
- Hyrwyddo dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.
- Gwerthfawrogi dwyieithrwydd fel ased.
- Gwerthfawrogi'r hyn y mae bechgyn a merched yn ei wneud yn gyfartal.

## Mae gan ddiwylliannau wahanol arferion cymdeithasol a diwylliannol

- Cefnogi teuluoedd yn eu hymdrechion i gynnal eu hieithoedd a'u diwylliannau.

- Meithrin ymwybyddiaeth o amrywiaeth o ran dosbarth, rhywedd, gallu a diwylliant.
- Hyrwyddo parch tuag at debygrwydd a gwahaniaeth.
- Herio rhagfarn.
- Hyrwyddo ymdeimlad o degwch.
- Hyrwyddo egwyddorion cynhwysiant a thegwch. Cefnogi cyfranogiad y rhieni yn addysg y plant.
- Sicrhau bod y cwricwlwm yn cefnogi'r cornel cartref o ran amrywiaeth – adlewyrchu amrywiaeth.
- Darparu dillad gwisg ffansi o wahanol wledydd.
- Darparu posau a chyfarpar trin a thrafod sy'n adlewyrchu delweddau realistig o amrywiaeth a chydraddoldeb.
- Cerddoriaeth a chanu – darparu mannau gwrando gyda detholiad o dapiau, cryno ddisgiau mewn ieithoedd eraill, rhigymau a cherddi, cerddoriaeth ac offerynnau o wahanol ddiwylliannau.
- Hwyluso gweithgareddau dawns o wledydd eraill.
- Defnyddio gweithgareddau coginio er mwyn i'r disgyblion ymgyfarwyddo â blasau gwahanol. Defnyddiwch rieni / gofalwyr i helpu.
- Llyfrau, corneli llyfrau, mynediad i rieni. Sicrhau bod y llyfrgell yn atgyfnerthu delweddau cadarnhaol nad ydynt yn ystrydebol.
- Sefydlu llyfrgell ddwyieithog ar gyfer rhieni a phlant.
- Amser stori: defnyddiwch ddelweddau gweledol clir, testunau syml a diamwys, rhoi awgrymiadau da i linell stori a dilyniant digwyddiadau.
- Cadwch y sesiynau'n fyr; gall disgyblion fod wedi blino gyda chymaint o fewnbwn deallusol a synhwyraidd.
- Ystyriwch faint y grŵp.
- Datblygwch restr wirio ar gyfer staff.

## Rhieni fel partneriaid

- Gall agweddau o fywyd teuluol a chymunedol wella dealltwriaeth, archwilio hanes teuluoedd, gwlad wreiddiol, profiadau ffoaduriaid ac ati.
- Archwiliwch a hyrwyddwch ddealltwriaeth o gredoau ac arferion crefyddol, diet, dewisiadau bwyd, iaith grefyddol arbennig.
- Ystyriwch a gofynnwch am fywyd pob dydd plant yn y cartref, arferion bwyta, cysgu a chwarae.
- Defnyddiwch rieni / gofalwyr i gefnogi ymarfer iaith, storïau arbennig, traddodiadau llythrennedd.
- Ystyriwch ddamcaniaethau rhieni am ddysgu, ysgolion yn y wlad oedd yn gartref iddynt – profiadau addysgol aelodau eraill o'r cartref, disgwyliadau a barn rhieni ar addysg yma.
- Digwyddiadau a chysylltiadau cymunedol, meddygol, iechyd.
- Meysydd o arbenigedd, hobïau, darllen, coginio ac ati gyda phlant.

## Gwella Ethos

- Llyfrynnau a chanllawiau rhieni mewn ieithoedd eraill.
- Lluniau staff wedi'u harddangos gydag enwau gweithwyr.
- Dangos bod cefndiroedd ieithyddol a diwylliannol gwahanol y rhieni yn cael eu gwerthfawrogi a'u hystyried yn gadarnhaol.
- Darparu lleoedd i fabanod a phlant bach.
- Rhaid i staff ddod o hyd i ffyrdd o gyfathrebu â'r ystod lawn o rieni.

## Delio â sylwadau amhriodol

- Deliwch â sylwadau amhriodol wrth iddynt godi.
- Cofiwch eich bod yn "arwyddocaol" ac mae plant yn debygol o ddysgu o'ch gwerthoedd.
- Peidiwch â dweud wrth y plentyn ei fod ef neu hi yn anghywir – ond yn hytrach mai’r sylwadau sy’n anghywir.
- Cefnogwch a chysuro’r plentyn a gafodd ei gam-drin.
- Gweithiwch gyda’r plentyn a wnaeth y sylwadau tramgwyddus.
- Targedwch rieni’r plant a wnaeth y sylwadau gwahaniaethol.

**Adnoddau ar gyfer amrywiaeth diwylliannol**

**Gweler hefyd y bennod 'Gwefannau Defnyddiol'**

http://globaldimension.org.uk Rhaglen Dysgu Byd-eang – Cymru

https://globaldimension.org.uk Think Global

http://www.redcross.org.uk

Explore teaching resources at the British Red Cross Adnoddau addysgu, delweddau o ffoaduriaid.

www.youtube.com/watch?v=RBQ-IoHfimQ

www.youtube.com/watch?v=nKDgFCojiT8 Achub y Plant – 2 ffilm fer am fod yn ffoadur.

www.estyn.llyw.cymru Canllawiau atodol ar arolygu cydraddoldeb hiliol, hyrwyddo perthynas dda a'r Saesneg fel iaith ychwanegol.

Chwilio Adnoddau Gwella | Estyn (llyw.cymru)

Schools of Sanctuary: Learn about asylum seekers and refugees and improve your school's welcome – Oxfam Policy & Practice

UNHCR – Teaching about Refugees

unicef.org.uk/rights-respecting-schools/resources/teaching-resources/In Search of Safety Refugee crisis school resource – UNICEF UK Pecyn Addysgu

www.sendmyfriend.org Mae *Send My Friend* yn creu'r adnoddau diweddaraf bob blwyddyn am blant sydd ar goll o'r ysgol.

www.newburypark.redbridge.sch.uk – Syniadau gwych ar gyfer "Iaith y Mis". Adnodd clywedol o bob iaith. Yn fwy addas ar gyfer dysgwyr Cynradd neu'r rheini yn yr ysgol Uwchradd y mae Saesneg yn newydd iddynt.

www.britishcouncil.org/kids.htm

School and teacher resources | British Council – Gweithgareddau rhyngweithiol ar gyfer y rheini y mae Saesneg yn newydd iddynt a CA1 a 2 ac adnoddau amrywiaeth diwylliannol – rhaglenni porth byd-eang.

ww.nottinghamschools.co.uk/emag – Awgrymiadau ar gyfer dysgu ar y cyd.

EAL, ESL Online Learning Resources| Books & Tools for Schools | EMAS UK Teclyn cyfieithu cyd-destunol sy'n cynnwys avatar a bysellfyrddau rhithwir.

Show Racism the Red Card – Resources and Activities Adnoddau ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn cynnwys gweithdai mewn ysgolion, DVD.

**Llyfrau Stori** – www.mantralingua.com Catalog o adnoddau i bawb.

Tusk Tusk – David McKee

The Colour of Home – Mary Hoffman

Azzi in Between – Sarah Garland

www.englishraven.com – Adnoddau, gemau, cardiau fflach ac ati. Rhywbeth i bawb.

www.digitaldialects.com – Safle cynhwysfawr gyda nifer o ieithoedd. Yn cynnwys gemau rhyngweithiol, defnyddiol ar gyfer dysgwyr cam A – B.

www.Emas4success.org – EMAS 4 Success (Ethnic Minority Achievement (urlm.co.uk) – Deunyddiau i athrawon ddefnyddio gyda disgyblion y mae Saesneg yn newydd iddynt.

Internet TESL Journal (For ESL/EFL Teachers) (iteslj.org)

The Internet TESL Journal
For Teachers of English as a Second Language Articles, Research Papers, Lessons Plans, Classroom Handouts, Teaching Ideas & Links – Dwyieithog, yn cynnwys cwisiau geirfa.

www.happychild.org.uk – Adnoddau mewn gwahanol ieithoedd, gemau. Wedi eu hanelu at bob lefel.

www.collaborativelearning.org – Gweithgareddau addas ar gyfer CA2, 3, a 4.

www.senteacher.org – Deunyddiau i'w hargraffu i oed cynradd, gwaelod oed uwchradd.

www.ase.org.uk – Cardiau fflach offer ar gyfer gwyddoniaeth CA3/4.

Llawer o adnoddau dwyieithog yn cynnwys Shakespeare. Mathemateg a Gwyddoniaeth.

www.primaryresourcecentre.com – Adnoddau i'w prynu, mae rhai am ddim. Matiau ffeithiau ar gyfer gwyddoniaeth yn hynod o ddefnyddiol.

Search | Milton Keynes Council (milton-keynes.gov.uk) – I bob oed. Ewch i "resources" ar y wefan a dilynwch yr amrywiol ddolenni.


www.bfinclusion.org.uk – adnoddau ar gyfer disgyblion Cynradd ac Uwchradd.

Gwahanol adnoddau, cyflwyniadau, cyngor gan Wasanaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent (GEMS) gan gynnwys calendr aml-ffydd i ysgolion, sy'n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn. Ar gael ar HWB.

Google Translate – Adnodd da, fodd bynnag, byddwch yn ofalus am nad yw'r cyfieithiadau'n gywir bob tro.

EAL, ESL Online Learning Resources| Books & Tools for Schools | EMAS UK – offer cyfieithu cyd-destunol gydag avatars, bysellfyrddau rhithwir ac adnoddau. Ar gael yn Arabeg a nifer o ieithoedd eraill.

FlashAcademy® – Learning Platform for EAL, MFL & Literacy





# Pennod 9 – Strategaethau Addysgu ar gyfer Disgyblion Newydd sy'n Dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol

Y strategaeth bwysicaf i'w defnyddio i ddechrau gyda'ch disgyblion sy'n ffoaduriaid fydd y defnydd o'r gweledol. Mae amrywiaeth o strategaethau gweledol i'w defnyddio a gellir eu gweld ar wefan Nexus gan y Cyngor Prydeinig.
English project supports UK teachers of young EAL learners | British Council

**Mae'n hanfodol meddwl am ba ddeunydd gweledol y gellir ei ddefnyddio i helpu'r disgybl i ddeall pwnc eich gwers neu'r prif eiriau allweddol.** Mae delweddau Google yn ffordd gyflym o gynhyrchu delwedd ar y bwrdd gwyn yn ystod y wers i helpu disgyblion i deimlo eu bod wedi'u cynnwys. Cofiwch beidio â phoeni yn y camau cynnar a chofiwch y gall yr holl brofiad fod yn orlethol i'ch disgybl newydd.

Y prif offer gweledol i'w defnyddio ar y cychwyn fydd:


**Trefnwyr graffig**




**Mae'r rhain yn rhoi cyfle i'r disgyblion gael mynediad at gynnwys y cwricwlwm a chefnogi datblygiad iaith academaidd.** Gall y disgyblion drefnu eu meddyliau, cyn mynd ymlaen i fynegi eu meddyliau yn Saesneg. **Mae trefnwyr graffig yn galluogi'r disgyblion i gaffael geirfa mewn cyd-destun,** felly maen nhw'n rhagorol i alluogi athrawon i gadw her wybyddol y dasg yn uchel gan hefyd sicrhau bod yr iaith yn hygyrch.

Mae trefnwyr graffig yn cefnogi'r holl ddysgwyr. Maent yn galluogi dysgwyr i ganolbwyntio a chymryd rhan mewn dysgu dosbarth cyfan. Maent yn helpu dysgwyr gydag iaith a chynnwys mewn gwahanol bynciau ac maent yn cefnogi datblygiad cysyniadol dysgwyr.
Graphic Facilitation — SEND-Station (sendstation.co.uk)

## Awgrymiadau Gweledol




Byddai testun fel 'Coraline' yn anodd i athro geisio ei egluro i ddisgyblion SIY, ond gall bwrdd stori syml ganiatáu i'r disgybl ddeall rhannau o'r testun ar lefel briodol i gaffael iaith (**gweler Adran Adnoddau**).

## Amlygu Geiriau Allweddol

Gall amlygu geiriau / ymadroddion allweddol mewn testun i ddisgyblion gyfieithu yn annibynnol neu gyda chymorth cymhorthydd addysgu Dwyieithog helpu disgyblion i fynd i'r afael â gwaith dosbarth. Gall y disgyblion ddechrau creu banc o eiriau allweddol i gyfeirio atynt yn ystod gwersi.

## Koralin




**Bölüm 3**

Ertesi gün güneş parlıyordu ve Koralinin annesi okul için bir kıyafet satın almak için en yakın büyük kasabaya onu götürdü. Onlar tren istasyonunda babasını biraktilar. O bazı insanları görmek için bir gün Londra'ya gidiyordu.

Koralin ona hoşçakal demek icin ellini salladi. Annesilyle okul kıyafetleri satın almak için buyuk mağazanin içine girdiller.

Koralin çok sevdigi Day-Glo yeşil eldivenleri gördü. Annesi eldivenleri almağa reddetti ve yerine beyaz çorap , lacivert okul külotlari, dört gri bluz ve koyu gri etek almaya tercih etti .


"Ama anne, okulda *herkesin* gri bluz ve her şeyi var. *Hiç kimsenin* yeşil eldiveni yok. Sadece bende olacak."

Annesi onu aldirmadi. O mağaza görevlisiyle konuşuyordu. Koralin için ne turlu kazak alabillecegini konuşuyorlardı ve o konuda en uygun kazak untandiran genis ve sarkik olan bir kazaga karar verdiler bir gun buyuyup ve tam gelmesi umuduyla.

## Geiriau Allweddol

Isod, mae enghraifft o rid y gellir ei addasu ar gyfer unrhyw air newydd a gellir gwneud hynny ar ryw lefel gan bob dysgwr SIY.

**Key word/new vocabulary grid sample**

| | | |
|---|---|---|
| NOUNS<br>Den, predator, prey, plains, Africa, cub, pride. | **Adjectives**<br>majestic, huge, fierce, proud, lazy | **Verbs**<br>roar, run, chase, attack, hide, kill, rule |
| Diagram<br> | **lion** | **Adverbs**<br>quickly, fiercely, slyly, lovingly |
| **Ask a question:**<br>What is their life span? | **Lion stories/in the news:** Lion King, Born Free, killed by poachers, Jungle Book | **Symbolise:**<br>strength, nobility, ferocity |

## Tablau Amnewid

1. Predicting

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| We think | candles<br>butter<br>margarine<br>ice<br>cheese<br>chocolate | will melt | in | cold<br>cool<br>warm<br>hot<br>boiling | water |

**Mae tabl amnewid yn caniatáu i athro ddarparu tabl sy'n rhoi brawddegau enghreifftiol gydag amrywiaeth o ddewisiadau i ddysgwyr ddewis ohonynt, gan ddefnyddio patrwm penodol.** Mae'n adnodd ategol defnyddiol iawn sy'n ymestyn sgiliau siarad neu ysgrifennu dysgwyr SIY a gellir ei ddefnyddio i atgyfnerthu iaith newydd. Mae tablau amnewid yn darparu modelau i ddysgwyr ymarfer iaith darged a chefnogi datblygiad nodweddion gramadegol penodol yng nghyd-destun y cwricwlwm. Maent yn ysgogi ac yn creu ymdeimlad o gyflawniad wrth eu cwblhau.

Gellir defnyddio tablau amnewid i gefnogi siarad a darparu strwythur sy'n galluogi dysgwyr i siarad neu ysgrifennu brawddegau sy'n ramadegol gywir. Maent yn aml yn cael eu defnyddio i roi cyfle i ddysgwyr y mae Saesneg yn newydd iddynt, weithio'n annibynnol. Fodd bynnag, gellir hefyd eu defnyddio gan barau neu grwpiau lle gallant annog dysgwyr i ddatblygu ac ymestyn sgiliau siarad a gwrando yng nghyd-destun pwnc cwricwlwm a rhoi cyfle i gyfathrebu'n ystyrlon. (**EAL Nexus**) English project supports UK teachers of young EAL learners | British Council

## Trawsieithu

Mae trawsieithu yn rhoi'r gair o iaith wahanol mewn llythrennau y gallwch chi eu deall er mwyn gallu ei ynganu **(gweler enghraifft Arabeg 5 W yn Adnoddau)**. Defnyddiwch siaradwyr Arabeg i drawsieithu geiriau ac ymadroddion allweddol mewn Arabeg. Mae hyn yn rhoi ffordd i athrawon ddweud geiriau neu ymadroddion syml mewn Arabeg mewn ffordd gywir i ddisgyblion.

Dyma enghraifft:

| How to Introduce Yourself in Arabic | | |
|---|---|---|
| My name is ... | اسمي ... | Esmee... |
| What's your name? | ما هو اسمك؟ | Ma esmouk? |
| Nice to meet you! | الطيف لمقابلتك! | Motasharefon bema'refatek |
| I have to go | يجب أن أذهب | Yajebu an athhaba al aan |
| I will be right back! | سأكون الظهير الايمن! | Sa arje'o halan |

**<u>Rhai 'Apiau' Defnyddiol</u>**

**Gall teclyn fel I-pad brofi i fod yn hynod ddefnyddiol yn nyddiau cynnar y disgyblion newydd yn yr ysgol drwy eu helpu i ymgartrefu.** Mae yna lu o apiau da sy'n cynnig ffynonellau da o adnoddau gweledol yn ogystal â chaniatáu i ddisgyblion gael mynediad i gemau dysgu Saesneg.

**Mae cael bysellfyrddau cyfrifiadurol yn iaith y cartref hefyd yn gallu helpu myfyriwr a allai fod yn addasu i'r wyddor Saesneg.** Mae amrywiaeth o offer cyfieithu ar gael fel EMAS UK neu Google Translate. Nid yw Google Translate yn gywir iawn yn enwedig o ran cyfieithiadau hir, ond gall fod yn iawn ar gyfer geiriau unigol.

**Learn English School**

School | LearnEnglish Kids (britishcouncil.org)

Mae'r ap yn gweithio trwy gyfieithu geirfa ac ymadroddion sylfaenol i iaith ddewisol. Mae'r rhaglen yn cynnwys geirfa 13 o bynciau gwahanol bob dydd gyda sain.

**Sentence Reading Magic**

Ap syml, clir a gweledol a gynlluniwyd i helpu'r rhai hynny sy'n darllen ac ysgrifennu ar lefel gair, ac sydd am ddatblygu i frawddegau rhugl a dechrau adrodd.

**Sentence Builder**

Mae Sentence Builder wedi'i gynllunio i helpu plant i ddysgu sut i adeiladu brawddegau gramadegol gywir.

Sentence Builder – Grammar and Punctuation | Twinkl

**Bitsboard**
[Bitsboard Flashcards & Games on the App Store (apple.com)](#)
Ap gwych i adeiladu geirfa disgyblion y mae Saesneg yn newydd iddynt, drwy ddefnyddio byrddau gweledol, adeiladu geiriau, gemau cof, croeseiriau, trefnu a llawer mwy.

**Story Creator**
Ap ardderchog i annog disgyblion i greu, darlunio a chofnodi eu storïau eu hunain.

**Clicker Sentences**
Mae Clicker Sentences yn ap sy'n cefnogi adeiladu brawddegau. Gellir ei ddefnyddio i greu adnoddau wedi'u teilwra ar gyfer gwersi penodol.
[Mae'r ap hwn yn cael ei ddisodli gan ap newydd, Clicker Writer, sy'n dod â Clicker Sentences, Clicker Connect a Clicker Docs ynghyd i un ap – mae Clicker Writer ar gael yn yr App Store ar hyn o bryd.](#)

**Rhai Gwefannau defnyddiol ar gyfer SIY**
**Gweler hefyd y gwefannau yn yr adran adnoddau**

**Cyngor Bracknell Forest**
**EAL Service – useful documents – School Management (bracknell-forest.gov.uk)**
Yn ddefnyddiol i staff prif ffrwd sy'n gweithio gyda dysgwyr SIY newydd mewn ardaloedd uniaith yn bennaf. Canllaw syml ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd a chasgliad defnyddiol o adnoddau. Llyfrynnau defnyddiol ar gyfer newydd-ddyfodiaid.

**Cyngor Dinas Caeredin**
Mae Gwasanaeth SIY Dinas Caeredin yn cynnwys llawer o ddogfennau a syniadau defnyddiol, gan gynnwys adnoddau cyfieithu helaeth megis geiriau allweddol a thaflenni i rieni. Mae yna lawer o adnoddau uwchradd a gwybodaeth i rieni. Additional support for learning service – The City of Edinburgh Council

**EMTAS 4 Success**
Gwefan sy'n cael ei datblygu trwy bartneriaeth rhwng De Swydd Gaerloyw, Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf, Gogledd Gwlad yr Haf a Bryste yw EMTAS 4 Success. Mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am bolisi a phrosiectau, arweiniad ac adnoddau addysgu y gellir eu lawrlwytho, a gynhyrchir gan y gwasanaethau, gan gynnwys nifer ar gyfer disgyblion y mae Saesneg yn newydd iddynt.

**Cyngor Sir Caerhirfryn**
www.lancashire.gov.uk
Chwiliwch am 'EAL'.
Safle gwych sydd â llawer o gymhorthion gweledol da i ddisgyblion y mae Saesneg yn iaith newydd iddynt, i helpu i lywio geirfa newydd.

Hampshire
Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am gynllun Cyfieithwyr Ifanc a dogfennau ac adnoddau defnyddiol.

www.collaborativelearning.org
Dolenni i ystod o weithgareddau cydweithredol sy'n helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu dysgwyr SIY trwy ryngweithio pwrpasol.

www.twinkl.co.uk
Amrywiaeth dda o adnoddau gweledol ac adnoddau dwyieithog i helpu disgyblion y mae Saesneg yn iaith newydd iddynt. Bydd angen i chi danysgrifio i gael mynediad at yr ystod lawn o adnoddau dwyieithog yn Arabeg.

www.sparklebox.co.uk
Llawer o adnoddau gweledol i helpu disgyblion yn eu dyddiau cynnar yn yr ysgol.




# Pennod 10 – Diogelu Newydd-ddyfodiaid

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu polisi a chyfraith mewn nifer o feysydd yn ymwneud â gofalu am blant a phobl ifanc mudol, a'u cefnogi.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gofal cymdeithasol, ac mae gan blant ar eu pen eu hunain yr un hawliau â phlant sy'n derbyn gofal o ran diogelu, amddiffyn, eiriolaeth, a chefnogaeth arall, ac mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Mae Llywodraeth Cymru'n falch bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wedi ei ymgorffori i'r ddeddfwriaeth hon a bod gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i ystyried hawliau'r plant yn yr holl bolisi a chyfraith y maent yn eu datblygu.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod anghenion penodol sydd angen eu diwallu ymysg y garfan hon, ac mae'n rhaid ymgymryd â'r gwaith hwn mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus datganoledig ac wrth weithio â Llywodraeth y DU ar faterion yn ymwneud â mewnfudo a lloches.

Mae meithrin capasiti, hyfforddiant ar gyfer gofalwyr maeth, darparu llety priodol, atal plant rhag mynd ar goll ac aduno plant mudol sydd ar eu pen eu hunain gyda'u teuluoedd, i gyd yn feysydd sy'n deilwng o ffocws polisi. Y mae meysydd hefyd lle mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ymatebion polisi. Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn goruchwylio ac yn craffu ar gynnydd y gwaith o gyflawni nifer o linynnau gwaith. Mae un llinyn gwaith yn ymwneud â phlant mudol sydd ar eu pen eu hunain. Mae ei waith hyd yma wedi bod yn canolbwyntio ar y Rhaglen Adsefydlu Syriaid a throsglwyddo plant o Ewrop sydd ar eu pen eu hunain ac yn ceisio lloches.

Ymateb arall yw’r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Fynd i’r Afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (Cymru), sy’n nodi ffyrdd o gefnogi’r rheiny sy’n dioddef o’r ffurf erchyll hon o gam-drin plant, neu sydd mewn perygl o fod yn dioddef.

## Risg i blant

Pan fo plant yn cael eu gyrru o’u cartrefi gan wrthdaro / trais, mae eu cysylltiad â pherygl yn cynyddu. Yn ychwanegol i’r risg o gael eu niweidio neu eu lladd gan arfau a ffrwydradau, mae plant sydd wedi eu dadleoli yn wynebu llawer o heriau ar eu taith. Wrth i’r ymladd waethygu, nid oes ganddynt lawer o ddewis – neu ddim dewis o gwbl – i symud ar hyd llwybrau diogel, boed ar eu pen eu hunain neu gyda’u teuluoedd. Efallai y byddant yn cael eu dal mewn trais, a hwythau heb fod o fewn cyrraedd gofal meddygol, dŵr glân a bwyd. Efallai y byddant yn cael eu masnachu, eu gorfodi i lafur plant, neu gael eu smyglo. Mae menywod a genethod sydd wedi eu dadleoli mewn perygl neilltuol o drais ar sail rhywedd pan fônt yn llochesu neu’n ceisio lloches.

Y mae’n hanfodol bod gwasanaethau ar gyfer plant ar gael ar unwaith, gan gynnwys lleoedd diogel i chwarae a dysgu, cefnogaeth iechyd corfforol ac iechyd meddwl, gwybodaeth sy’n addas i blant, ac olrhain ac aduno teuluoedd.

Mae gan awdurdodau lleol rôl hanfodol i’w chwarae i gefnogi’r holl fudwyr sy’n cyrraedd Cymru ac maent mewn sefyllfa unigryw i gefnogi cymunedau lleol i gynnig y croeso cynhesaf bosibl i’r bobl yma pan fyddant yn cyrraedd.

## Cam-drin plant

Mae plant yn profi ffurfiau peryglus o drais, camfanteisio, a chamdriniaeth. Gall plentyn ddioddef camdriniaeth neu gamfanteisio rhywiol yn y cartref, yn yr ysgol neu yn y gymuned. Gall y defnydd eang o dechnolegau digidol roi plant mewn perygl hefyd. Gall trais yn erbyn plant fod yn gorfforol, emosiynol neu’n rhywiol.

Mae plant mewn lleoliadau dyngarol yn neilltuol o ddiamddiffyn. Yn ystod gwrthdaro arfog, trychinebau naturiol ac argyfyngau eraill, gall

plant gael eu gorfodi i ffoi o'u cartrefi. Caiff rhai eu tynnu oddi wrth eu teuluoedd a dod i gysylltiad â chamfanteisio a chamdriniaeth ar y ffordd. Mae'r bygythiad o drais ar sail rhywedd yn cynyddu i enethod a menywod mewn sefyllfaoedd o'r fath.

Mae arferion diwylliannol niweidiol yn cyflwyno risg arall mewn gwahanol rannau o'r byd. Gall genethod orfod priodi neu ddioddef anffurfio'u horganau cenhedlu – er y cydnabyddir yn rhyngwladol bod y ddau beth yn mynd yn groes i hawliau dynol.

## Amddiffyn plant rhag arfau ffrwydrol

Mae gwrthdaro arfog yn digwydd fwyfwy mewn ardaloedd poblog lle mae plant yn byw. Mae arfau ffrwydrol yn lladd ac anafu miloedd o sifiliaid bob blwyddyn, yn ystod gwrthdaro arfog ac wedi hynny. Mae hanner y rhai sy'n cael eu lladd neu eu hanafu gan ordnans ffrwydrol yn blant. Maent yn ddiamddiffyn am nifer o resymau. Mae gwrthdaro arfog yn digwydd fwyfwy mewn ardaloedd poblog, megis dinasoedd, lle mae plant yn ffurfio cyfran sylweddol o'r gymuned. Pan ddefnyddir arfau ffrwydrol yn yr ardaloedd hyn, mae mwy na 90% o'r dioddefwyr yn sifiliaid – llawer yn blant, neu eu rhieni.

Mae plant sy'n goroesi yn dioddef anafiadau corfforol a thrawma seicolegol aruthrol. Efallai y bydd rhai wedi colli eu golwg, clyw, neu freichiau a choesau. Byddant i gyd, bron, angen cefnogaeth seicogymdeithasol hanfodol a pharhaus. Ond mae arfau ffrwydrol yn peri niwed difrifol i blant yn anuniongyrchol hefyd.

Bydd ffrwydron yn dinistrio isadeiledd hanfodol, yn enwedig mewn ardaloedd poblog – pethau fel piblinellau dŵr, cyfleusterau carthffosiaeth, ysbytai ac ysgolion – gan amddifadu plant o wasanaethau angenrheidiol. Mae'r colledion hyn yn chwyddo'r bygythiadau mae plant eisoes yn eu hwynebu, drwy eu dadleoli o'u cartrefi neu eu hamlygu hwy i glefydau, ymysgu pethau eraill. Mewn gwrthdaro estynedig, er enghraifft, gallai plant farw o glefyd dolur rhydd sy'n gysylltiedig â dŵr a charthffosiaeth anniogel, yn hytrach nag o ganlyniad i'r trais.

## Risg masnachu

Wrth i deuluoedd deithio i wledydd cyfagos, neu drwyddynt, i chwilio am ddiogelwch, efallai y byddant yn ei gweld yn anodd canfod cymorth dibynadwy. Mae gwirfoddolwyr wedi dod yn eu miloedd i gefnogi ffoaduriaid wrth groesi ffiniau a'u harwain i amddiffynfa. Ond mae'r gofal a ddangosir, yn enwedig ymysg gwirfoddolwyr anghofrestredig, hefyd yn galluogi i grwpiau treisgar ac anghyfreithlon, fel rhai sy'n masnachu pobl, esgus eu bod yn Samariaid Trugarog.

Mae llawer o ffoaduriaid – y mwyafrif llethol yn blant, a merched – yn cyrraedd gwledydd cyfagos dan orfodaeth na ellir mo'i dychmygu. Maent yn llwglyd, blinedig a gofidus. Efallai nad ydynt yn siarad yr iaith leol ac, yng nghanol yr anhrefn a dryswch, efallai y bydd masnachwyr pobl yn mynd atynt yn ddiarwybod iddynt, neu grwpiau eraill yn ceisio'u hatal rhag cael mynediad at wasanaethau hanfodol (fel cofrestru gyda'r llywodraeth, lloches, gofal iechyd, addysg, ac ati), gan arwain at gamfanteisio.

Mae plant mudol sydd ar eu pen eu hunain neu sydd wedi eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd yn arbennig o agored i gael eu masnachu. I fenywod a genethod, yn enwedig y rheiny sy'n teithio ar eu pen eu hunain, mae trais yn seiliedig ar rywedd, sy'n cynnwys cael eu masnachu ar gyfer camfanteisio arnynt yn rhywiol, yn berygl gwirioneddol a thrallodus.

Gall y risg o herwgydio, masnachu ar gyfer gwerthu a chamfanteisio, a mabwysiadu anghyfreithlon fod hyd yn oed yn fwy lle mae troseddau yn erbyn hawliau plant yn bod eisoes neu pan fo nifer fawr o bobl yn croesi ffiniau.

## Llafur plant

Cafodd tua 160 miliwn o blant eu gorfodi i lafur plant ar ddechrau 2020, gyda 9 miliwn yn fwy o blant mewn perygl o ganlyniad i effeithiau COVID-19.

Mae hyn yn cyfateb i 1 o bob 10 plentyn yn fyd-eang. Mae bron i hanner ohonynt mewn gwaith peryglus sy'n peryglu eu hiechyd a'u datblygiad moesol yn uniongyrchol.

Caiff plant eu gwthio i weithio am resymau penodol. Yn aml, mae llafur plant yn digwydd pan fo teuluoedd yn wynebu heriau neu ansicrwydd ariannol – efallai o ganlyniad i dlodi, salwch sydyn un sy'n rhoi gofal, neu efallai bod y sawl sy'n ennill y prif gyflog yn colli ei swydd.

Gall llafur plant arwain at niwed corfforol a meddyliol eithafol, a marwolaeth, hyd yn oed. Gall arwain at gaethwasiaeth a chamfanteisio rhywiol neu economaidd. Ac ym mhob achos bron mae'n amddifadu plant o'r addysg a gofal iechyd, gan gyfyngu ar eu hawliau sylfaenol a bygwth eu dyfodol.

Mae plant mudol – nifer ohonynt wedi eu dadwreiddio gan wrthdaro, trychineb neu dlodi – hefyd mewn peryglo gael eu gorfodi i weithio a'u masnachu, hyd yn oed, yn enwedig os ydynt yn mudo ar eu pen eu hunain neu'n teithio llwybrau afreolaidd gyda'u teuluoedd.

'MAE'R RHAN FWYAF O DDIODDEFWYR MASNACHU YN BLANT SY'N CAEL EU GORFODI I WEITHIO MEWN GWEITHFEYDD GWNEUD CARPEDI, ODYNAU BRICS, CAETHWASANAETH DOMESTIG, RHYW MASNACHOL, CARDOTA, TYFU A CHYNAEAFU PABI, CLODDIO AM HALEN, SMYGLO CYFFURIAU'N DRAWSWLADOL, A GYRRU WAGENNI.

MAE RHAI TEULUOEDD O AFFGANISTAN YN GORFODI EU PLANT I LAFUR DRWY DRAIS CORFFOROL NEU DRWY WERTHU EU PLANT YN FWRIADOL I FASNACH RHYW. MAE TEULUOEDD SY'N FFERMIO OPIWM WEITHIAU'N GWERTHU EU PLANT I GLIRIO DYLEDION GYDA MASNACHWYR OPIWM, AC MAE RHAI RHIENI SY'N GAETH I GYFFURIAU'N GORFODI EU PLANT I FASNACH RHYW NEU I LAFUR, YN CYNNWYS CARDOTA. BU RHAI CARTREFI PLANT AMDDIFAID A OEDD YN CAEL EU RHEDEG GAN GYRFF ANLLYWODRAETHOL AC YN CAEL EU GORUCHWYLIO GAN Y LLYWODRAETH YN MASNACHU PLANT.' (CYFIEITHIAD.)

AFG CPIN UNACCOMPANIED CHILDREN (PUBLISHING.SERVICE.GOV.UK)

Mae plant sy'n cael eu masnachu yn aml yn dioddef trais, camdriniaeth a throseddau eraill yn erbyn eu hawliau dynol. Ac mae'n bosibl y bydd rhai yn cael eu gorfodi i dorri'r gyfraith. I enethod, mae'r bygythiad o gamfanteisio rhywiol yn amlwg, ac mae'n bosibl y camfanteisir ar fechgyn gan luoedd neu grwpiau arfog.

## Trais ar sail rhywedd

Mae sawl ffurf i drais ar sail rhywedd: mae trais gan bartner agos, trais rhywiol, priodas plant, anffurfio organau cenhedlu benywod, masnachu ar gyfer camfanteisio rhywiol, lladd babanod benywaidd, a throseddau ar sail anrhydedd yn gyffredin – gyda thrais gan bartner agos yn digwydd ar gyfradd syfrdanol ym mhob gwlad.

## Priodas plant

Mae priodas plant yn cyfeirio at unrhyw briodas ffurfiol neu uniad anffurfiol rhwng plentyn o dan ddeunaw mlwydd oed ac oedolyn neu blentyn arall.

Er bod priodas plant wedi dod yn llai cyffredin yn fyd-eang, amcangyfrifir bod 1 ym mhob 5 geneth ledled y byd wedi priodi yn iau nag un ar bymtheng mlwydd oed.

Mae priodas plant yn amddifadu genethod o'u plentyndod ac yn bygwth eu bywyd a'u hiechyd. Mae genethod sy'n priodi cyn bod yn 18 yn fwy tebygol o brofi trais domestig ac yn llai tebygol o aros yn yr ysgol.

Bydd priodferched sy'n blant yn aml yn beichiogi yn ystod y glasoed, pan fo'r risg o gymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd a geni plant yn uwch iddynt hwy ac i'r babanod. Gall yr arferiad ynysu genethod oddi wrth deulu a ffrindiau, a'u rhwystro rhag cymryd rhan yn eu cymunedau, gan wneud niwed mawr i'w lles corfforol a seicolegol.

Mewn rhai gwledydd lle nad yw genethod yn eu harddegau'n cael mynd yn ôl i'r ysgol, mae'r risg o orfod priodi hyd yn oed yn uwch. Yn aml, addysg yw'r amddiffyniad gorau rhag mecanweithiau ymdopi negyddol megis priodas plant a llafur plant.

## Priodi dan orfod

Nid yw priodi dan orfod o reidrwydd yn benodol i un wlad neu un diwylliant. Mae nifer o offerynnau cyfreithiol rhyngwladol a rhanbarthol yn condemnio'r arferion o briodi dan orfod a phriodi'n ifanc, ac mae'r holl brif grefyddau, hynny yw Mwslimiaid, Hindwiaid, Sikhiaid, Cristnogion ac Iddewon, yn llafar yn erbyn yr arferiad.

Mae Uned Priodasau dan Orfod (FMU) Llywodraeth y DU wedi ymdrin ag achosion yn ymwneud â gwledydd ledled y byd, gan gynnwys Asia, y Dwyrain Canol, Affrica, Ewrop a Gogledd America, ac mae ganddi restr o 66 o "wledydd ffocws"; hynny yw, gwledydd lle mae risg uchel bod priodasau dan orfod yn mynd i ddigwydd, gwlad lle mae wedi digwydd, neu'r wlad lle mae'r priod yn byw ar hyn o bryd (neu'r cyfan).

Dyma'r gwledydd gyda'r nifer uchaf o achosion o briodasau dan orfod y rhoddwyd gwybod amdanynt i'r Uned Priodasau dan Orfod yn 2019:

- **Pacistan –** 559 o achosion (41%)
- **Bangladesh –** 144 o achosion (11%)
- **India –** 65 o achosion (5%)
- **Affganistan –** 54 o achosion (4%)
- **Somalia (gan gynnwys Somaliland) –** 31 o achosion (2%)
- **Irac –** 23 o achosion (2%)
- **Rwmania –** 22 o achosion (2%).

Mae priodasau dan orfod yn y DU yn aml mewn tair ffurf:

- unigolyn sy'n ofni y bydd yn cael ei orfodi i briodi yn y DU neu dramor
- unigolyn sydd wedi ei orfodi i briodi yn y DU neu dramor eisoes
- priod sydd wedi dod i'r DU oherwydd priodas dan orfod.

Er gwaethaf natur ddifrifol priodasau dan orfod yn y DU, mae'n anodd cael darlun cywir o'i raddfa. Mae hyn o ganlyniad i danadrodd, sy'n gyffredin ar gyfer pob trosedd dreisgar yn erbyn merched, ond mae hefyd o ganlyniad i fethiant asiantaethau i gofnodi ystadegau cywir. Fodd bynnag, mae Halo Project Charity yn y DU yn amcangyfrif bod cymaint ag 8,000 o ferched ifanc yn cael eu gorfodi i briodi bob blwyddyn, sydd dros bedair gwaith cymaint â'r rheiny y rhoddwyd gwybod amdanynt i'r Uned Priodasau dan Orfod.

## Beth yw priodas dan orfod?

Priodas Dan Orfod yw pan nad yw un neu ddau o'r unigolion yn cydsynio i'r briodas, a phan fo'r unigolyn/unigolion hynny yn cael eu cam-drin neu

eu rhoi dan bwysau i'w gorfodi i briodi. Mae priodasau dan orfod yn anghyfreithlon yn y DU o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, sy'n ei gwneud yn drosedd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i orfodi rhywun i briodi.

Gall unrhyw unigolyn gael ei orfodi i briodi, ac mae hyn yn cynnwys pobl o bob oed, rhywedd, ethnigrwydd a chrefydd. Mae'n ffurf o gam-drin domestig, cam-drin plant ac yn gamdriniaeth ddifrifol o hawliau dynol. Er mwyn i briodas fod yn gydsyniol, mae'n rhaid i'r ddau unigolyn sy'n priodi wneud hynny o'u gwirfodd. Dylent deimlo bod ganddynt ddewis a'r hawl i ddweud na. Yn gyfreithiol, ni all pobl sydd ag anableddau dysgu penodol neu gyflyrau iechyd meddwl difrifol allu cydsynio i briodi, hyd yn oed os ydynt yn teimlo eu bod eisiau priodi, gan nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i wneud hynny.

Gall y pwysau a roddir ar unigolyn i briodi fod mewn gwahanol ffurfiau:

- **Pwysau corfforol –** Bygythiadau neu drais (gan gynnwys trais rhywiol).
- **Pwysau emosiynol neu seicolegol –** Gwneud i rywun deimlo ei fod yn dwyn gwarth ar ei deulu, gwneud i rywun deimlo y byddai rhywun agos yn dod yn agored i niwed neu y byddai'n siomi'r teulu drwy fynd yn groes i'w disgwyliadau diwylliannol neu grefyddol os nad yw'n cytuno i briodi, neu drwy wrthod rhyddid neu arian i'r unigolyn oni bai ei fod yn cytuno i'r briodas.

'Forced marriage: Dina's story | Childline'

**Mae'r Uned Priodasau dan Orfod wedi amlinellu'r rhesymau canlynol pam mae pobl yn gorfodi eraill i briodi:**

- I reoli ymddygiad a rhywioldeb nas dymunir, ac atal perthnasoedd 'anaddas', h.y. gyda phobl sydd y tu allan i'w grŵp ethnig, diwylliannol, crefyddol neu gast
- I amddiffyn delfrydau diwylliannol neu grefyddol ymddangosiadol
- 'Anrhydedd' y teulu neu ymrwymiadau teuluol a wnaed ers tro
- Pwysau gan gyfoedion neu deulu
- I sicrhau bod tir, eiddo a chyfoeth yn aros yn y teulu

- I gryfhau cysylltiadau teuluol
- Er amddiffyniad pan fo rhiant, y tad fel arfer, wedi marw
- I gynorthwyo gyda cheisiadau ar gyfer preswyliad a dinasyddiaeth
- I ddarparu gofalwr ar gyfer aelod anabl o'r teulu / lleihau 'stigma' anabledd.

Yn aml gall nifer o blant gael eu gorfodi i briodi aelod o'u teulu estynedig – cefnder neu gyfnither, er enghraifft. Cafwyd achosion lle mae pobl wedi eu cymryd dramor heb iddynt wybod eu bod am briodi. Pan gyrhaeddwyd y wlad dramor, cymerwyd eu pasbort(au) / dogfennau teithio oddi arnynt i'w hatal rhag dychwelyd i'r DU.

Er ei bod yn bwysig deall yr hyn sy'n cymell rhieni i orfodi eu plant i briodi, **ni ddylid** derbyn y cymhellion hyn fel cyfiawnhad dros amddifadu unigolyn o'r hawl i ddewis partner i'w briodi a chael priodi o'i wirfodd.

**Arwyddion posibl o rybudd**

Mae priodas dan orfod yn drosedd guddiedig yn yr un ffordd ag y mae troseddau cam-drin domestig eraill, ac yn aml mae'r cliwiau ei fod yn digwydd mor gynnil neu gudd, efallai na sylwir arnynt. Nid yw'r dangosyddion hyn yn cyfeirio'n awtomatig at briodas dan orfod, ond maent yn dangos bod rhywbeth o'i le.

Gall gwrywod a benywod ym mhob grŵp oedran sy'n wynebu priodas dan orfod fynd yn orbryderus, isel eu hysbryd, mynd i'w cragen yn emosiynol gyda hunan-dyb isel.

**Gall yr arwyddion rhybudd gynnwys:**

- Y rhieni'n cyfyngu a rheoli symudiadau'n ormodol, gan gynnwys cyfyngiadau afresymol megis cael eu cadw gartref ('cyfyngu i'r tŷ') neu eu hatal rhag cwblhau eu haddysg
- Hanes o frodyr a chwiorydd yn gadael addysg yn gynnar i briodi
- Plentyn yn siarad am wyliau teuluol sydd ar ddod, sy'n peri pryder iddo/iddi
- Plentyn yn poeni y bydd yn cael ei gymryd o addysg a'i gadw dramor

- Tystiolaeth o hunan-niweidio, triniaeth ar gyfer iselder, ymgais hunan-laddiad, arwahanrwydd cymdeithasol, anhwylderau bwyta neu gamddefnyddio sylweddau
- Unigolyn yn cael ei hebrwng bob amser, gan gynnwys i'r ysgol, coleg ac apwyntiadau meddygol
- Unigolyn yn datgelu'n uniongyrchol ei fod / bod yn poeni y bydd yn cael ei (g)orfodi i briodi.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn o ddangosyddion i gadw golwg amdanynt – bydd pob achos yn wahanol, a gall pob unigolyn sydd mewn perygl o gael ei orfodi i briodi ymateb a dangos arwyddion yn wahanol.

Mae'n bwysig bod pawb sydd â chysylltiadau â phlant, pobl ifanc ac oedolion diamddiffyn yn wyliadwrus, ac os oes pryderon am unrhyw ymddygiad sy'n groes i gymeriad, mae'n rhaid mynegi'r pryderon hyn gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion diamddiffyn rhag camdriniaeth.

***Gall mynegi eich pryderon yn uniongyrchol gyda'r teulu roi'r unigolyn mewn mwy o berygl o niwed, gan gynnwys y rhieni'n mynd â'r unigolyn o'r wlad ar unwaith.***

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi canllawiau arferion amlasiantaethol ar gyfer trin achosion o briodas dan orfod, sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth i ymarferwyr rheng flaen sydd â chyfrifoldebau i ddiogelu plant ac amddiffyn oedolion oddi wrth y cam-drin sy'n gysylltiedig â phriodas dan orfod.

Dyma wasanaethau eraill a all eich cynorthwyo neu'ch cynghori chi neu rywun yr ydych yn pryderu yn ei gylch:

- Uned Priodasau dan Orfod – 020 7008 0151 https://www.gov.uk/guidance/forced-marriage
- Halo Project Charity – 01642 683 045
- Llinell Gymorth Genedlaethol Trais Domestig – 0808 200 0247
- Refuge – 0808 2000 247
- Freedom Charity – 0845 607 0133

- Rhwydwaith Anrhydedd Llinell Gymorth i Oroeswyr – 0800 5999 247
- Runaway Helpline – 116 000
- Childline – 0800 1111
- Byw Heb Ofn – 0808 80 10 800
  gwybodaeth@llinellgymorthbywhebofn.cymru
- BAWSO – 0800 731 8147

  Bawso yn cefnogi lleiafrifoedd ethnig yr effeithir arnynt gan drais a chamfanteisio

## Trais ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod

Mae trais ar sail anrhydedd yn seiliedig ar ganfyddiadau diwylliannol o unigolion yn dwyn 'gwarth' neu 'amarch' ar unigolion, teulu neu'r gymuned ehangach. Mae priodas dan orfod neu gam-drin domestig yn fathau o drais ar sail anrhydedd.

Diffinnir camdriniaeth ar sail anrhydedd fel digwyddiad neu drosedd sy'n cynnwys trais, bygythiadau o drais, brawychiad, gorfodaeth neu gamdriniaeth (gan gynnwys camdriniaeth seicolegol, gorfforol, rywiol, ariannol neu emosiynol) sydd wedi ei gyflawni, neu a allai fod wedi'i gyflawni, er mwyn diogelu neu amddiffyn anrhydedd unigolyn, teulu a/neu gymuned ar gyfer achosion honedig neu ganfyddedig o dorri cod ymddygiad y teulu a/neu'r gymuned.

Mae cam-drin domestig yn fath o drais ar sail anrhydedd, ond y gwahaniaeth allweddol yw nifer y bobl sy'n rhan ohono a faint o gyfranogiad fu gan deulu a'r gymuned ehangach. Mae trais ar sail anrhydedd yn gysylltiedig â'r rheolaeth gyffredinol sydd gan deulu dros ymddygiad merch. Mewn achos o drais ar sail anrhydedd, efallai bydd nifer fawr o gyflawnwyr posibl, a nifer uwch hyd yn oed o bobl sy'n barod i gynllunio neu gymryd rhan mewn gweithredoedd treisgar.

Os yw unigolyn ifanc yn dioddef trais ar sail anrhydedd neu briodas dan orfod, neu'n ofni ei fod mewn perygl o'u dioddef, mae pobl y gall siarad â nhw a fydd yn gallu rhoi cymorth a chefnogaeth gyfrinachol.

Mae’n annhebygol y bydd unigolion (yn enwedig plant a phobl ifanc) yn rhoi gwybod i ffrindiau, cydnabod neu weithwyr proffesiynol eu bod naill ai mewn priodas dan orfod, neu’n dioddef trais ar sail anrhydedd.

Y mae’n bwysig felly eich bod yn ymwybodol o’r ffordd y gallai rhywun ymddwyn os ydyw mewn perygl neu eisoes mewn priodas dan orfod neu’n dioddef trais ar sail anrhydedd.

Mae dangosyddion posibl trais ar sail anrhydedd a/neu briodas dan orfod yn gallu cynnwys y canlynol:

**Addysg**

- Tynnu disgybl o’r ysgol gan rai â chyfrifoldeb rhiant.
- Tynnu unigolyn ag anabledd corfforol neu ddysgu o ganolfan ddydd.
- Myfyriwr yn cael ei atal rhag mynychu addysg bellach neu uwch.
- Triwantiaeth neu absenoldebau parhaus.
- Cais am absenoldeb estynedig neu fyfyriwr ddim yn dychwelyd o ymweliad tramor.
- Brawd neu chwaer / cefndryd / aelodau o’r teulu estynedig yn cadw llygad barcud ar y disgybl yn yr ysgol.
- Dirywiad mewn ymddygiad, diddordeb, perfformiad neu bresenoldeb, canlyniadau arholiadau gwael – yn enwedig yn achos disgybl a arferai fod yn hynod ymroddgar.
- Dirywiad mewn ymarweddiad neu ymddangosiad corfforol.

**Iechyd**

- Rhywun gyda’r claf bob tro wrth ymweld â meddyg, bydwraig a/neu glinigau.
- Hunan-niwed a/neu anhwylder bwyta.
- Ceisio cyflawni hunanladdiad.
- Iselder.
- Arwahanrwydd.
- Camddefnyddio alcohol neu gyffuriau.

- Beichiogrwydd ifanc, dieisiau neu gyson.
- Anffurfio organau cenhedlu benywod.
- Anafiadau anesboniadwy.

**Personol**

- Cyhoeddiad dyweddïad â dieithryn yn sydyn.

**Hanes teuluol**

- Brawd neu chwaer yn cael ei (g)orfodi i briodi.
- Brawd neu chwaer yn priodi'n ifanc.
- Brawd neu chwaer yn hunan-niweidio neu'n cyflawni hunanladdiad.
- Anghydfod teuluol.
- Trais a cham-drin domestig.
- Dianc o gartref.
- Cyfyngiadau afresymol (e.e. cyfyngu i'r tŷ).
- Byth yn cael gadael cartref ar ei ben ei hun.
- Cyfyngiadau ariannol (e.e. ddim yn gallu defnyddio ei arian neu gyfrif banc ei hun).

**Cysylltiad â'r heddlu** yn sgil un o'r canlynol:

- Y dioddefwr neu frawd / chwaer ar goll.
- Adroddiadau am gam-drin domestig, trais, aflonyddu neu dor-heddwch ar yr aelwyd.
- Adroddiadau am droseddau eraill fel treisio neu herwgipio.
- Aelodau o'r teulu yn riportio'r dioddefwr am droseddau honedig (e.e. camddefnyddio sylweddau, dwyn o siopau).
- Bygythiadau i ladd.
- Ceisio lladd neu niweidio.
- Ymosodiadau asid.

- Anffurfio organau cenhedlu benywod (trosedd dan y Female Genital Mutilation Act 2003).

Mwy o wybodaeth a chanllawiau

[Trais ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod | LLYW.CYMRU]

PAN DDAETH Y TALIBAN AM EI MERCHED PENDERFYNODD GULPARI ADAEL EI CHARTREF LLE BU'N BYW AM 20 MLYNEDD, A DIANC GYDA'I PHLANT YNG NGHANOL Y NOS.

"GOFYNNODD Y TALIBAN AM GAEL PRIODI EIN MERCHED. DYWEDWYD Y DYLAI O LEIAF UN FERCH GAEL EI RHOI YN WRAIG I'R TALIBAN OS OEDD MWY NAG UN FERCH MEWN CARTREF," MEDDAI GULPARI, SYDD Â DWY FERCH 13 A 15 MLWYDD OED.

"ROEDD FY NGENETHOD WEDI ARSWYDO PAN GLYWSANT HYNNY. ROEDD OFN ARNYNT A WNAETHON NHW DDIM STOPIO CRÏO TAN I NI FFOI O'R ARDAL."

NID GULPARI OEDD YR UNIG FERCH A OEDD YN DIANC ODDI WRTH DYNGED O'R FATH.

ROEDD LLAWER O FERCHED A OEDD YN RHANNU'R MAN AR GYFER TEULUOEDD WEDI EU DADLEOLI, YN BYW MEWN PEBYLL BACH CYFYNG, WEDI CAEL PROFIADAU TEBYG.

"YN EIN HARDAL NI, RHODDODD Y TALIBAN GYHOEDDIAD YN Y MOSG FEL Y GALLAI PAWB RESTRU EU MERCHED YN WIRFODDOL," MEDDAI RABIA, DYNES HŶN A OEDD YN BYW YN YR UN GWERSYLL Â GULPARI.

"DYWEDASANT Y BYDDEN NHW'N DECHRAU PRIODI EIN GENETHOD A'N MENYWOD AR ÔL EID. WNAETHOM NI DDIM AROS I GANFOD A WNAETHANT HYNNY; MI ADAWSOM YN FUAN WEDYN."

MAE ADRODDIADAU TEBYG O BRIODASAU DAN ORFOD GAN YMLADDWYR Y TALIBAN MEWN ARDALOEDD MAENT YN EU RHEOLI WEDI DOD I'R AMLWG DROS Y TRI MIS DIWETHAF. (CYFIEITHIAD.)

**Priodas wedi ei threfnu**

Nid yw priodas dan orfod yr un fath â phriodas wedi ei threfnu. Mae priodas wedi ei threfnu yn uniad priodasol sydd wedi ei drefnu gan deuluoedd y cwpl – fel arfer eu rhieni – ac mae'r ddwy ochr yn rhoi cydsyniad llawn i'r uniad.

Y mae disgwyliad bod pob ochr yn cael rhoi ei farn ac yn cael y cyfle i wrthod. Mae llawer o gyplau'n dweud eu bod yn fodlon i'w rhieni ddewis eu partner bywyd, gan wybod bod ganddynt yr hawl i wrthod os nad ydynt yn hoffi eu dewis. Amcangyfrifir bod mwy na hanner y priodasau ledled y byd wedi eu trefnu.

## Anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM)

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn cyfeirio at yr holl driniaethau sy'n ymwneud â thynnu organau cenhedlu allanol benywod yn rhannol neu'n gyfan gwbl, neu anaf arall i organau cenhedlu benywod am resymau nad ydynt yn rhai meddygol. Fe'i gelwir hefyd yn enwaediad benywod neu dorri.

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn anghyfreithlon. Mae'n fath o gam-drin plant ac yn ffurf o drais yn erbyn menywod a genethod, a dylid ei drin felly. Dylid mynd i'r afael ag ef gan ddefnyddio strwythurau, polisïau a gweithdrefnau presennol sydd wedi eu dylunio i ddiogelu plant ac oedolion diamddiffyn.

Er y cydnabyddir yn rhyngwladol ei fod yn mynd yn groes i hawliau dynol, mae dau gan miliwn, o leiaf, o enethod a menywod mewn tri deg un o wledydd dros dri chyfandir wedi dioddef anffurfio eu horganau cenhedlu.

Mae'r rhan fwyaf o enethod yn dioddef hyn **cyn iddynt fod yn bymtheng mlwydd oed**.

Mae'n anodd amcangyfrif cyffredinolrwydd anffurfio organau cenhedlu benywod yng Nghymru a Lloegr oherwydd natur gudd y drosedd.

Fodd bynnag, amcangyfrifodd astudiaeth yn 2015 fod:

- tua 60,000 o enethod 0-14 mlwydd oed wedi eu geni yng Nghymru a Lloegr i famau a oedd wedi dioddef anffurfio organau cenhedlu benywod
- tua 103,000 o fenywod 15-49 mlwydd oed a thua 24,000 o fenywod hanner cant oed a throsodd sydd wedi mudo i Gymru a Lloegr yn byw gyda chanlyniadau anffurfio organau cenhedlu benywod.

Yn ogystal, mae tua 10,000 o enethod sydd o dan bymtheng mlwydd oed, sydd wedi mudo i Gymru a Lloegr, yn debygol o fod wedi dioddef anffurfio organau cenhedlu benywod.

## Seiliau diwylliannol a rhesymau dros anffurfio organau cenhedlu benywod

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn fater cymhleth, ac mae unigolion a theuluoedd sy'n ei gefnogi'n rhoi cyfiawnhad a rhesymau amrywiol drosto. ***Fodd bynnag, mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn drosedd ac yn ffurf o gam-drin plant, ac ni ellir cyfiawnhau unrhyw eglurhad na rheswm drosto***.

Gall y cyfiawnhad a roddir fod yn seiliedig, er enghraifft, ar y gred ei fod yn dod â statws a pharch i'r ferch:

- diogelu gwyryfdod / diweirdeb geneth
- rhan o fod yn fenyw?
- rhan o'r daith o fod yn blentyn i oedolyn
- i'r eneth gael ei derbyn yn y gymuned, yn arbennig ar gyfer priodas
- cynnal "anrhydedd" y teulu
- glanhau a phuro'r eneth
- rhoi'r ymdeimlad o berthyn i'r gymuned i'r eneth a'i theulu
- cyflawni gofyniad crefyddol honedig
- parhau arferiad / traddodiad
- cynorthwyo i gadw genethod a menywod yn lân a sicrhau hylendid
- mae'n atyniadol yn esthetaidd
- gwneud geni plant yn fwy diogel i'r baban
- gwaredu'r teulu o anlwc neu ysbrydion dieflig.

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn arferiad traddodiadol sy'n aml yn cael ei gyflawni gan deulu sy'n credu ei fod yn fuddiol i eneth neu fenyw, ac er ei lles. Gall hyn gyfyngu ar gymhelliad yr eneth i fynegi pryderon neu siarad yn agored am anffurfio organau cenhedlu benywod – sy'n atgyfnerthu'r angen i bob gweithiwr proffesiynol fod yn ymwybodol o broblemau a pheryglon y weithred.

Nid yw Islam na Christnogaeth yn cymeradwyo anffurfio organau cenhedlu benywod, ond defnyddir naratifau crefyddol yn aml i'w gyfiawnhau.

Gan fod anffurfio organau cenhedlu benywod yn arferiad diwylliannol, gall rhieni ei gweld yn anodd penderfynu yn erbyn i'w merched fynd drwyddo rhag ofn i'w teuluoedd gael eu halltudio, neu rhag i'r merched fod yn anghymwys i'w priodi.

Eto, gall anffurfio organau cenhedlu benywod arwain at gymhlethdodau iechyd difrifol, a marwolaeth, hyd yn oed. Mae'r peryglon uniongyrchol yn cynnwys gwaedlif, sioc, haint, ataliad dŵr a phoen difrifol.

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn digwydd i enethod yn y DU yn ogystal â thramor. Mae'n debygol bod genethod oed ysgol sy'n dioddef y driniaeth dros y môr yn cael eu cludo dramor (yn aml i'r wlad o le daeth y teulu) ar ddechrau'r gwyliau ysgol, yn enwedig yn ystod yr haf, er mwyn iddynt fod â digon o amser i wella cyn dychwelyd i'r ysgol.

Y mae nifer o ffactorau yn ychwanegol i gymuned, gwlad wreiddiol a hanes teulu'r eneth neu'r fenyw y gallai ddangos ei bod mewn perygl o ddioddef anffurfio organau cenhedlu benywod.

## Ffactorau risg

Gallant gynnwys:

- plentyn benywaidd wedi ei geni i fenyw sydd wedi dioddef anffurfio organau cenhedlu benywod
- mae gan blentyn benywaidd chwaer neu gyfnither hŷn sydd wedi dioddef anffurfio organau cenhedlu benywod
- mae tad plentyn benywaidd yn dod o gymuned lle gwyddys bod anffurfio organau cenhedlu benywod yn digwydd
- mae'r teulu'n mynegi bod gan yr hynafgwyr ddylanwad cryf a/neu mae gan yr hynafgwyr ran yn y gwaith o fagu plant benywaidd
- mae menyw / teulu'n credu bod anffurfio organau cenhedlu benywod yn rhan annatod o hunaniaeth ddiwylliannol neu grefyddol
- nid yw'r eneth / teulu wedi llwyr ymdoddi i gymuned y DU
- mae gan y rhieni fynediad cyfyngedig at wybodaeth am anffurfio organau cenhedlu benywod, ac nid ydynt yn gwybod am effeithiau niweidiol y weithred na chyfraith y DU

- mae geneth yn dweud wrth weithiwr proffesiynol ei bod am gael 'triniaeth arbennig', neu am fynd i achlysur arbennig neu barti arbennig i 'ddod yn ddynes'
- mae geneth yn siarad am wyliau hir i'w gwlad wreiddiol neu wlad arall lle mae'r arferiad yn gyffredin
- mae rhieni'n dweud y byddant hwy neu berthynas yn mynd â'r eneth o'r wlad am gyfnod hir
- mae rhiant neu aelod o deulu geneth yn mynegi pryder bod anffurfio organau cenhedlu benywod yn mynd i ddigwydd
- nid yw teulu'n ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol (iechyd, addysg, ac ati)
- mae gofal cymdeithasol yn gwybod am y teulu eisoes mewn perthynas â materion diogelu eraill
- mae geneth yn gofyn am gymorth gan athro / athrawes neu oedolyn arall am ei bod yn ymwybodol neu'n amau ei bod mewn perygl o ddioddef anffurfio organau cenhedlu benywod
- mae geneth yn siarad am anffurfio organau cenhedlu benywod mewn sgwrs; er enghraifft, efallai y bydd yn dweud wrth blant eraill amdano – mae'n bwysig ystyried cyd-destun y sgwrs
- mae geneth o gymuned lle mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn arferol yn cael ei thynnu o addysg Bersonol, Gymdeithasol, Iechyd neu Addysg Gorfforol
- mae geneth yn absennol yn annisgwyl o'r ysgol
- mae geneth wedi bod mewn clinig teithio neu rywle cyfatebol ar gyfer brechiadau / cyffuriau gwrth-falaria.

Cofiwch: nid yw hon yn rhestr gyflawn o ffactorau risg. Efallai bod ffactorau risg ychwanegol sy'n benodol i gymunedau neilltuol. Er enghraifft, mewn rhai cymunedau mae anffurfio organau cenhedlu benywod wedi ei gysylltu'n gryf â phan fo geneth wedi cyrraedd oedran arbennig.

## Arwyddion bod anffurfio organau cenhedlu benywod eisoes wedi digwydd

Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn cadw golwg am arwyddion bod anffurfio organau cenhedlu benywod eisoes wedi digwydd er mwyn:

- i'r eneth neu'r fenyw dderbyn y gofal a'r gefnogaeth y mae eu hangen i ymdopi â'r effeithiau

- gwneud ymholiadau ynglŷn ag aelodau benywaidd eraill o'r teulu a all fod angen eu diogelu rhag niwed
- gallu ystyried ymchwiliadau troseddol i'r rhai sy'n gyfrifol, gan gynnwys y rheiny a gyflawnodd y driniaeth, i erlyn y rheiny sydd wedi torri'r gyfraith, ac i amddiffyn eraill rhag niwed.

Mae nifer o arwyddion bod geneth neu fenyw eisoes wedi dioddef anffurfio organau cenhedlu benywod:

- mae geneth neu fenyw yn gofyn am gymorth
- mae geneth neu fenyw yn dweud wrth weithiwr proffesiynol bod anffurfio organau cenhedlu benywod wedi digwydd
- mae mam / aelod o'r teulu'n datgelu bod anffurfio organau cenhedlu wedi digwydd i blentyn benywaidd
- mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwybod am y teulu / plentyn eisoes mewn perthynas â materion diogelu eraill
- mae geneth neu fenyw'n cael trafferth cerdded, eistedd neu sefyll, neu'n edrych yn anghyfforddus
- mae geneth neu fenyw yn ei chael yn anodd eistedd yn llonydd am gyfnod hir, ac nid oedd hyn yn broblem cynt
- mae geneth neu fenyw'n treulio mwy o amser nag sy'n arferol yn yr ystafell ymolchi neu'r toiled oherwydd anawsterau wrth wneud dŵr
- mae geneth yn treulio llawer o amser yn ystod y dydd heb fod yn yr ystafell ddosbarth, gyda phroblemau gyda'r bledren neu'r mislif
- mae geneth neu fenyw yn ddioddef o broblemau wrinol neu broblemau gyda'r mislif neu'r stumog
- mae geneth yn osgoi ymarfer corff neu mae angen cael ei hesgusodi o wersi addysg gorfforol heb lythyr gan feddyg teulu
- ceir absenoldebau estynedig neu fynych o'r ysgol neu goleg (gweler Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Blant sy'n Colli Addysg, 2016)
- mwy o anghenion emosiynol a seicolegol, er enghraifft iselder neu fynd i'w chragen, neu newid sylweddol mewn ymddygiad
- mae geneth neu fenyw'n gyndyn o gael ei harchwilio'n feddygol
- mae geneth neu fenyw'n gofyn am gymorth, ond heb ddweud yn fanwl beth yw'r broblem
- mae geneth yn siarad am boen neu anesmwythder rhwng ei choesau.

***Cofiwch: nid yw hon yn rhestr gyflawn o arwyddion***

Heddiw, ceir tuedd brawychus mewn rhai gwledydd, sef gwneud anffurfio organau cenhedlu benywod yn rhywbeth meddygol, lle mae'r driniaeth yn cael ei chyflawni gan ddarparwr gofal iechyd. Mae tua un o bob pedair o oroeswyr anffurfio organau cenhedlu benywod – rhyw 52 miliwn o fenywod a genethod yn fyd-eang – wedi derbyn y driniaeth gan weithwyr iechyd. Mae gwneud y driniaeth yn un feddygol yn mynd yn groes i foeseg feddygol, ac mae risg hefyd bod yr arferiad yn cael ei gyfiawnhau a rhoi'r argraff nad oes canlyniadau iechyd iddo. Efallai y bydd genethod yn siarad am weld "meddyg" mewn poblogaeth fawr megis Birmingham, Llundain neu Gaerdydd. Nid oes gwahaniaeth lle cyflawnir y driniaeth, na phwy sy'n ei chyflawni, nid yw anffurfio organau cenhedlu benywod byth yn ddiogel.

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn | LLYW.CYMRU

Anffurfio organau cenhedlu benywod: canllawiau i weithwyr proffesiynol | LLYW.CYMRU

Llinell Gymorth NSPCC mewn perthynas ag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod. Ffôn: 0800 028 3550 (ar gael 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos).

## Gweithwyr proffesiynol â chyfrifoldebau diogelu

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi canllawiau statudol amlasiantaeth sy'n darparu cyngor a chefnogaeth i weithwyr proffesiynol rheng flaen â chyfrifoldebau diogelu plant a diogelu a chefnogi oedolion rhag y gamdriniaeth sy'n gysylltiedig ag anffurfio organau cenhedlu benywod.

Anffurfio organau cenhedlu benywod: canllawiau i weithwyr proffesiynol | LLYW.CYMRU

## Gwybodaeth am ddiogelu sy'n benodol i wlad gartref

### Wcráin

Mae canlyniadau arolwg diweddar gan Gronfa Ryngwladol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Plant (UNICEF) yn dangos bod **plant Wcráin yn yfed alcohol, cymryd cyffuriau ac yn dechrau bywyd rhywiol yn gynyddol iau**. Yr oedd yr arolwg yn cwmpasu mwy na 6,500 o blant mewn 335 o ysgolion, colegau galwedigaethol a phrifysgolion mewn 124 o ddinasoedd a 103 o bentrefi.

Mae'r arolwg, a gynhaliwyd ymysg plant oedran ysgol ym mhob rhanbarth o Wcráin, yn dangos bod rhyw 25% o rai 15-16 mlwydd oed wedi yfed alcohol cyn bod yn 13 mlwydd oed. Yr oedd rhyw 40% o blant 11-12 mlwydd oed hefyd yn yfed alcohol. Mae'r oedran pan fo plant yn dechrau yfed alcohol ac ysmygu yn gostwng, ac mae'r nifer o enethod sy'n gwneud yn cynyddu.

Ymysg y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg, nododd rhyw 20% o blant ysgol dosbarth chwech a 70% o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf mewn colegau galwedigaethol eu bod wedi bod yn feddw. Yr oedd rhwng 10% a 25% o'r rhai a holwyd rhwng 13 a 16 mlwydd oed wedi cymryd cyffuriau.

Yr oedd mwy na 10% o fechgyn a bron i 5% o enethod yn nosbarth wyth wedi cymryd cyffuriau o leiaf unwaith neu ddwywaith. Yr oedd rhyw 35% o fechgyn a 15% o enethod yn eu blwyddyn gyntaf mewn coleg galwedigaethol, a 25% (bechgyn) a 15% (genethod) o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf yn y brifysgol hefyd wedi cymryd cyffuriau.

Mae cyfraddau HIV yn Wcráin yn uwch nag y mae yn y DU. Mae gan Wcráin y gyfradd uchaf ond un o ran diagnosis HIV yn rhanbarth Ewropeaidd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), fodd bynnag mae'n debygol bod tanddiagnosis. Mae tua hanner y bobl sydd â HIV yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd. Dywedodd bron i draean o blant oedran ysgol nad oeddynt yn gwybod sut mae HIV yn cael ei drosglwyddo.

Yr oedd mwy na 10% o'r rheiny a holwyd rhwng 13 a 14 mlwydd oed eisoes wedi cael profiad rhywiol. Ymysg myfyrwyr ysgolion galwedigaethol rhwng 15 a 16 mlwydd oed, yr oedd y ffigwr hwn tua 45%. Yn eu mysg, nid oedd 20% o'r rhai 15-16 mlwydd oed a 25% o'r rhai 13-14 mlwydd oed wedi defnyddio condom pan gawsant gyfathrach

rywiol ddiwethaf, ond yr oedd bron i draean wedi yfed alcohol neu wedi cymryd cyffuriau.

### Brechiadau

Bydd llawer o bobl o Wcráin yn agored i glefydau y gellir eu hatal â brechiadau, ac mewn mwy o berygl o'u cael. Mae gan y boblogaeth gyfraddau imiwneiddio isel. Mae'r ffactorau sy'n cyfrannu'n cynnwys diffyg argaeledd a drwgdybiaeth am frechiadau a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Yn Wcráin mae'r frech goch yn bryder gan fod y nifer sydd wedi eu brechu yn is na'r trothwy i atal achosion o'r frech goch.

Mae'r DU bellach yn 'byw gyda COVID-19', fodd bynnag mae Wcráin yn mynd drwy 'bumed don' o COVID-19. Traean yn unig o'r boblogaeth yn Wcráin sydd wedi derbyn brechiad yn erbyn COVID-19.

Oherwydd y nifer isel sydd wedi eu brechu, y mae pobl yn Wcráin, yn arbennig plant, yn dal i fod yn agored iawn i bolio. Mae'r brechlynnau a gymerir drwy'r geg a'r rhai sy'n cael eu chwistrellu ar gael yn Wcráin. Canfuwyd achosion o boliofeirws yn Wcráin ym mis Hydref 2021. Yr oedd ymgyrch i frechu plant rhwng 6 mis a 6 blwydd oed nad oedd wedi cael dosau polio arferol i fod i ddechrau yn Wcráin ychydig cyn i'r rhyfel ddechrau.

### Twbercwlosis

Mae gan Wcráin un o'r cyfraddau uchaf yn y byd o dwbercwlosis ag ymwrthedd i'r prif gyffuriau (MDR-TB), a'r bedwaredd gyfradd uchaf o achosion o dwbercwlosis ymysg 53 o wledydd rhanbarth Ewropeaidd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).

### Anableddau corfforol

Bydd llawer o blant o Wcráin wedi bod yng nghanol y gwrthdaro, ac mae'n bosibl eu bod hwy neu aelodau o'u teulu wedi eu hanafu yn y gwrthdaro.

### Problemau iechyd meddwl a thrawma

Gweler pennod 11, Trawma.

## Affganistan

## Anableddau corfforol

Ym mis Ebrill 2020, nododd yr Human Rights Watch (HRW) fod gan Affganistan un o'r poblogaethau mwyaf fesul pen yn y byd o bobl ag anableddau. Mae o leiaf un ym mhob pump o aelwydydd Affganistan yn cynnwys oedolyn neu blentyn sydd ag anabledd corfforol, synhwyraidd, deallusol neu seicogymdeithasol difrifol.

### Iechyd meddwl

Mae pedwar degawd o wrthdaro di-dor, trychinebau naturiol mynych, tlodi endemig, ac effeithiau pandemig COVID-19 hefyd erbyn hyn, wedi gwneud niwed aruthrol i iechyd meddwl a gwytnwch personol pobl Affganistan. Er nad oes astudiaeth gynhwysfawr wedi gallu mesur maint effaith y cysylltiad mynych â digwyddiadau trawmatig, amcangyfrifir yn geidwadol bod mwy na hanner y boblogaeth yn dioddef o ryw fath o iselder, gorbryder neu straen ôl-drawmatig oherwydd yr amgylchiadau hyn yn Affganistan. Ar yr un pryd, mae gofal iechyd meddwl neu gefnogaeth seicogymdeithasol yn parhau i fod y tu hwnt i gyrraedd llawer, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

### Brechiadau

Er bod gwelliannau wedi bod yn y system gofal iechyd cyhoeddus ar ôl 2001, yr oedd yn dal i fod yn wynebu heriau o ganlyniad i isadeiledd wedi ei ddifrodi, diffyg darparwyr gofal iechyd wedi eu hyfforddi, a chyfleusterau gofal iechyd sydd heb ddigon o adnoddau. Gwnaed hyn yn fwy cymhleth gan y diffyg diogelwch a thlodi hollbresennol. Nodwyd hyn mewn adroddiad ym mis Awst 2020 gan yr European Asylum Support Office (EASO), a oedd yn cyfeirio at nifer o ffynonellau allanol.

Ym mis Ebrill 2020, nododd yr Human Rights Watch (HRW) nad yw ysbytai a chlinigau yn hygyrch iawn y tu allan i ardaloedd trefol, ac mae mynediad gwael at wasanaethau iechyd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig yn Affganistan, yn un o brif achosion anableddau.

O ganlyniad i gwymp systemau gofal iechyd y wlad, nid yw llawer o blant wedi cael mynediad at unrhyw gefnogaeth feddygol, ac mae hynny'n cynnwys diffyg imiwneiddio, felly byddant mewn perygl o gael clefydau sy'n gyffredin mewn plentyndod.

## Hong Kong

## Iechyd

Nid yw gofal iechyd yn rhad ac am ddim yn Hong Kong, a gall biliau meddygol fod yn uchel. Bydd llawer o newydd-ddyfodiaid wedi cael eu brechu yn erbyn clefydau plentyndod. Fodd bynnag, rhaid ystyried efallai nad yw rhai disgyblion wedi cael mynediad at ofal iechyd os nad oedd eu rhieni'n gallu fforddio polisi yswiriant.

## Anniddigrwydd Hong Kong am gymunedau a grwpiau Tsieineaidd yn y DU

O dan y gyfraith diogelwch cenedlaethol newydd, y gosb uchaf am "wrthgiliad", "tanseiliad" a "chydgynllwynio â lluoedd tramor" yw carchar am oes. Ond diffinnir y troseddau hyn mor eang, gallant yn hawdd fod yn droseddau 'dal popeth', yn cael eu defnyddio mewn erlyniadau â chymhelliant gwleidyddol, ac sydd â chosbau llym.

Mae'r llywodraeth ganolog a llywodraeth Hong Kong wedi bod ers peth amser yn cyhuddo unigolion a sefydliadau cymdeithas sifil o gael eu llywio yn eu gweithgareddau gan "luoedd tramor", megis trefnu a bod yn bresennol mewn protestiadau heddychlon, derbyn rhoddion a beirniadu'r llywodraeth.

Mae unrhyw un sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn bellach mewn perygl o gael ei gyhuddo o "gydgynllwynio â lluoedd tramor" a "throseddau" newydd eraill.

*O dan y cyfreithiau, awdurdodir Pwyllgor newydd ar gyfer Diogelu Diogelwch Cenedlaethol er mwyn gweithredu'n hollol gyfrinachol a chael ei gysgodi oddi wrth heriau cyfreithiol. Rhoddir y dasg i'w swyddogion o graffu ar ysgolion, corfforaethau, sefydliadau anllywodraethol, cwmnïau newyddion ac estroniaid sy'n byw yn Hong Kong a thramor.* (Cyfieithiad.)

*New York Times, Mehefin 2020*

Yn ystafelloedd dosbarth Hong Kong mae bellach yn aneglur beth ellir ei addysgu neu ei drafod yn gyfreithlon. Mae'r Biwro Addysg wedi gorchymyn i ysgolion gael gwared â llyfrau a deunyddiau addysgu a allai dorri'r gyfraith. Gall gweinyddwyr alw'r heddlu os oes rhywun yn sarhau

anthem Tsieina, ac mae'n rhaid ei chanu mewn ysgolion ar wyliau penodol.

Felly mae'n bosibl bod llawer o newydd-ddyfodiaid o Hong Kong yn anfodlon a phryderus iawn ynglŷn â'r gymuned Tsieineaidd sy'n byw yn yr ardal oherwydd yr ofn bod gwybodaeth ac adroddiadau'n mynd yn ôl at luoedd y Wladwriaeth Tsieineaidd, gan roi eu teulu a'u ffrindiau sydd yn dal i fyw a gweithio yn Hong Kong mewn perygl o gael eu cosbi.

**GORMES TSIEINA AR HONG KONG YN YMESTYN I YSTAFELLOEDD DOSBARTH Y DDINAS**

MAE SARAH YN PARATOI I YMFUDO O HONG KONG, MAN EI GENI A'I CHARTREF, I'R DEYRNAS UNEDIG AM EI BOD YN PRYDERU AM ADDYSG EI MAB 8 MLWYDD OED.

"RWYF EISIAU IDDO DYFU MEWN AMGYLCHEDD GYDA DIGON O RYDDID I WNEUD YR HYN MAE EISIAU EI WNEUD, HEB GAEL EI GYFYNGU GAN RYW FYGYTHIAD ANWELEDIG," MEDDAI SARAH, A OFYNNODD I CNN DDEFNYDDIO FFUGENW AR EI CHYFER RHAG OFN IDDI GAEL EI THARGEDU GAN YR AWDURDODAU.

YM MIS MEHEFIN, GOSODODD BEIJING GYFRAITH DIOGELWCH CENEDLAETHOL AR HONG KONG SY'N GWAHARDD GWRTHGILIAD, TANSEILIAD, GWEITHGAREDDAU TERFYSGOL A CHYDGYNLLWYNIO Â PHWERAU TRAMOR. PASIWYD Y GYFRAITH ER MWYN SATHRU AR Y MUDIAD PRO-DDEMOCRATIAETH A ANSEFYDLOGODD Y CANOLBWYNT ARIANNOL Y LLYNEDD, OND YR OEDD EI GYRHAEDDIAD YN MYND YMHELL Y TU HWNT I BLISMONA PROTESTIADAU I WNEUD SGYRSIAU, SAFBWYNTIAU GWLEIDYDDOL, CYHOEDDIADAU PENODOL, A NEGESEUON AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL, HYD YN OED, YN DROSEDDOL.

YN YSTAFELLOEDD DOSBARTH HONG KONG MAE BELLACH YN ANEGLUR BETH ELLIR EI ADDYSGU NEU EI DRAFOD YN GYFREITHLON.

MAE'R BIWRO ADDYSG WEDI GORCHYMYN I YSGOLION GAEL GWARED Â LLYFRAU A DEUNYDDIAU ADDYSGU A ALLAI DORRI'R GYFRAITH. GALL GWEINYDDWYR ALW'R HEDDLU OS OES RHYWUN YN SARHAU ANTHEM TSIEINA, AC MAE'N RHAID EI CHANU MEWN YSGOLION AR WYLIAU PENODOL.

NID YW SARAH YN YMFUDO OHERWYDD EI MAB YN UNIG: MAE HI'N ATHRAWES YN HONG KONG. CYHOEDDODD YR ENGLISH SCHOOLS FOUNDATION, SEFYDLIAD ADDYSG RHYNGWLADOL, GANLLAWIAU NEWYDD AR GYFER ATHRAWON YM MIS MEDI, A OEDD YN DOD I'R CASGLIAD BOD YR YSTAFELL DDOSBARTH "YN FAN ANNIOGEL" AR GYFER TRAFODAETH NEU DDADL. (CYFIEITHIAD.)

HONG KONG'S NEW RULES HAVE CREATED CONFUSION IN THE CLASSROOM. SOME PARENTS ARE PULLING THEIR CHILDREN OUT – CNN

Cyhoeddodd yr English Schools Foundation, sefydliad addysg rhyngwladol, ganllawiau newydd ar gyfer athrawon ym mis Medi, a oedd yn dod i'r casgliad bod yr ystafell ddosbarth "yn fan anniogel" ar gyfer trafodaeth neu ddadl.

Gall y ddeddfwriaeth newydd hon wneud teuluoedd o Hong Kong yn amheus o'r gymuned Tsieineaidd a digwyddiadau cymunedol. Yn yr ysgol efallai y byddant yn anghyfforddus â gadael i'w plant ddathlu gwyliau a diwylliant Tsieineaidd megis Blwyddyn Newydd Tsieineaidd, er enghraifft.

Efallai y bydd teuluoedd eisiau osgoi unrhyw gysylltiad â'r gymuned Tsieineaidd oherwydd mae'n bosibl eu bod yn ofni am ddiogelwch unrhyw deulu, ffrindiau, gweithwyr a busnesau y maent wedi eu gadael yn Hong Kong wrth iddynt ffoi.




# Pennod 11 – Straen, Trawma, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

O ganlyniad i ryfel, gwrthdaro a diffyg adnoddau, bu cynnydd enfawr yn y 10-15 mlynedd ddiwethaf yn y nifer o bobl sy'n gwneud siwrneiau sy'n newid eu bywyd – siwrneiau peryglus, yn aml – i Ewrop i chwilio am loches.

Yn dilyn yr argyfwng diweddar yn Affganistan, mae Llywodraeth y DU wedi adsefydlu 8,000 o bobl ac wedi ymrwymo i adsefydlu 25,000 o wladolion o Affganistan dros y blynyddoedd nesaf. Mae hyn yn ychwanegol i 125,000 o achosion lloches sydd 'ar y gweill', yn cynnwys 2,773 o geisiadau ar gyfer plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches (UASC) o 2020 yn unig.

Mae'r rhyfel yn Wcráin wedi gorfodi o leiaf 2.8 miliwn o blant i ffoi o'r wlad.

***Mae plentyn o Wcráin wedi dod yn ffoadur bron bob eiliad o'r rhyfel.***

Mae dau draean o'r 7.5 miliwn o blant yn Wcráin wedi eu gorfodi o'u cartrefi ers i'r rhyfel ddwysáu ar 24 Chwefror 2022.

Mae'n rhaid i sefydliadau, ymarferwyr ac addysgwyr sy'n cefnogi plant a phobl ifanc, mewn unrhyw swydd, gynyddu ymwybyddiaeth o drawma mewn ffoaduriaid a cheiswyr lloches ifanc. Mae'n rhaid i ni gydweithio i wneud y mwyaf o berthnasoedd ac adnoddau i wella'r gefnogaeth a gynigir i bob plentyn neu berson ifanc wrth iddynt gyrraedd ac yn y blynyddoedd sy'n dilyn.

Mae trawma yn cyfeirio at y ffordd y mae rhai digwyddiadau gofidus mor eithafol neu ddwys fel eu bod yn gorlethu gallu unigolyn i ymdopi, gan arwain at effaith negyddol parhaol.

Mae'r mathau o ddigwyddiadau sy'n achosi trawma i bobl fel arfer y tu hwnt i'w rheolaeth. Gall hyn gynnwys camdriniaeth neu ymosodiadau rhywiol neu gorfforol, ymosodiadau terfysgol, rhyfel, trychinebau naturiol, gwrthdrawiadau traffig, damweiniau difrifol, tân, herwgipio, marwolaeth ffrind agos neu aelod o'r teulu (yn enwedig os yw'n sydyn ac annisgwyl), a thriniaethau meddygol sy'n peri ofn neu sy'n boenus.

Gall hiliaeth a ffurfiau eraill o gasineb a/neu wahaniaethu yn erbyn grwpiau hefyd achosi ymateb trawmatig. Gall profiadau o'r fath achosi trawma i blant a phobl ifanc os yw'r digwyddiadau'n digwydd yn uniongyrchol iddynt hwy, neu os ydynt yn gweld neu'n dod i wybod am y pethau hyn yn digwydd i rywun arall.

Nid yw'r profiad neu fod yn dyst i ddigwyddiadau trawmatig yn egluro'r effaith ar yr unigolyn, oherwydd bydd llawer o ffactorau sy'n dylanwadu ar y canlyniadau syth a'r canlyniadau hirdymor.

Gall profi neu weld digwyddiadau trawmatig yn ystod plentyndod gael canlyniadau arbennig o niweidiol, ac mae'n gysylltiedig ag addasiadau yn strwythur a gweithrediad yr ymennydd ac effaith ar ddatblygiad gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol person ifanc. Yr ydym yn gwybod bod trawma yn ystod plentyndod yn gysylltiedig â risg uwch o broblemau iechyd meddwl yn ddiweddarach, anawsterau gyda pherthnasoedd personol a chymdeithasol, yn ogystal â risg uwch o brofiadau anodd newydd, gan gynnwys camdriniaeth fynych.

Ar ôl profi neu weld digwyddiad eithriadol o ofidus, bydd llawer o blant a phobl ifanc i ddechrau yn profi lefelau uchel o ofid ac yn ei gweld yn anodd parhau â'u bywyd arferol. Bydd y rhan fwyaf ohonynt yn gwella ohonynt eu hunain yn yr wythnosau a'r misoedd sy'n dilyn, ond bydd eraill yn datblygu anawsterau hirhoedlog.

YN ASESIAD DIWEDDARAF ACHUB Y PLANT O ANGHENION TEULUOEDD YN WCRÁIN, DYWEDODD 85% EU BOD ANGEN CEFNOGAETH SEICOGYMDEITHASOL. DATGELODD TEULUOEDD HEFYD HANESION TORCALONNUS AM BLANT YN METHU CYSGU, YN OFNUS DRWY'R ADEG, YN CRÏO A HEB FOD EISIAU GADAEL Y LLOCHESAU BOMIAU.

Gall lleiafrif o blant a phobl ifanc brofi ychydig iawn o ymateb i ddechrau, hyd yn oed i ddigwyddiadau eithafol. Ond, dros gyfnod hirach o amser, gall rhai o'r plant a phobl ifanc hynny – yr oedd yn ymddangos nad oeddynt wedi eu heffeithio – ddatblygu ystod o anawsterau.

Ceir isod grynodeb byr o rai profiadau trawmatig y gall plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid ac yn ceisio lloches eu profi, a rhestr ddethol o adnoddau a all fod o gymorth wrth ddarparu cefnogaeth.

**Profiadau trawmatig plant a phobl ifanc mudol**



Mae llawer o fudwyr, yn arbennig plant, wedi profi trawma sy'n gysylltiedig â rhyfel neu erledigaeth a all effeithio ar eu hiechyd meddwl ac iechyd corfforol amser maith wedi i'r digwyddiadau fod. Gall y digwyddiadau trawmatig hyn ddigwydd tra mae'r ffoaduriaid yn eu gwlad wreiddiol, wrth iddynt gael eu dadleoli o'r wlad honno, neu yn ystod y broses adsefydlu yma yn y DU.

Tra maent yn eu gwlad wreiddiol mae'n bosibl bod plant mudol wedi profi digwyddiadau trawmatig neu galedi sy'n cynnwys:

- Trais (fel tystion, dioddefwyr, a/neu gyflawnwyr)
- Rhyfel
- Diffyg bwyd, dŵr a lloches
- Anafiadau corfforol, heintiau a chlefydau
- Artaith
- Llafur gorfodol
- Ymosodiad rhywiol
- Diffyg gofal meddygol

- Colli anwyliaid
- Tarfu ar addysg, neu ddiffyg mynediad at addysg.

Wrth gael eu dadleoli, mae plant mudol yn aml yn wynebu llawer o'r un mathau o ddigwyddiadau trawmatig neu galedi yr oeddynt yn eu hwynebu yn eu gwlad wreiddiol, yn ogystal â phrofiadau newydd megis:

- Byw mewn gwersylloedd i ffoaduriaid
- Cael eu gwahanu oddi wrth deulu
- Colli cymuned
- Ansicrwydd am y dyfodol
- Aflonyddwch gan awdurdodau lleol
- Teithio pellterau maith ar droed
- Cael eu cadw mewn canolfannau cadw.

Activity Pack – The Walk (walkwithamal.org)

The Walk Education Teaching Notes .pdf (dropbox.com)

Child refugee stories – The Separated Child Foundation

**TRAWMA + DYSGU AIL IAITH = ADDYSGEG AMGEN**

Dychmygwch eich bod mewn ystafell arholiad yn disgwyl i sefyll eich arholiad TGAU Saesneg, a phan ydych yn troi'r papur, y mae i gyd mewn Almaeneg!

Mae'r gwaed yn rasio drwy eich gwythiennau, curiad eich calon yn dyrnu rhwng eich clustiau, rydych yn anadlu'n gyflym, ac yn teimlo'ch dillad yn glynu wrth eich croen. Mae eich corff wedi cynhyrfu i'r eithaf. Ydych chi'n cofio'r term "ymladd / ffoi / rhewi"? Rydych mewn "modd goroesi".

Dyma enghraifft o seicoffisioleg trawma.

Os gallwch uniaethu â'r sefyllfa hon, neu un debyg, gallwch ddeall pa mor anodd ydyw i weithredu'n normal pan fyddwch wedi cynhyrfu fel hyn. Mae'n ddealladwy bod y cyflwr hwn o orbryder yn gallu digwydd yn ystod profiad trawmatig neu anodd iawn, ond efallai na fyddech yn

ymwybodol y gall hefyd barhau am gyfnodau hir ar ôl y digwyddiad trawmatig.


Meddyliwch am y disgyblion mudol sydd newydd gyrraedd eich dosbarth yn arddangos symptomau'n gysylltiedig â phrofiadau ôl-drawmatig megis trais, dadleoliad neu golled, a fydd yn effeithio ar y ffordd y maent yn dysgu. Fel athro / athrawes, efallai y gwelwch duedd o ymddygiad problemus neu ddiffyg cynnydd gan ddisgyblion mewn amgylchedd dysgu traddodiadol.

Beth sydd a wnelo hyn ag iaith? Mae'n bosibl nad yw'r canolfannau dysgu iaith arferol yn yr ymennydd yn prosesu gwybodaeth yn iawn. Nid yw'r unigolyn yn prosesu gwybodaeth wybyddol fel yr oedd yn arfer gwneud cyn y profiad ôl-drawmatig. Efallai ei fod yn dal i fod yn y cyflwr meddwl "ymladd / ffoi / rhewi", ac efallai nad yw'n deall cyfarwyddiadau llafar neu wybodaeth wybyddol arall. Efallai y bydd yn cael anawsterau gyda'r cof, cadw a phrosesu gwybodaeth.


Yn ffodus mae tystiolaeth, sy'n seiliedig ar wyddoniaeth, y gall fod o gymorth i ganfod a gweithredu ar y symptomau straen hyn. Gellir cefnogi Addysgu a Dysgu fel bod disgyblion yn teimlo bod ganddynt reolaeth a'r grym i leihau straen ac, felly, eu cynorthwyo i ddysgu iaith fel bod ganddynt obaith am lwyddiant. Dyma ychydig o awgrymiadau defnyddiol a gwybodaeth a all fod o gymorth.

## Yr hyn mae gwyddoniaeth yn ei ddweud wrthym

Ar ôl profiad trawmatig mae newidiadau cemegol a ffisegol yn digwydd yn yr ymennydd sy'n arwain at golli neu rwystro gweithrediadau arferol yr ymennydd. Mae'r ardaloedd yn yr ymennydd yr effeithir arnynt gan drawma yn rhan o'r system limbig, sy'n gyfrifol am bethau fel: emosiynau, atgofion, rheoli ymddygiad ymosodol, poen, trefnu ymddygiad echddygol a chydlynu dysgu arferion yn seiliedig ar reolau.




Mae'r llabedau blaen a pharwydol yn gweithredu ar lefel uwch. Dyma lle'r ydym yn gwneud synnwyr o wybodaeth, ei threfnu, a'i defnyddio. Nid yw'r ardaloedd hyn yn gweithredu'n dda mewn unigolyn sydd â symptomau ôl-drawmatig. Ar y llaw arall, mae ardaloedd is, mwy cyntefig yr ymennydd yn gweithio mwy nag arfer yn y rheiny sydd â symptomau ôl-drawmatig. Mae'r unigolion hyn fel arfer yn sensitif iawn ac yn ymateb yn well i wybodaeth synhwyraidd fel ciw gweledol nag i wybodaeth lafar i ddeall eu hamgylchedd.




## Profiad Synhwyraidd

Mae niwronau yn yr ymennydd yn tanio'n barhaus, a gellir gweld hyn mewn ymddygiad fel ymddygiad ymosodol (o bosibl o ganlyniad i gamddehongli geiriau neu arwyddion), neu unigolyn yn mynd i'w gragen (o ganlyniad i broblemau ymddiried). Mae'r ddwy enghraifft o ymddygiad yn dangos angen yr unigolyn i reoli ei amgylchedd i deimlo'n ddiogel. Mae problemau gyda dysgu, perthnasoedd a pherfformiad, y gellir eu gweld fel y cof ac emosiynau, yn cael eu newid gan y newidiadau ffisegol a chemegol hyn yn yr ymennydd. (Gall bygythiad ymddangosiadol arwain at ymateb yn ymosodol neu'n ffyrnig, diffyg cyfranogiad, dibyniaeth ar yr athro / athrawes, neu absenoldeb.)

## Niwroplastigedd

Y newyddion da yw y gellir gwrthdroi effeithiau trawma, a gall unigolion berfformio'n llwyddiannus ymhen amser. Mae ymchwil heddiw'n dangos i ni bod yr ymennydd yn gallu aildrefnu ei hun drwy wneud cysylltiadau

newydd a thrwy dwf yr ymennydd. Gan roi strategaethau ar waith i greu rhwydweithiau niwral newydd, e.e. gan ddefnyddio deunyddiau synhwyraidd yn lle cyfarwyddiadau llafar neu ysgrifenedig, gallwn gyfathrebu'r un wybodaeth ond mewn ffordd wahanol.

## Problemau addysgu posibl gyda mudwyr sy'n profi Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD):

Mae anhwylder straen wedi trawma yn anhwylder gorbryder mae rhai pobl yn ei ddatblygu ar ôl gweld neu fyw drwy ddigwyddiad sydd wedi achosi neu fygwth niwed difrifol neu farwolaeth.

Gellir galw'r holl ddigwyddiadau mae plant mudol wedi eu profi, sy'n gysylltiedig â rhyfel neu erledigaeth, yn "ddigwyddiadau trawmatig". **Y mae'n bwysig nodi bod plant yn wydn iawn ac yn aml gallant ymdopi â phrofiadau a digwyddiadau anodd mewn ffyrdd iach a chynhyrchiol.** Efallai na fydd plant fel hyn yn arddangos unrhyw symptomau, ac ni fyddant angen i ddarparwyr gwasanaethau ymyrryd. Fodd bynnag, i rai plant, mae cysylltiad â digwyddiadau trawmatig yn cael effaith ddofn a hirhoedlog ar y ffordd maent yn gweithredu o ddydd i ddydd.

Gall cysylltiad â digwyddiadau trawmatig achosi'r symptomau cyffredinol canlynol mewn plant o bob oed:

| | |
|---|---|
| • Poen bol, cur pen<br>• Crïo llawer<br>• Ofn neu orbryder<br>• Tristwch neu dymer flin<br>• Meddyliau parhaus am y digwyddiad trawmatig<br>• Osgoi meddwl neu siarad am unrhyw beth sy'n eu hatgoffa o'r digwyddiad trawmatig<br>• Ymddwyn fel bod y digwyddiad yn digwydd ar | • Poenau yn y corff y mae'n ymddangos nad oes achos corfforol iddynt<br>• Anobaith<br>• Hunllefau<br>• Trafferth dal sylw<br>• Trafferth mynd i gysgu neu gysgu gormod<br>• Torri calon pan fo pethau'n digwydd sy'n eu hatgoffa o'r digwyddiad trawmatig |

| | |
|---|---|
| hyn o bryd (yn hytrach na rhywbeth sydd wedi digwydd yn y gorffennol)<br>• Trafferth wrth reoli ymddygiad neu emosiynau | • Diffyg awydd i chwarae gydag eraill neu gymryd rhan mewn gweithgareddau yr oeddynt yn arfer eu mwynhau |

**Effeithiau sy'n benodol i oedran**

Gall effaith cysylltiad â digwyddiadau trawmatig ar blant fod yn wahanol yn dibynnu ar oedran y plentyn a'r cam yn ei ddatblygiad. Mae rhai arwyddion o ofid o ganlyniad i gysylltiad â digwyddiadau trawmatig yn benodol i gam datblygiadol y plentyn. Er enghraifft:

| **Plant cyn oed ysgol** | **Plant ysgolion cynradd** | **Ysgolion uwchradd a cholegau** |
|---|---|---|
| • Gwlychu'r gwely<br>• Sugno bawd<br>• Ymddwyn yn iau na'u hoed<br>• Trafferth eu gwahanu oddi wrth eu rhieni<br>• Strancio<br>• Ymddygiad ymosodol fel taro, cicio, taflu pethau,  neu frathu<br>• Ddim yn chwarae gyda phlant eraill o'r un oed | • Newidiadau yn eu hymddygiad, fel ymddygiad ymosodol, dicter, tymer flin, mynd i'w cragen a thristwch<br>• Trafferth yn yr ysgol<br>• Trafferth gyda chyfoedion<br>• Ofn cael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni<br>• Ofn bod rhywbeth drwg am ddigwydd | • Ymdeimlad o gyfrifoldeb neu euogrwydd am y pethau drwg sydd wedi digwydd<br>• Teimladau o warth neu gywilydd<br>• Teimladau o ddiymadferthedd<br>• Newidiadau yn y ffordd maent yn meddwl am y byd<br>• Colli ffydd (grefyddol) |

| | | |
|---|---|---|
| • Actio'r digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r cysylltiad â thrawma yn fynych | | • Problemau gyda pherthnasoedd yn cynnwys cyfoedion, teulu ac athrawon<br>• Problemau ymddygiad |

Mae dysgu iaith yn gofyn am reolaeth, cysylltiad ac ystyr, felly mae'n debygol bod y gallu cyfyngedig i ddysgu iaith newydd yn drysu disgyblion sydd ag anhwylder straen wedi trawma neu straen adsefydlu.

**Arweiniad i athrawon am straen a thrawma**

Mae'n bosibl bod plant sy'n dioddef o straen neu drawma angen cymorth proffesiynol gan weithwyr cymwys. Gall athrawon gynorthwyo i ganfod arwyddion posibl fel y gellir cyfeirio plant at strwythurau cefnogaeth digonol. Fodd bynnag, ni ddylent fyth ymyrryd mewn achosion lle mai therapyddion cymwys yn unig ddylai wneud.

**Felly sut allwch chi helpu?**

Bydd disgyblion yn perfformio'n well mewn amgylchedd hamddenol, dirwystr, ysgogol a dibryder.

**DYLID:**

**Darparu Strwythur a Sefydlogrwydd yn yr Ystafell Ddosbarth**

- Darparu amlinelliad o'r tasgau am y diwrnod ar y bwrdd fel bod y disgyblion yn gwybod beth sy'n dod nesaf
- Gwneud proses y diwrnod yn rhagweladwy drwy greu trefn arferol
- Dechrau, gorffen a rhoi egwyl ar yr amser a drefnwyd, sydd wedi ei arddangos yn rhywle gweladwy
- Defnyddio amserydd gweledol fel awrwydr ar gyfer gweithgareddau neu waith grŵp
- Cadw ystafell ddosbarth lân a threfnus.

## Meithrin Ymddiriedaeth a Datblygu Hyder

- Gadael y drws yn gilagored a chael gwared ag unrhyw rwystrau neu orchuddion oddi ar ffenestri neu ddrysau
- Rhoi gwybod i'r disgyblion lle mae'r toiledau, allanfeydd argyfwng, ystafell fwyta a'r gampfa.
- Arddangos a modelu sut mae amser cinio'n gweithio yn yr ysgol
- Cydnabod a chanmol disgyblion drwy godi bawd, gwenu, defnyddio sticeri, gwobrau, tystysgrifau, curo dwylo, ac ati
- Nodi unrhyw hanes blaenorol a all achosi gofid (seinwyr, clychau, arogleuon, gwrthrychau, gweithio gydag unigolion o'r rhyw arall, ac ati, sydd yn yr ystafell ddosbarth)
- Bod yn hyblyg
- Creu ymdeimlad o berthyn a phwyslais ar gymuned y dosbarth.

## Nodau Academaidd a Disgwyliadau Eraill

- Defnyddio pethau gweledol megis calendrau neu linellau amser i ddangos cynnydd neu ddyddiadau pwysig
- Darparu disgwyliadau academaidd clir gan ddefnyddio siartiau neu ddelweddau
- Dylai'r disgybl allu mesur cynnydd drwy ddefnyddio sticeri, stampiau, marcio ar siartiau perfformiad neu linellau amser
- Ymgorffori nodau hirdymor a byrdymor mewn cynlluniau gwersi i greu ymdeimlad o gyflawniad ac ysgogiad
- Dylid rhoi sylw i reolau'r dosbarth ac ymddygiad priodol ar y diwrnod cyntaf.

## Amgylchedd Cyfannol sy'n Canolbwyntio ar y Dysgwr

- Darparu amrywiaeth o weithgareddau megis gwaith unigol a gwaith grŵp
- Defnyddio cynnwys a deunyddiau go iawn sy'n adlewyrchu anghenion gwirioneddol y disgyblion, megis: arwyddion, cwponau, ffurflenni, tocynnau, papurau newydd, nofelau neu eiriau caneuon

- Gofyn i ddisgyblion beth maent eisiau ei ddysgu neu wybod, a gofyn iddynt ddod â'u deunyddiau go iawn eu hunain fel eich bod yn gweld beth sydd ganddynt yn eu hamgylchedd hwy
- Gofyn i ddisgyblion pa bynciau poblogaidd sy'n cael eu trafod yn eu cylchoedd cymdeithasol hwy (e.e. teulu, cyflogaeth, siopa, cludiant).

**Canolbwyntio ar y Presennol**

Cynorthwyo disgyblion i ganolbwyntio ar y sefyllfa bresennol i aros â'u traed ar y ddaear yn hytrach na bod wedi ymgolli yn eu meddyliau am y gorffennol neu'r dyfodol.

**Anghenion Dechreuwyr**

- Ailadrodd
- Adolygu ym mhob dosbarth
- Cysondeb ac atgyfnerthu
- Cardiau fflach / delweddau / gweithgareddau diriaethol fel gemau bwrdd neu weithgareddau cyfrifiadurol.

**Disgyblion Uwch**

- 'Strategaethau cyn darllen' fel taflu syniadau neu ddod â'u deunydd eu hunain yn ymwneud â phwnc, megis llyfrau, lluniau, cerddoriaeth
- Canolbwyntio ar siarad a sgiliau sgwrsio.

  Brainstem-Calmer-Activities.pdf




Nod yr adnoddau canlynol yw cefnogi plant a phobl ifanc mudol sydd wedi profi trawma.

- Beacon House | Talking to children about war and conflict (PDF) – Arweiniad i oedolion sy'n cefnogi plentyn neu rywun yn ei arddegau ynglŷn â sut i roi ateb i'w hymatebion a chwestiynau.
- British Red Cross | Afghanistan – Gwybodaeth a chefnogaeth i bobl o Affganistan sy'n ymgartrefu yn y DU. Adnoddau wedi eu

cyfieithu i Dari a Pashto. Yn cynnwys gwybodaeth am wasanaeth Olrhain Teulu y Groes Goch, fideos am fywyd yn y DU, a gwybodaeth ynglŷn â sut i gysylltu ag ARAP, y Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid.

- British Red Cross | Help for Ukrainian nationals – Gwybodaeth a chefnogaeth i bobl o Wcráin, yn cynnwys fisa i deuluoedd sy'n ymfudo a'r cynllun i deuluoedd o Wcráin. Lawrlwythwch 'Advice for Ukrainians arriving in the UK' a 'How to talk to children about war' mewn Wcreineg.
- Coram Children's Legal Centre | Immigration, asylum and nationality – Cyngor gwaith achos cyfreithiol, cymorth a chynrychiolaeth gyfreithiol yn ogystal ag ystod o adnoddau am ddim a gwybodaeth ar-lein am faterion sy'n effeithio ar blant sy'n destun rheolaeth fewnfudo.
- Doing What Matters in Times of Stress (who.int) – Canllaw rheoli straen am ddim ar gyfer ymdopi ag adfyd. Nod y ganllaw yw darparu sgiliau ymarferol i bobl i'w cynorthwyo i ymdopi â straen. Mae wedi ei chyfieithu i 19 o ieithoedd, gan gynnwys Arabeg, Tsieineeg, Dari, Ffarsi a Ffrangeg.
- European Society for Traumatic Stress Studies | Helpful resources for mental help professionals and persons affected – Rhestr o adnoddau, a dolenni hefyd.
- GOV.UK | Welcome: a guide for arrivals to the UK from Afghanistan on the locally employed staff relocation scheme – Canllaw i deuluoedd sy'n cyrraedd o dan y cynllun ex gratia (EGS) a'r Polisi Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid (ARAP). Mae cyfieithiadau Dari a Pashto ar gael.
- Mental Health and Psychosocial Support network | Caring for Children through Conflict and Displacement – Adnodd wedi ei gyfieithu i Wcreineg, Rwseg, Pwyleg ac Almaeneg. Mae adnoddau perthnasol ychwanegol wedi eu cyfieithu i nifer o ieithoedd yn yr adran adnoddau.
- National Children's Bureau | Supporting young people leaving care with insecure immigration status (PDF) – Papur ymchwil a gwerthuso ar bedwar prosiect a gyflawnwyd gan bum sefydliad yn

gweithio gyda phobl ifanc sy'n gadael gofal gyda statws mewnfudo ansicr. Mae'r adroddiad yn edrych hefyd ar effaith y pandemig ar allu pobl ifanc i gael gafael ar gefnogaeth a gallu'r prosiectau i gyflenwi.

- Phoenix Australia | Helping a friend or family member after a disaster (PDF) – Taflen wybodaeth gyda chyngor syml ac ymarferol i'r rheiny sy'n rhoi cefnogaeth.
- Psychological Society of Ireland | Psychological First Aid for Refugee Care: Helpful Do's and Don'ts (PDF) – Adnodd seicoleg ymateb cyflym i'r cyhoedd i gynorthwyo gyda'r ymateb i ffoaduriaid o Wcráin yn cyrraedd Iwerddon. Mae'n cynnwys gwybodaeth i blant a rhai sydd yn eu glasoed.
- Refugee Council | Children and young people – Mae'r Refugee Council yn cynnig cefnogaeth i'r holl blant digwmni sy'n ffoaduriaid, sy'n cyrraedd Lloegr ar eu pen eu hunain. Mae'n darparu lloches a chefnogaeth les, yn cynorthwyo plant sydd wedi cael eu masnachu a'r rheiny mae amheuaeth am eu hoed, yn ogystal â darparu therapi iechyd meddwl. Cynigir ystod o adnoddau am ddim ar gyfer ymarferwyr a ffoaduriaid ar y wefan.
- Scottish Government | Age assessment: practice guidance – Canllaw sydd wedi ei llywio gan drawma ar gyfer asesiad oed. Mae Atodiad 4: Trauma-informed Age Assessments yn ymdrin â chymhwyso'r fframwaith i anghenion plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.
- University of East London | Resources on refugee & asylum-seeking children – Adnoddau a chanllawiau iechyd meddwl am gefnogi plant sy'n ceisio lloches ac yn ffoaduriaid.
- University of Manchester | Information for adults looking after a child or children through conflict and displacement – Taflen dwy dudalen wedi ei datblygu'n seiliedig ar brofiad rhieni o Syria sydd wedi eu dadleoli, wedi ei chyfieithu i Wcreineg, Rwseg, Saesneg, Almaeneg a Phwyleg.

Hyfforddiant

- Children & War Foundation | Teaching Recovery Techniques training – Defnyddir yr hyfforddiant hwn mewn nifer o ffyrdd i gefnogi ceiswyr lloches sy’n blant ac yn eu glasoed. Mae’r technegau’n seiliedig ar Therapi Ymddygiad Gwybyddol (CBT), ac mae tystiolaeth eu bod yn lleddfu anhwylder straen wedi trawma. Mae’r hyfforddiant wedi ei ddylunio ar gyfer gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn ymwneud ag iechyd meddwl, gan gynnwys athrawon, ac mae’n cynnwys modiwl ‘hyfforddi’r hyfforddwr’.

**Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod**

Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod mewn poblogaethau plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches (phwwhocc.co.uk)

Caiff straen cronig neu drawmatig a brofir yn gynnar mewn bywyd eu galw gyda’i gilydd yn Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs). Mae cyfoeth o ymchwil wedi tynnu sylw at yr effaith y gall ACEs eu cael ar iechyd ac ymddygiad drwy gydol bywyd.

Erbyn i blentyn mudol gyrraedd gwlad letyol, mae’n debygol y bydd wedi profi llu o ACEs oherwydd ei resymau dros fudo ac ar ei daith i wledydd lletyol, sy’n aml yn gallu bod yn hirfaith ac yn llawn perygl.

Gall ACEs eraill fod wedi digwydd o fewn yr aelwyd cyn mudo, neu o ganlyniad i fudo a gall fod yn barhaus. Gall ACEs dilynol ddigwydd ar ôl mudo, wrth i blant aros am benderfyniadau lloches, mynd i mewn i’r system ofal, neu ddechrau ymgartrefu mewn cymuned newydd.

Fodd bynnag, fel y gwêl yr adroddiad hwn, mae plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches yn profi ystod llawer ehangach o brofiadau niweidiol yn eu bywydau, drwy'r heriau o fyw mewn gwledydd y mae rhyfela neu ormes yn effeithio arnynt, ar y teithiau anodd ar draws ffiniau i geisio noddfa, ac ar ôl mudo. Gall y profiadau hyn gael effaith barhaol ar unigolion, teuluoedd ac ar eu gallu i integreiddio i gymdeithasau newydd.




Mae'n amlwg, fodd bynnag, fod gan blant mudol risg uchel o brofi ACEs lluosog. Bydd gan wahanol ddiwylliannau normau amrywiol o gwmpas yr hyn sy'n gyfystyr ag adfyd. At hynny, gellir deall cysyniadau megis cam-drin ac esgeuluso plant mewn gwahanol ffyrdd, neu efallai na fyddant yn cael eu cydnabod o fewn rhai diwylliannau.

Gall cam-drin corfforol ddigwydd mewn cyd-destunau y tu allan i leoliadau cartref, megis mewn ysgolion, lleoliadau rhyfela neu fel rhan o deithiau mudo.

Efallai nad yw carcharu rhiant yn adlewyrchu ymddygiad troseddol y rhieni, ond gall fod yn arwydd o wahaniaethau mewn barn wleidyddol, grŵp ethnig neu gymdeithasol, neu gred grefyddol.

Yn yr un modd, gall gwahanu rhieni gael ei brofi'n wahanol, lle mewn llawer o achosion mae teuluoedd yn cael eu gwahanu trwy orfodaeth, anhrefn wrth ffoi neu'r awydd am ddiogelwch, nid gwrthdaro priodasol.

Felly, gallai'r amrywiaeth o ACEs sy'n cael eu profi gan blant mudol fod yn ehangach, ond gallai'r ffordd yr ydym yn deall ACEs ymysg y boblogaeth hon fod yn wahanol hefyd.



Bydd hyn yn cynnwys ACEs o fewn y teulu, lle gwyddom fod y straen a'r trawma sy'n gysylltiedig â rhyfela, mudo ac adsefydlu yn gallu effeithio ar weithrediad y teulu a'r risg o esgeulustod a cham-drin, gwrthdaro priodasol a thrais domestig.

Fodd bynnag, bydd hefyd yn cynnwys ACEs y gellir eu profi o fewn y cyfleusterau, y lleoliadau gofal, y cymunedau a'r ysgolion y mae plant yn ymgysylltu â nhw, e.e. gwahaniaethu, bwlio neu brofi / bod yn dyst i drais.

Felly mae ymyriadau i atal, nodi a mynd i'r afael â'r risg o ACEs parhaus a newydd yn bwysig. Gallai hyn gynnwys gweithio mewn ysgolion a chymunedau i annog integreiddio a derbyn gwahanol ddiwylliannau, a gweithio gyda theuluoedd i feithrin perthnasoedd cadarnhaol, rheoli straen, megis gwahanu oddi wrth rieni, brodyr a chwiorydd, neiniau a theidiau, anifeiliaid anwes, llety newydd, llai o arian, ac ati, a chynyddu eu gallu i gefnogi eu plant.

Â chaledi economaidd a gwahanol gyfraddau o fabwysiadu diwylliant yn ddau fater pwysig i deuluoedd, mae cyfleoedd i helpu rhieni i ddysgu

iaith y wlad letyol a chanfod cyflogaeth hefyd yn debygol o gael dylanwad ataliol ar ACEs dilynol o fewn y teulu.

Gall ACEs effeithio’n eang ar iechyd meddwl, ymddygiad, dysgu a chyflawniad academaidd, ac iechyd corfforol tymor byr plant sy’n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches. O ystyried y cysylltiadau cryf rhwng ACEs ac iechyd meddwl yn y boblogaeth hon, mae’r risg gynyddol o oblygiadau iechyd tymor hwy (e.e. cyflyrau iechyd cronig a gofnodir mewn poblogaethau cyffredinol) hefyd yn debygol. Mae angen ymchwil bellach mewn poblogaethau plant mudol i archwilio’r cysylltiad hwn.

Mae sicrhau bod y cymorth angenrheidiol ar gael i blant a theuluoedd, boed hynny’n fynediad at wasanaethau iechyd ac iechyd meddwl neu systemau o fewn yr ysgol i helpu gyda dysgu academaidd, yn hanfodol.

Fodd bynnag, ni fydd pawb yn dioddef effeithiau negyddol ACEs, ac mae nifer o ffactorau risg allweddol ar gyfer canlyniadau gwaeth.

Er enghraifft:

- Mae plant dan oed ar eu pen eu hunain (o’u cymharu ag eraill), a phlant sy’n profi ACEs lluosog, yn arbennig o agored i ddatblygu canlyniadau iechyd meddwl gwael.
- Yn bwysig, mae’r amodau y mae teuluoedd ffoaduriaid yn byw ynddynt ar ôl mudo yn dylanwadu ar a brofir canlyniadau negyddol yn dilyn ACEs.
- Mae’r broses o geisio lloches ei hun yn achosi llawer o straen ac mae’n effeithio ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl rhieni a phlant.
- Ymddengys fod sefydlogrwydd yn bwysig, a dylid manteisio ar y cyfleoedd i hybu twf rhwydweithiau cymorth ar gyfer rhieni a phlant.

Mae cynlluniau i gynyddu mynediad i wasanaethau a chefnogi ysgolion yng Nghymru o ran cynyddu cyrhaeddiad addysgol yn rhan o Gynllun Gweithredu Cymru, Cenedl Noddfa.

Fodd bynnag, gall cydbwyso anghenion yr unigolyn a’r teulu, a gofynion y diwylliant brodorol a lletyol, fod yn her wirioneddol. Mae llawer o fylchau yn ein dealltwriaeth o’r hyn y mae gwytnwch yn ei olygu a sut y gellir ei ddatblygu.

Un bwlch pwysig yw sut i sicrhau bod y ffactorau gwytnwch y mae plant a'u teuluoedd yn dod gyda hwy i wledydd lletyol yn cael eu cynnal dros amser, ac nad ydynt yn cael eu gadael i waethygu yn wyneb yr heriau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y maent yn eu hwynebu ar ôl iddynt adsefydlu.

Gellir canfod bylchau pellach yn ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng ffactorau gwytnwch cyn mewnfudo (e.e. ffactorau plentyndod cynnar) a ffactorau gwytnwch a ddatblygwyd o ganlyniad i brofiadau wrth deithio ac adsefydlu, a'n gwybodaeth am bwysigrwydd mathau gwahanol o brofiadau (e.e. math o wrthdaro, rheswm dros ddadleoli, amlygiad uniongyrchol i frwydo) ar ganlyniadau iechyd a gwytnwch.

Er bod cyfleoedd i ddylanwadu ar yr adfyd a brofir gan blant mudol cyn iddynt fynd i wledydd lletyol yn gyfyngedig, mae llawer y gallwn ei wneud i helpu i atal ACEs pellach wrth iddynt gyrraedd y gwledydd lletyol a lliniaru'r effaith negyddol y gall ACEs eu cael ar iechyd, lles, addysg a chanlyniadau ehangach yn y byrdymor a'r hirdymor.

Mae ymchwil yn amlygu'r angen am wasanaethau wedi'u llywio gan TrACE (Trawma ac ACE) ar hyd y llwybr cymorth i deuluoedd a phlant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches. Mae cynlluniau i sicrhau bod mudwyr (gan gynnwys plant) yn cael cymorth wrth iddynt integreiddio yng Nghymru wedi eu nodi yng Nghynllun Gweithredu Cymru, Cenedl Noddfa.

Er mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw mudo, mae llawer y mae Cymru yn ei wneud / yn gallu ei wneud i helpu teuluoedd a phlant sy'n ffoaduriaid i allu creu gwreiddiau newydd, llunio cyfeillgarwch cefnogol ac adeiladu bywydau iddyn nhw'u hunain mewn cymunedau newydd.

[Cynllun ffoaduriaid a cheiswyr lloches (cenedl noddfa) | LLYW.CYMRU]

# Astudiaeth Achos 1: Stori AS



- **Gwybodaeth gefndir**

Mae AS yn 13 mlwydd oed ac yn dod o Rwmania.
Yn Rwmania bu'n derbyn addysg llawn amser am 6 blynedd.
Daeth i fyw i Gymru ar 29.06.2022.
Mae'n byw gyda'i thad a'i nain.
Mae ei mam yn dal i fod yn Rwmania, ond nid ydynt yn cadw cysylltiad.
Mae hyn yn bwnc sensitif i AS, gan ei bod yn aml yn dweud am ei mam: "Doedd hi ddim f'eisiau i, felly mi adawodd, ac roedd rhaid i Nain fy magu i".

Mae AS wedi dangos gwytnwch wrth ddysgu ac addasu i ddiwylliant newydd er gwaethaf ei sefyllfa deuluol anodd.

- **Y siwrnai i Gymru: pryd, sut a pham y daeth i Gymru**

Yr oedd ei thad wedi bod yn gweithio yma fel gyrrwr am bum mlynedd pan ymunodd AS a'i nain gydag ef. Daethant mewn awyren.

Yr oedd eu taith wedi ei gynllunio ers tair blynedd ond cafodd ei ohirio oherwydd y pandemig.

Y rheswm dros ymfudo oedd am eu bod yn byw mewn ardal wledig yn Rwmania, ac nid oedd ei thad yn gallu canfod swydd. Ar ôl sicrhau cartref ac incwm rheolaidd, yr oedd ei thad yn gallu gwneud cais am statws preswylydd sefydlog ar gyfer AS a'i nain i ymuno ag ef.

Cyrhaeddodd AS yn ardal Sir Fynwy ym mis Gorffennaf, a dechreuodd yn yr ysgol ym mis Medi.

Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd hon, mae'r cynnydd ardderchog yn Saesneg wedi rhoi dechrau da iddi ar gyfer ei harholiadau TGAU a chwblhau gwaith cwrs, a fydd yn dechrau y flwyddyn academaidd nesaf.

- **Profiadau addysgol / llwyddiannau yn yr ysgol**

Yr oedd AS yn mynychu ysgol mewn ardal wledig yn ne Rwmania. Oherwydd diffyg ystafelloedd dosbarth addas, bu'n rhaid i AS fynd i'r ysgol yn y prynhawn dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a oedd yn anodd gan y byddai'r gwersi'n dechrau am 1pm ac yn parhau tan 6 neu 7pm. Byddai'r dysgwyr iau'n mynychu'r ysgol yn y boreau.

Nid oedd yn cael gwersi Saesneg cyson oherwydd prinder athrawon. Yr oedd AS yn cael canlyniadau ardderchog ym mhob pwnc ac yn treulio oriau gartref yn gwneud yr holl waith cartref a oedd ei angen. Byddai AS yn treulio penwythnosau a'r gwyliau gyda'i ffrindiau.

Mae ganddi atgofion melys o'i bywyd yn Rwmania, ac mae'n colli ei ffrindiau a'i hen fywyd. Yr oedd yn gyndyn i ymfudo i wlad wahanol, fodd bynnag yr oedd yn deall y rhesymau ariannol dros benderfyniad ei thad a'i nain.

- **Yr heriau: beth wnaeth helpu, a beth a wnaeth dod i Gymru yn brofiad cadarnhaol**

Un o'r heriau cyntaf i AS oedd yr iaith, yn amlwg. Ychydig o Saesneg a allai ei ddeall a'i siarad. Canfu fod treulio amser gyda phartner ei thad a'i phlant, sy'n Gymry, o gymorth. Dibynnai AS lawer ar Google Translate wrth gyfathrebu gyda hwy, gan nad yw'n teimlo'n hyderus eto i siarad yn uniongyrchol yn Saesneg. Mae ofn gwneud camgymeriadau; mae'r meddylfryd "ni chaniateir i ddisgyblion ardderchog wneud camgymeriadau" yn fyw iawn yn ei chof, ond mae dysgu'n araf ei bod yn iawn gwneud camgymeriadau, a'u bod yn ei helpu i wella.

Pan gyrhaeddodd yng Nghymru, canfu AS brofiadau diwylliannol ac allgyrsiol cadarnhaol yr oedd yn gallu eu profi wrth fyw yng Nghymru: mae wrth ei bodd yn cael gwersi nofio ar ôl ysgol; mae wedi bod i ddigwyddiadau lleol yn ddiweddar gyda'i theulu Cymreig, ac mae wedi bod yng nghyngerdd Ed Sheeran hefyd. Mae hyn yn wahanol i'w bywyd yn Rwmania. Er bod AS wrth ei bodd yn byw yng nghefn gwlad, yr oedd yn teimlo wedi ei hynysu oddi wrth gymdeithas ar brydiau.

O ran addysg, mae AS yn mwynhau gwisgo gwisg ysgol i fynd i'r ysgol. (Mae hyn yn wahanol i Rwmania hefyd.)
Yr oedd yn nerfus iawn wrth ddechrau yn yr ysgol oherwydd yr oedd wedi clywed am lawer o fwlio'n digwydd mewn ysgolion yn y DU. Gobeithiai na fyddai hynny'n digwydd iddi, ond mae'n hapus bellach gan fod ganddi ffrindiau yn yr ysgol, ac maent yn ei gwarchod.

Mae ei pherthynas â'r athrawon yn dda hefyd, ac mae AS yn hyderus y gall ofyn am gymorth ar unrhyw adeg yn yr ysgol. Mae'n mwynhau'r swm isel o waith cartref o'i gymharu ag ysgolion Rwmania. Mae ganddi, felly, amser ychwanegol i wrando ar gerddoriaeth a mwynhau ei hun gyda'i theulu.

Ar y cyfan, mae AS yn aml yn dweud ei bod yn hapusach yn yr ysgol yng Nghymru, er nad oedd yn credu y byddai ar ddechrau ei siwrnai. Mae'n ddiolchgar am y gefnogaeth a gafodd gan ei theulu, ei hysgol newydd, a gennyf i fel ei hathro GEMS Rwmaneg, gan ei bod wedi lleddfu'r broses o addasu i system ysgol wahanol.

Mae AS yn mwynhau'r ffaith y gall astudio ieithoedd tramor, gan ei bod yn mwynhau Sbaeneg a Ffrangeg. Mae'r gweld Cerddoriaeth a Drama'n ddiddorol iawn hefyd. Ei hoff bwnc yw Mathemateg, ac mae ei gradd ddisgwyliedig eisoes yn B ym mlwyddyn 8.

Mae AS yn falch iawn o'i chynnydd gyda chaffael iaith Saesneg yn y flwyddyn academaidd hon. Mae gwytnwch AS drwy gydol y broses o ymdoddi ac addasu i wlad, iaith a system addysgol wahanol wedi bod yn eithriadol. Mae bellach yn cymryd rhan

mewn sgyrsiau gyda'i ffrindiau ac weithiau'n ateb yn y dosbarth hefyd. Mae ei hymdrechion wedi eu canmol a'u hannog gan ei hathrawon i gyd, sydd bob amser yn rhoi adborth cadarnhaol iddi, ac mae hyn yn gwneud iddi fod eisiau gwneud yn well, hyd yn oed.

- **Dyheadau a gobeithion ar gyfer y dyfodol**

Mae AS yn ei gweld ei hun yn cwblhau yn yr ysgol a chael swydd yma yng Nghymru. Ei breuddwyd yw mynd i'r brifysgol a datblygu gyrfa a fyddai'n ei galluogi i gael gwell safon bywyd na'r hyn sydd gan aelodau ei theulu ar hyn o bryd.

Mae AS yn dangos y gall mudo fod yn beth cadarnhaol, ac mae'n newid bywyd yr unigolyn yma am byth.

## Astudiaeth Achos 2: Stori MB



- **Gwybodaeth gefndir**

Dechreuodd MB mewn ysgol uwchradd yng Nghasnewydd ym mlwyddyn 9.

Mae'n wreiddiol o Rwmania, a chwblhaodd chwe blynedd o ysgol yno.

- **Yr heriau: beth wnaeth helpu, a beth a wnaeth dod i Gymru yn brofiad cadarnhaol**

Ychydig iawn o Saesneg a ddysgodd MB yn yr ysgol yn Rwmania, felly pan gyrhaeddodd yr oedd hyn yn un o'r heriau mwyaf oedd yn eu hwynebu.

Ar ôl cyrraedd y DU derbyniodd gefnogaeth ddwyieithog drwy flynyddoedd 9, 10 ac 11.

Yn ôl MB, bu'r gefnogaeth hon yn fodd o wneud goresgyn y rhwystr iaith yn llawer haws. Bu rhai o'i athrawon hefyd yn creu adnoddau dwyieithog

ac yn cyfieithu geiriau allweddol i iaith ei gartref, a oedd yn ddefnyddiol iawn iddo.

- **Profiadau addysgol / llwyddiannau yn yr ysgol**

Yr oedd MB yn mwynhau'r gwersi Saesneg a Chemeg pan ddechreuodd yn yr ysgol yng Nghymru.

Erbyn yr haf pan oedd ym mlwyddyn 11 yr oedd wedi symud ymlaen i Gam C LlC, a bu'n llwyddiannus iawn yn ei arholiadau TGAU, gan ennill 6 gradd C, yn cynnwys iaith Saesneg a dwy radd deilyngdod BTEC.

Mae MB ar hyn o bryd yn astudio yn y chweched dosbarth. Dewisodd ddilyn cwrs Safon Uwch Troseddeg, Lefel 3 BTEC TGCh a Busnes, ac mae'n mwynhau'r pynciau hyn yn fawr.

Ar wahân i'r rhwystr iaith, yr oedd yn credu mai un o'r heriau mwyaf pan fyddai'n cyrraedd y DU fyddai gwneud ffrindiau newydd, ond yr oedd yn falch iawn o ganfod bod trigolion Cymru yn arbennig o ddymunol a chyfeillgar. Gwnaeth MB ffrindiau newydd yn syth bin yn yr ysgol – ar y diwrnod cyntaf – ac mae wedi bod yn agos i'r ffrindiau hyn ers hynny.

- **Dyheadau a gobeithion ar gyfer y dyfodol**

Mae MB eisiau aros yn y DU a mynd i'r brifysgol i astudio busnes. Ei ddyheadau ar gyfer y dyfodol yw dechrau ei gwmni ei hun a dod yn llwyddiannus iawn.

> ***"Rwy'n meddwl bod dod i Gymru wedi bod yn syniad gwych."***

# Astudiaeth Achos 3: PA



- **Gwybodaeth gefndir**

Cyrhaeddodd PA yng Nghymru ym mis Tachwedd 2021. Mae'n 15 mlwydd oed. Iraniad ydyw o ran ethnigrwydd, ac mae'n siarad Cwrdeg (Sorani).

Mae PA yn unig blentyn a oedd yn byw gyda'i rieni mewn tŷ bach iawn mewn pentref bach, ac yr oedd yn gweithio fel ffermwr gyda'i dad. Ni fu'n mynd i'r ysgol erioed cyn dod i'r DU – yr oedd yn aros adref i gynorthwyo ei dad ar y fferm.

Yr oedd ganddo ffrindiau o'r un oed ag ef yn y pentref, ac ychydig o deulu gerllaw.

- **Y siwrnai i Gymru: pryd, sut a pham y daeth i Gymru**

Dywedwyd wrtho gan aelod hŷn o'r teulu i adael ei wlad gartref ar fyrder am fod ei fywyd mewn perygl.

Aeth o Iran i Dwrci, a gymerodd 3 diwrnod, yna teithiodd mewn lori i Ffrainc, a gymerodd 9 niwrnod, yna aeth mewn cwch i'r DU a lori arall i Gymru.

- **Heriau**

Cafodd ei roi mewn gofal maeth i ddechrau, fodd bynnag chwalodd y berthynas gyda'r rhieni maeth ac mae ar hyn o bryd yn disgwyl am leoliad newydd.

- **Profiadau addysgol / llwyddiannau yn yr ysgol**

Pan gyrhaeddodd yr oedd gan PA sgiliau sgwrsio sylfaenol mewn Saesneg, ac ychydig o sgiliau darllen sylfaenol, a ddysgodd gan y gyrwyr lori a fu'n ei gludo.

Yr oedd yr iaith Saesneg yn dipyn o her i PA pan gyrhaeddodd y DU. Fodd bynnag, mae wedi gweithio'n galed yn yr ysgol, mae wedi bod yn gwylio'r teledu yn Saesneg, ac mae wedi bod yn ymarfer gyda'i ffrindiau.

Mae PA yn eithriadol o wydn ac yn mwynhau mynychu'r ysgol. Mae'n ddeallus iawn ac mae wedi parhau i ddysgu Saesneg yn yr ysgol, a thrwy wylio fideos ar YouTube.

- **Beth fu o gymorth a beth wnaeth dod i Gymru yn siwrnai gadarnhaol?**

Mae PA yn llawn cymhelliant ac yn uchelgeisiol, ac mae'n fodlon cael ei leoli dros dro mewn canolfan byw'n annibynnol.

Mae'n hapus gyda'i drefniadau byw presennol, ac yn mwynhau cymdeithasu gyda'r plant eraill yno. Mae wedi bod yn ceisio cysylltu â'i ffrindiau a'i deulu gartref, ond yn anffodus nid oes cysylltiad gwe yn y pentref, felly nid oedd hyn yn bosibl.

Er bod siwrnai PA wedi bod yn hir a heriol, mae'r gefnogaeth gan ei weithiwr cymdeithasol, yr ysgol a staff GEMS wedi ei alluogi i ymgartrefu'n dda a theimlo'n ddiogel yng Nghymru.

- **Dyheadau a gobeithion ar gyfer y dyfodol**

Byddai PA yn hoffi ailsefyll blwyddyn 10 ac astudio ar gyfer TGAU Saesneg, Gwyddoniaeth, Mathemateg, Addysg Gorfforol, a Bwyd a Maeth, o bosibl. Ar ôl cwblhau ei TGAU byddai'n hoffi parhau i'r Chweched Dosbarth. Mae PA eisiau mynd i goleg a dod yn drydanwr yn y dyfodol. Hoffai weithio ac aros yng Nghymru.

***"Rwyf wir yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth gan bawb."***

## Astudiaeth Achos 4: AK




- **Gwybodaeth gefndir**

Mae AK yn blentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches, ac mae'n 13 mlwydd oed. Affganiad ydyw o ran ethnigrwydd, ac mae'n siarad Pashto.

Nid yw AK wedi bod mewn cysylltiad o gwbl gyda'i deulu ers gadael Affganistan. Mae ganddo fam, tri brawd a

chwaer, ond cafodd ei dad, a oedd yn swyddog heddlu, ei ladd. Mae ganddo ewythr ar ochr ei fam yn Affganistan, ac ef a drefnodd iddo ddod i'r DU.

Daeth i'r DU ym mis Medi 2021. Ar ôl cael ei gyfweld gan yr heddlu, fe'i rhoddwyd mewn gwesty gan y Swyddfa Gartref am dri diwrnod cyn cael ei roi mewn gofal maeth yng Nghaint.

Daeth AK i Gymru fel rhan o'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol yn nechrau mis Hydref 2021.

- **Y siwrnai i Gymru: pryd, sut a pham y daeth i Gymru**

Mae AK yn dweud ei fod wedi teithio'n anghyfreithlon i'r DU fel y trefnwyd gan ei ewythr, am resymau diogelwch. Teithiodd drwy Iran, Twrci, Serbia, yr Eidal a Ffrainc. Teithiodd mewn ceir, ar droed, ac mewn cwch, mewn amgylchiadau gwael a chyfyng iawn yn aml. Cafodd ei arwain gan asiantiaid ac yr oedd yn teithio drwy'r nos.

Wynebodd AK lawer o heriau yn ystod ei daith i ddiogelwch. Yn Nhwrci yr oedd yn aml yn cysgu yn yr awyr agored, ac nid oedd ganddo lawer o fwyd na diod. Yn anffodus, gwelodd bobl yn marw o'i gwmpas oherwydd y tywydd poeth a diffyg dŵr.

Cafodd brofiad erchyll ym Mwlgaria, pan dynnwyd ei ddillad a'i esgidiau oddi amdano, fe'i trawyd, a gyrrwyd cŵn ar ei ôl gan yr heddlu. Cafodd brofiad gwael yng Ngroeg hefyd.

- **Profiadau addysgol / llwyddiannau yn yr ysgol**

Bu AK yn mynychu'r ysgol yn Affganistan, ond nid oedd yn hoffi'r gwersi yno am fod gormod o siarad, ac roedd ymddygiad yn wael. Bu AK yn mynd i'r ysgol yn Affganistan hyd at ddosbarth 5. Yr oedd yr ystafell ddosbarth yn brysur iawn ac roedd llawer o blant eraill yn y dosbarth – hyd at 30 yn aml.

Mae Saesneg AK yn gwella, ac mae ei hyder wrth siarad yn tyfu bob wythnos. Mae'n hoffi coginio ei fwyd ei hun, ac wrth ei fodd gyda cherddoriaeth a dawns ddiwylliannol. Mae AK yn mynychu'r ysgol yng Nghymru, ac ym mlwyddyn 9 ar hyn o bryd. Ei hoff bynciau yw'r gwersi Saesneg fel Iaith Ychwanegol, Mathemateg, Gwyddoniaeth a Chelf.

***"Mae'r holl staff yn fy helpu i fod yn hapus yn yr ysgol, ac yn siarad â fi os oes gennyf broblem."***

- **Yr heriau: beth wnaeth helpu, a beth a wnaeth dod i Gymru yn brofiad cadarnhaol**

I ddechrau, pan ddaeth AK i Gymru o Gaint, fe'i rhoddwyd gyda gofalwr maeth newydd a oedd â chi mawr – roedd hyn yn bryder mawr i AK. Cafodd ei symud yn ddiweddarach at ofalwr maeth arall.

Mae rhai problemau wedi bod yn ddiweddar yn y trydydd lleoliad maeth o ganlyniad i anawsterau gyda'r rhwystr iaith a gwahaniaethau diwylliannol.

Yn ddiweddar mae AK wedi mynd i fyw i gartref newydd sydd yn gartref gofal. Nid yw'n hapus yno o gwbl gan ei fod eisiau aros yng Nghasnewydd a mynd i'r un ysgol. Ar hyn o bryd mae'n teithio dros awr bob ffordd i'r ysgol, ac nid yw'n gwybod pryd y bydd yn gallu mynd i fyw i leoliad yng Nghasnewydd.

Mae dygymod gyda marwolaeth ei dad a cholli byw gyda'i deulu yn rhai o'r heriau eraill mae AK yn eu hwynebu, yn ogystal â gorfod dysgu iaith ac arferion newydd.

Mae'n rhaid iddo hefyd fyw gyda thrawma'r siwrnai beryglus iawn i'r DU, sydd yn parhau i effeithio arno.

Mae wedi newid lleoliadau dair gwaith ers cyrraedd y DU, ac nid oes yr un ohonynt gyda gofalwyr sy'n Fwslimiaid. Teimla wedi ei ynysu'n ddiwylliannol ac yn drist am nad yw gyda'i deulu, er ei fod yn ddiogel yma.

Mae AK yn ddewr ac yn wydn iawn.

***"Rwyf wedi bod mor annibynnol ar fy siwrneiau, ond mae'n rhaid i mi addasu a derbyn bod rhywun yn 'gofalu amdanaf i', a derbyn cynhesrwydd."***

Mae AK yn crybwyll ei fod wedi cael llawer o gymorth gan wahanol bobl ers cyrraedd Cymru. Mae ganddo feddwl mawr o DT, sy'n gweithio i Barnardo's, ac mae wedi bod i siarad gydag AK ynglŷn â sut mae'n teimlo. Mae DT yn ceisio cynorthwyo AK i ganfod ei deulu yn y DU ac yn Affganistan. Dywed AK hefyd pa mor hapus ydoedd i gael cefnogaeth yn yr ysgol gan y staff a chan staff dwyieithog.

- **Dyheadau a gobeithion ar gyfer y dyfodol**

Yn y dyfodol, gobeithia AK gwblhau yn yr ysgol a chael gyrfa dda.

Mae eisiau mynd i goleg i astudio peirianneg.

## Astudiaeth Achos 5: Datblygu MEAS Sir Gâr i ddiwallu anghenion newydd-ddyfodiaid Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) a Chymraeg fel Iaith Ychwanegol (CIY)

- **Cefndir y datblygiadau**

Yn Sir Gâr yr ydym wedi canfod bod pwysau sylweddol ar leoedd mewn ysgolion mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Mae llawer o'r teuluoedd sy'n derbyn pobl yn byw mewn cymunedau gwledig lle mae'r dewisiadau ar gyfer lleoedd mewn ysgolion yn gyfyngedig.

Yr ydym yn gweithio'n galed i hyrwyddo ysgolion cyfrwng Cymraeg a manteision bod yn ddwyieithog gyda'n teuluoedd newydd a'r rhai sy'n eu derbyn. Fodd bynnag, yr ydym yn gweld bod teuluoedd yn dewis cyfrwng Saesneg am eu bod wedi bod yn dysgu Saesneg fel iaith dramor yn Wcráin ac yn gweld bod parhau â hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd iddynt o ran cyflogaeth yn y dyfodol.

Mae gan lawer o'r ysgolion y gwneir cais amdanynt ychydig iawn o brofiad, neu ddim profiad diweddar, o ddiwallu anghenion dysgwyr SIY/CIY, ac felly maent angen mwy o fewnbwn ar gyfer ein gwasanaeth.

Yr ydym ar hyn o bryd yn recriwtio mwy o staff i ateb y galw.

- **Dull colegol**

Er bod ein gwasanaethau dan bwysau ar hyn o bryd, rhennir y baich drwy'r adrannau, gydag Addysg yn gweithio'n agos â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Cyllid a Chyflogaeth.

Mae ein cydweithwyr yn yr adran Dderbyn yn gweithredu fel 'ceidwad' gwybodaeth yn ymwneud â'n newydd-ddyfodiaid, ac yn hysbysu Gweithwyr Allweddol, Ysgolion, MEAS a Diogelu ar yr un pryd dros Teams. Mae'r arbenigedd â systemau ar-lein a enillwyd o raid yn ystod y pandemig yn hynod werthfawr o ran ymateb wedi ei gydlynu.

Cafodd rhestr chwarae Hwb yn amlinellu gweithdrefnau, strategaethau ac adnoddau derbyn eu rhannu gyda phenaethiaid, ac mae ein Sianel MEAS ar gyfer Ysgolion ar Teams yn adnodd defnyddiol ar gyfer rhannu gwybodaeth am y cyrsiau sydd ar gael, syniadau ac adnoddau.

Mewn blynyddoedd blaenorol, fel gyda theuluoedd o Syria, yr ydym wedi gweithio'n agos gydag ysgolion ac asiantaethau allanol i arwain y broses o gynefino – o gynorthwyo ysgolion i baratoi ar gyfer newydd-ddyfodiad, i ymweliad cychwynnol, i gynorthwyo disgyblion i ymgartrefu. Nid yw hyn wedi bod yn bosibl i'r un graddau o ganlyniad i'r nifer o newydd-ddyfodiaid a'n capasiti ni. Fodd bynnag, yr ydym wedi rhannu Rhestr Wirio Gynefino gydag ysgolion fel canllaw gyffredinol.

- **Y dull presennol**

**<u>Swyddog Datblygu Athrawon Saesneg fel Iaith Ychwanegol / Cymraeg fel Iaith Ychwanegol (ers mis Ionawr 2022)</u>**

Wedi cyfnod o ansicrwydd o ran cyllid a lleihau ein tîm o athrawon arbenigol, penderfynwyd buddsoddi yn y gwasanaeth drwy greu'r rôl newydd hon.

Mae rôl Swyddog Datblygu Athrawon yn cynnig dull gwahanol i'r gefnogaeth uniongyrchol i ddisgyblion a ddefnyddid yn y blynyddoedd blaenorol, ac yn gweithio mewn partneriaeth gydag athrawon dosbarth ac athrawon pwnc i gynllunio, darparu a gwerthuso gwersi gyda ffocws ar ofynion yr iaith a ddefnyddir.

Bwriad y dull cydweithredol hwn yw datblygu capasiti a hyder staff i ddiwallu anghenion dysgwyr SIY/CIY.

Gall y Swyddog Datblygu Athrawon SIY/CIY wneud y canlynol:

- cyfarfod â Chydlynwyr SIY/CIY i sicrhau bod data'n gyfredol a chefnogi'r broses o nodi a dyrannu camau
- gweithio gydag athrawon dosbarth unigol i ddadansoddi gofynion iaith gwersi ac arddangos strategaethau yn y dosbarth drwy ddull addysgu tîm
- cynorthwyo i ddatblygu dull ysgol gyfan i SIY/CIY, e.e. polisi SIY
- cefnogi mentrau megis Ysgol Noddfa.

Bwriedir y bydd amser y SDA yn cael ei ddyrannu i flociau wythnosol i ysgolion unigol, a byddant yn dychwelyd yn ddiweddarach yn y tymor neu'r tymor wedyn ar gyfer ymweliad dilynol. Mae'n hollol hyblyg, a bydd yn cael ei lywio gan yr hyn mae'r ysgol ei angen.

Mae hyn yn gweithio'n dda hyd yma, ond ers i newydd-ddyfodiaid o Wcráin gyrraedd, mae'r gefnogaeth a gynigir i ysgolion wedi ei daenu'n deneuach na'r hyn sy'n ddelfrydol.

Yr ydym ar hyn o bryd yn y broses o recriwtio SDA SIY/CIY ychwanegol ar gyfer ysgolion uwchradd ac un arall ar gyfer ysgolion cynradd.

**<u>Cefnogaeth Ddwyieithog</u>**

Mae gennym 5 CAD i gefnogi'r defnydd o iaith gyntaf mewn Arabeg a Phwyleg.

Mae tri o'r pump wedi cwblhau diploma mewn Ymarfer sy'n Seiliedig ar Drawma.

Yr ydym yn ffodus hefyd o gael rhywun sy'n siarad Wcreineg, sydd wedi cael secondiad i MEAS o Addysg yn y Cartref, ac mae'n siarad Cymraeg (a Saesneg).

Byddwn hefyd yn recriwtio 3 CAD Wcreineg ychwanegol yn y dyfodol agos. Gobeithir y byddwn yn gallu recriwtio rhai o'n newydd-ddyfodiaid i'r rolau hyn. Drwy weithio'n agos gyda gweithwyr allweddol, mae'n amlwg bod llawer o arbenigedd ymysg ein teuluoedd newydd.

Dylid nodi ein bod yn canfod y byddai well gan rai o'r teuluoedd gael cefnogaeth mewn Rwseg. Mae rhai o'r teuluoedd o ranbarth dwyreiniol Wcráin ac yn siarad y ddwy iaith, ond yn hapusach yn cyfathrebu mewn Rwseg. Yn yr achos hwn, mae ein CAD Pwyleg yn siarad Rwseg hefyd, ac mae wedi gallu darparu cefnogaeth lle mae angen.

**Victoria M. Owens**
**Rheolwr MEAS / Athrawes Ymgynghorol (Plant Lleiafrifoedd Ethnig, SIY, CIY, Ffoaduriaid, a Phlant y Lluoedd Arfog)**
MEAS Manager / Advisory Teacher (Minority Ethnic, EAL, WAL, Refugee and Service Children)
vmowens@carmarthenshire.gov.uk

## Astudiaeth Achos 6: Stori A




- **Gwybodaeth gefndir**

Yn ddiweddar, mae A wedi ei derbyn i flwyddyn 3 mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.

- **Yr heriau: beth wnaeth helpu, a beth a wnaeth dod i Gymru yn brofiad cadarnhaol**

Cyfarfu'r Athro SIY Wcreineg gyda'r pennaeth, yr athro dosbarth a mam A a'r sawl a oedd yn darparu llety iddynt. Yr oedd y fam yn falch o gael sgwrs mewn Wcreineg ac eglurder ynglŷn ag agweddau o ysgol newydd ei merch a sut oedd yn ymgartrefu.

Yr oedd y fam yn gallu trafod ei phryderon ynglŷn ag amser cinio, a'r bwyd a gynigir, a rhannwyd bwydlen wedi ei chyfieithu.

- **Profiadau addysgol / llwyddiannau yn yr ysgol**

Yr oedd yn gyfle i rannu sylwadau cadarnhaol iawn gan yr athro dosbarth a bod A yn ymgartrefu'n dda eisoes mewn dosbarth o 24, gyda grŵp bach o gyfeillion i'w chefnogi.

Dywedodd yr athro dosbarth hefyd fod A eisoes yn dysgu rhai geiriau a gorchmynion Cymraeg, gan fod yr athro'n defnyddio Google Lens a Microsoft Translate i gyfieithu o'r Gymraeg i Saesneg, ac ymlaen i Wcreineg. Mae A yn gwneud yn dda gyda'r dull hwn ac mae hefyd yn dysgu Saesneg sylfaenol.

Mae A yn dibynnu ar gortyn gwddf gyda geiriau a brawddegau hanfodol bob dydd arno. Sefydlwyd llyfr cyfathrebu â'r cartref ar gyfer cyfathrebu unrhyw negeseuon ac i wneud nodyn o themâu tymhorol, geiriau allweddol, a brawddegau, yn ychwanegol i ap cyfathrebu cartref/ysgol yr ysgol, sydd yn cynnwys meddalwedd gyfieithu.

Bu ein SDA yn ymweld a rhannu strategaethau i gynorthwyo A. Mae arddangosfeydd a labeli'r ystafell ddosbarth yn adlewyrchu geirfa allweddol yn ddwyieithog yn y Gymraeg, Saesneg ac Wcreineg. Cyfeiriwyd hefyd at ddolenni i adnoddau iaith ddeuol ac adnoddau ategol defnyddiol. Eto, gosodwyd Flash Academy.

- **Dyheadau a gobeithion ar gyfer y dyfodol**

Gwnaed cynlluniau ar gyfer ymweliad dilynol a chefnogaeth iaith gyntaf reolaidd, pan fydd y staff yn eu lle.

Bydd y teulu'n parhau i gadw mewn cysylltiad drwy'r gweithiwr allweddol.

## Astudiaeth Achos 7: Stori S



- **Gwybodaeth gefndir**

Dechreuodd S yr ysgol ym mlwyddyn 8 mewn ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg.

Dechreuodd yn yr ysgol rai dyddiau ar ôl i'w chwaer ddechrau yn yr ysgol gynradd fel ein bod yn gallu cynllunio ar ei gyfer a sicrhau bod rhywun yno i'w gefnogi ar ei ddiwrnod cyntaf. Yn anffodus, nid oeddem yn gallu cael rhywun a oedd yn siarad Wcreineg yn bresennol, fodd bynnag cyrhaeddodd ein SDA yn gynnar i siarad â'r Cydlynydd ADY i baratoi ar gyfer cyrhaeddiad S. Cyfarchwyd S gan ei Bennaeth Blwyddyn newydd a dau ddisgybl yn ei grŵp blwyddyn a oedd wedi eu pennu fel cyfeillion iddo.

- **Yr heriau: beth wnaeth helpu, a beth a wnaeth dod i Gymru yn brofiad cadarnhaol**

Yn anffodus, nid oeddem yn gallu cael rhywun a oedd yn siarad Wcreineg yn bresennol, fodd bynnag cyrhaeddodd ein SDA yn gynnar i siarad â'r Cydlynydd ADY i baratoi ar gyfer cyrhaeddiad S.

Cyfarchwyd S gan ei Bennaeth Blwyddyn newydd a dau ddisgybl yn ei grŵp blwyddyn a oedd wedi eu pennu fel cyfeillion iddo.

- **Profiadau addysgol / llwyddiannau yn yr ysgol**

Bu'r SDA'n cysgodi S drwy'r dydd, gan wneud defnydd o wahanol adnoddau cyfathrebu, a chan sicrhau ei fod yn deall ei amserlen a'i fod yn hapus.

Yr oedd yn gweithio ochr yn ochr â phob athro pwnc i ganolbwyntio ar yr iaith a ddefnyddid ym mhob gwers, a sut i wneud cynnwys y gwersi'n hygyrch i S drwy ddefnyddio rhestrau geiriau, fframiau ysgrifennu, trefnwyr gwybodaeth, meddalwedd gyfieithu a Wikipedia mewn Wcreineg.

Mae angen mwy o waith yn y maes hwn.

Bu'r athrawes gymorth Wcreineg yn ymweld y diwrnod canlynol a gweithiodd gyda S. Cyfarfu â mam S, a oedd â lefel dda o Saesneg, ond yr oedd yn falch o gael systemau'r ysgol wedi eu hegluro mewn Wcreineg, yn ogystal â ffyrdd y gall gynorthwyo S gartref.

Canfuwyd hefyd bod S yn deall ac yn siarad Rwseg. Felly yr ydym wedi gallu sefydlu cefnogaeth wythnosol ychwanegol gyda CAD arall.

Mae wedi ymgartrefu'n dda ac mae'n ddisgybl cydwybodol – mae'n gweithio'n galed i gofnodi'r holl eirfa newydd a chyfieithiadau. Mae'n defnyddio dysg flaenorol ac yn awyddus i arddangos ei wybodaeth i'w athrawon a'i gyfoedion.

- **Dyheadau a gobeithion ar gyfer y dyfodol**

Mae ein SDA wedi trefnu cyfres o ddyddiadau i weithio gydag athrawon pwnc S yn unigol i awgrymu strategaethau ac adnoddau ar gyfer pynciau penodol.

## Astudiaeth Achos 8: Stori Y



- **Gwybodaeth gefndir**

Mae'r astudiaeth achos hon yn ymwneud â disgybl Syriaidd, ond fe'i cynhwysir yma fel enghraifft o ddisgybl SIY sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae'n dangos sut mae'r anghenion hyn yn cael eu diwallu.

Derbyniwyd Y i flwyddyn 1 yn Ffrwd Saesneg ysgol gynradd ddwyieithog.

Fe'i ganwyd yn y DU. Mae ei deulu'n ffoaduriaid sydd wedi ymgartrefu, a gyrhaeddodd yn 2016.

- **Profiadau addysgol / llwyddiannau yn yr ysgol**

Dechreuodd y broses ADY i Y gydag atgyfeiriad gan ei ymwelydd iechyd ar ôl i'w rieni godi pryderon ac ar ôl arsylwi Y yn y cartref. Ar yr adeg yma, daeth Swyddog Arweiniol ADY Blynyddoedd Cynnar yr ALl – y rôl statudol newydd a ddeddfwyd gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 – i ymwneud â'r sefyllfa i gydlynu'r broses.

Gwnaed cyfres o asesiadau cyn ysgol gan Seicolegydd Addysg.

Ar ôl pob asesiad cynlluniwyd cyfarfod yn canolbwyntio ar yr unigolyn gyda'r rhieni i drafod a chymharu arsylwadau.

Mae gan frawd hŷn Y ADY hefyd, ac felly mae ei rieni’n gyfarwydd i raddau â chyfranogiad arbenigwyr ac yr oeddynt yn ddigon hyderus i ofyn i’r CAD sy’n cefnogi’r brodyr a chwiorydd hŷn, sydd wedi cefnogi’r rhieni mewn gwahanol gyfarfodydd o’r blaen, i gyfieithu drostynt.

Rhoddodd hyn y cyfle iddynt restru eu pryderon a chael rhywfaint o ddealltwriaeth o’r broses. Lluniwyd Proffil Un Dudalen gyda mewnbwn gan Y, yr oedd yn gallu cyfathrebu’r hyn mae’n ei fwynhau (canu a dawnsio) drwy’r CAD a thrwy wneud arwyddion.

- **Yr heriau: beth wnaeth helpu, a beth a wnaeth dod i Gymru yn brofiad cadarnhaol**

Oherwydd pandemig Covid-19, cynhaliwyd y cyfarfodydd diweddaraf ar-lein, ac mae hyn wedi symleiddio’r broses o weithio amlasiantaethol – nid yn unig er hwylustod i bawb ddod ynghyd heb orfod bod yn bresennol yn y cnawd, ond hefyd drwy alluogi creu dogfen ‘fyw’ gyda mewnbwn gan bawb sy’n cymryd rhan.

Dyma’r sail ar gyfer CDU Y. Nid oedd y rhieni’n gallu teipio ar y ddogfen, ond yr oeddynt yn gallu siarad am anghenion eu mab drwy gyfieithydd. Yr oedd y rhain wedyn yn cael eu nodi’n glir ar y ddogfen drwy god lliw.

- **Dyheadau a gobeithion ar gyfer y dyfodol**

Mae Y ar hyn o bryd yn pontio i Uned Arsylwi, lle bydd trefnau newydd a staff anghyfarwydd yn ei gefnogi.

Mae’r rhieni ac Y wedi ymweld â’r lleoliad ynghyd â’r CAD, a chawsant ofyn cwestiynau am y gefnogaeth.

Nid yw’r Cymhorthydd Addysgu a fydd yn rhoi cefnogaeth un-i-un iddo yn siarad Arabeg, ond bydd CAD yr ALl yno ar gyfer diwrnod cyntaf Y, a bydd yn ymweld yn wythnosol wedi hynny.

# Gwefannau Defnyddiol

| Tudalen we | Gwybodaeth |
|---|---|
| **Pennod 2 Cyd-destun**<br>**Pennod 8 Amrywiaeth** | |
| http://globaldimension.org.uk | Rhaglen Dysgu Byd-eang – Cymru<br>Meddwl yn Fyd-eang. |
| http://www.redcross.org.uk<br><br>Explore teaching resources at the British Red Cross | Adnoddau addysgu, delweddau o ffoaduriaid. |
| www.youtube.com/watch?v=RBQ-IoHfimQ<br><br>www.youtube.com/watch?v=nKDgFCojiT8 | Achub y Plant – 2 ffilm fer am ddod yn ffoadur. |
| www.estyn.llyw.cymru<br><br>Chwilio Adnoddau Gwella \| Estyn (llyw.cymru) | Canllawiau atodol ar arolygu cydraddoldeb hiliol, hyrwyddo perthynas dda a'r Saesneg fel iaith ychwanegol. |
| Schools of Sanctuary: Learn about asylum seekers and refugees and improve your school's welcome – Oxfam Policy & Practice | Oxfam – Ysgolion Noddfa. |
| Resources%20to%20<br>support%20classroon | Oxfam – adnoddau addysg. |
| Rights Respecting School Teaching Resources – UNICEF UK | Hawliau'r Plentyn, y Cenhedloedd Unedig. Pecyn Addysgu 'In Search of Safety'. |
| www.sendmyfriend.org | Mae Send My Friend yn creu'r adnoddau diweddaraf bob blwyddyn am blant sydd ar goll o'r ysgol. |
| www.britishcouncil.org/kids.htm<br><br>School and teacher resources \| British Council | Gweithgareddau rhyngweithiol ar gyfer y rheini y mae Saesneg yn newydd iddynt a CS/CA2 ac adnoddau amrywiaeth diwylliannol – rhaglenni porth byd-eang. |

| | |
|---|---|
| Show Racism the Red Card - Resources and Activities | Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Adnoddau ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn cynnwys gweithdai mewn ysgolion, DVD. |
| www.refugeeweek.org.uk<br><br>http://www.redcross.org.uk/en/What-we-do/Teaching-resources/Lesson-plans/Refugee-week-2017<br><br>www.redcross.org.uk/What-we-do/Teaching-resources/Quick-acivities/Images-of-refugees | Y Groes Goch: Wythnos y Ffoaduriaid – hyrwyddo empathi (mis Mehefin bob blwyddyn). |
| UNHCR – Teaching about Refugees<br><br>UNHCR – UNHCR Teaching About Refugees 2021 – Guide for Teachers<br><br>59d3572d7.pdf (unhcr.org)<br><br>7 videos guaranteed to change the way you see refugees – UNHCR Innovation<br><br>UNHCR Teaching About Refugees – YouTube<br><br>Who is a Refugee? – YouTube<br><br>Who is a Migrant? – YouTube<br><br>Who is an Internally Displaced Person? – YouTube<br><br>Who is an Asylum Seeker? – YouTube<br><br>Where do Refugees come from? – YouTube | Yn y grŵp oedran hwn gellir disgwyl y gall plant ganolbwyntio ar bwnc penodol am oddeutu ugain munud ar y tro, ac yn gynyddol hwy wrth iddynt gyrraedd 8 a 9 mlwydd oed.<br><br>Mae deunyddiau addysgu'n gofyn i blant ryngweithio gyda'u cyfoedion, athro ac, o bosibl, gyda deunyddiau eraill. Nid oes unrhyw weithgareddau darllen nac ysgrifennu gofynnol yn y garfan oed hon, ond anogir plant i ddefnyddio'r sgiliau hyn mewn grwpiau ac wrth iddynt dyfu'n hŷn.<br><br>Mae gan adnoddau YouTube animeiddiadau i egluro'r termau a ddefnyddir, e.e. ymfudwyr economaidd.<br><br>Tabl crynodeb Mae Geiriau'n Bwysig – poster i egluro'r termau a ddefnyddir. |

| | |
|---|---|
| UNHCR – Teaching materials ages 9-12<br><br>UNHCR – UNHCR Teaching About Refugees 2021 – 9-12 Main curriculum<br><br>UNHCR – Teaching About Refugees – 9-12 Lesson plan template | Prif gwricwlwm am ffoaduriaid, lloches a mudo ar gyfer plant 9-12 mlwydd oed, yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau cymdeithasol-emosiynol a hwyluso perthnasoedd cyfoedion, dathlu amrywiaeth, deall newydd-ddyfodiaid yn yr ystafell ddosbarth, a chreu amgylchedd heddychlon yn yr ystafell ddosbarth.<br>Mae'r gweithgareddau'n cymryd 10-20 munud. |
| UNHCR – Teaching materials ages 12-15<br><br>UNHCR – Teaching About Refugees – 12-15 Lesson plan template | Mae'r gweithgareddau yn yr ystod oedran hon yn canolbwyntio ar allu'r disgybl i roi mewn cyd-destun sut mae'r cysyniad a realiti ffoaduriaid yn ffitio i'w bywydau. Yr ydym yn canolbwyntio ar allu'r disgyblion i ddangos empathi a meithrin dealltwriaeth o gysyniadau sylfaenol am ffoaduriaid, lloches a mudo.<br>Ar yr un pryd, mae'r deunydd addysgu'n annog dechrau meddwl yn feirniadol. |
| UNHCR – Teaching materials ages 15-18<br><br>UNHCR – Teaching About Refugees – 15-18 Lesson plan template | Mae'r gweithgareddau yn yr ystod oedran hon yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau meddwl yn feirniadol ymysg disgyblion. Darperir ffeithiau a ffigyrau cywir o ffynonellau dibynadwy i gynyddu dealltwriaeth o |

| | |
|---|---|
| | bwnc ffoaduriaid, lloches a mudo.<br>Anogir disgyblion i gyflawni gweithgareddau er mwyn ymgorffori eu gwybodaeth i'w profiadau dyddiol. Gofynnir iddynt feddwl am sut mae eu bywydau'n cysylltu â bywydau ceiswyr lloches, ffoaduriaid, mudwyr a phobl heb wladwriaeth yn eu cymunedau ac yn fyd-eang. |
| Breaking the Silence on the Slave Trade – Black History Month 2022<br><br>Breaking the silence: the Transatlantic Slave Trade Education Project – UNESCO Digital Library<br><br>Simple Acts \| Refugee Week<br><br>Equality-and-diversity.pdf (unison.org.uk) | Adnoddau Mis Hanes Pobl Ddu.<br><br>Ymgyrch wych gan Refugee Week, yn llawn o awgrymiadau ymarferol am gamau gweithredu y gall pobl ifanc eu cyflawni. |
| Holocaust Memorial Day Trust | Thema wahanol bob blwyddyn (27 Ionawr). |
| Gypsy, Roma and Traveller History Month 2022 – Friends, Families and Travellers (gypsy-traveller.org)<br><br>Gypsy, Roma and Traveller month / Secondary / Historical Association (history.org.uk) | Yn rhoi gwybodaeth am Fis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr ym Mehefin. |
| Hafan \| Refugee Week | Ymgyrch wych gan Refugee Week, yn llawn o awgrymiadau ymarferol am gamau gweithredu y gall plant a phobl ifanc eu cyflawni. |
| Hafan – Dathlu Cartref<br><br>Refugee Week Wales – Sefydliad Bevan | Wythnos Ffoaduriaid Cymru 20-26 Mehefin 2022. |

| | |
|---|---|
| https://wrc.wales/?s=refugee+week+wales | |
| www.letterboxlibrary.com | Yn arbenigo mewn llyfrau y gall pob plentyn ei weld ei hun ynddynt, ac sy’n adlewyrchu cymuned ein byd yn ei holl amrywiaeth. |
| Resources & Publications \| The Children's Society (childrenssociety.org.uk) | Llyfrgell o adnoddau i gael darllen yr ymchwil a’r adroddiadau diweddaraf, datgelu gwerthusiadau o waith a chanfod arweiniad proffesiynol ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc. |
| Supporting refugee children arriving in your school (headteacher-update.com) | Rhestr wirio ar gyfer Penaethiaid ar gyfer cynhwysiant llwyddiannus. |
| English KS1 / KS2: 'Refugee Boy' by Benjamin Zephaniah – BBC Teach<br><br>The Journey – Children's Refugee Story w/ Music – YouTube | |
| **Penodau 3, 5, 6, 7, 9, Addysgu a Dysgu, a Chaffael Iaith** | |
| www.newburypark.redbridge.sch.uk | Syniadau gwych ar gyfer “Iaith y Mis”.<br>Adnodd clywedol o bob iaith. Yn fwy addas ar gyfer dysgwyr Cynradd neu'r rheini yn yr ysgol Uwchradd y mae Saesneg yn newydd iddynt. |
| EAL, ESL Online Learning Resources\| Books & Tools for Schools \| EMAS UK | Offer cyfieithu cyd-destunol gydag avatars, bysellfyrddau rhithwir ac adnoddau.<br>Ar gael mewn Arabeg, Mandarin, Rwseg, Wcreineg, Cymraeg. |

| | |
|---|---|
| | Angen tanysgrifio ond mae adnoddau am ddim ar gael. |
| www.mantralingua.com | Catalog o adnoddau i bawb, yn cynnwys 'Tusk Tusk', David McKee 'The Colour of Home', Mary Hoffman 'Azzi in Between', Sarah Garland. |
| Books about refugees and asylum seekers (older children) \| BookTrust<br><br>Books about refugees and asylum seekers (younger children) \| BookTrust | Llawer o destunau i'w defnyddio gyda phlant a phobl ifanc o bob oed. |
| Seeking Refuge – BBC Teach | Cyfres o bum stori wedi eu hanimeiddio, sydd wedi ennill gwobr BAFTA, sy'n rhoi cipolwg unigryw i fywydau pobl ifanc sydd wedi ceisio lloches yn y DU – wedi eu hadrodd gan y plant eu hunain. |
| www.englishraven.com | Adnoddau, gemau, cardiau fflach ac ati. Rhywbeth i bawb. |
| FlashAcademy® – Learning Platform for EAL, MFL & Literacy | Platfform Dysgu ar gyfer SIY, ITM a Llythrennedd. Aseiniadau wedi eu gosod, sy'n hawdd i'w ddefnyddio o bell – wrth bwyso botwm – ar gyfer dosbarthiadau llawn neu ddisgyblion unigol. Mae'r ieithoedd yn cynnwys Cymraeg, Dari, Cantoneg ac Wcreineg. Angen tanysgrifio ond mae adnoddau am ddim ar gael. |

| | |
|---|---|
| www.digitaldialects.com | Safle cynhwysfawr gyda nifer o ieithoedd. Yn cynnwys gemau rhyngweithiol sy'n ddefnyddiol i'r rheiny y mae Saesneg yn newydd iddynt, a dysgwyr caffael cynnar.<br>Adnoddau Pashto ar gael. |
| www.happychild.org.uk | Adnoddau mewn gwahanol ieithoedd, gemau. Wedi eu hanelu at bob lefel. |
| www.senteacher.org | Deunyddiau i'w hargraffu i oed cynradd, gwaelod oed uwchradd. |
| www.primaryresourcecentre.com | Adnoddau i'w prynu, mae rhai am ddim. Matiau ffeithiau ar gyfer gwyddoniaeth yn hynod o ddefnyddiol. |
| www.primaryresources.co.uk/letters/ | Yn cyfieithu gwybodaeth ysgol i ddetholiad o ieithoedd cartrefi. |
| www.bfinclusion.org.uk | Adnoddau ar gyfer disgyblion Cynradd ac Uwchradd. |
| Google Translate<br><br>Workplace communication training \| Newcastle Upon Tyne \| EnglishUnlocked | Adnodd defnyddiol; fodd bynnag, mae'n rhaid bod yn ofalus gan fod angen cyd-destun i gyfieithiadau.<br><br>Mae'r safle hon yn darparu hyfforddiant ar sut i ddefnyddio Google Translate yn gywir. |
| Mantra Lingua Dual language books, bilingual books, bilingual folktales | Ceir adnoddau hefyd ar gyfer disgyblion sydd â nam ar eu golwg. |

| | |
|---|---|
| The Ethnic Minority, Gypsy, Roma, and Traveller Achievement Service: (lancsngfl.ac.uk)<br><br>www.twinkl.co.uk<br><br>English – Ukrainian Dual Language Resources \| EAL \| Twinkl | Llawer o gymhorthion gweledol da i ddisgyblion y mae Saesneg yn iaith newydd iddynt, i helpu i lywio geirfa newydd. Amrywiaeth dda o adnoddau gweledol ac adnoddau dwyieithog i helpu disgyblion y mae Saesneg yn iaith newydd iddynt. Bydd angen i chi danysgrifio i gael mynediad at yr ystod lawn o adnoddau dwyieithog. |
| www.sparklebox.co.uk | Llawer o adnoddau gweledol i helpu disgyblion yn eu dyddiau cynnar yn yr ysgol. |
| Supporting EAL Learners with Word Cards \| English As An Additional Language – YouTube | |
| EAL HUB – High quality EAL resources, assessment and CPD | Pecynnau asesu; pyramid anghenion SIY ar gyfer dysgwyr SIY.<br>Hefyd yn cefnogi cynhwysiant ac ADY. |
| EAL resources – Schools (norfolk.gov.uk) | Adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu disgyblion SIY mewn ysgolion ac yn y cartref. |
| Fframwaith Asesu SIY – The Bell Foundation (bell-foundation.org.uk) | Mae **Fframwaith Asesu SIY i Ysgolion** (Fersiwn 2.0) a’r Traciwr Asesu SIY digidol newydd gan y Bell Foundation ar gael yn rhad ac am ddim i’r holl ysgolion yn y DU. |

| | |
|---|---|
| https://naldic.org.uk/eal-teaching-and-learning/eal-resources/ | NALDIC<br>SIY, ADY, Cynhwysiant |
| EAL Teaching Resources \| Teach Starter | Adnoddau ar gyfer pob oed. |
| Free EAL Resources at the Learning Village | Adnoddau rhad ac am ddim. |
| Resources for EAL teachers (education.vic.gov.au) | Ystod o adnoddau Awstralaidd am ddim, yn cynnwys cwricwlwm ar gyfer iaith Saesneg. |
| EAL HIGHLAND – Supporting Bilingual Learners of English in Highland Schools<br><br>EAL Support Pack for Secondary Schools – EAL HIGHLAND | Adnoddau mewn llawer o ieithoedd, gan gynnwys Wcreineg, Mandarin, Cantoneg, Rwseg. |
| Secondary – EAL in Practice | Adnoddau a dolenni i wefannau eraill, gan gynnwys pecynnau gwaith newydd-ddyfodiaid. |
| Teaching EAL Pupils (acceal.org.uk) | Gwasanaeth SIY Dinas Aberdeen. |
| The EAL Toolkit (584 downloads) | Llawer o strategaethau a syniadau ar gyfer cefnogi disgyblion SIY gan Mike Gershon. |
| EAL Resources From TTS (tts-group.co.uk) | Adnoddau, gan gynnwys gemau. |
| Useful Resources Online – EAL Children | EAL / ESL – Primary Texts<br>Adnoddau Saesneg ar gyfer CA1 a CA2. |

| | |
|---|---|
| EAL \| PDST | Datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon. |
| Free resources for EAL \| Teach Primary | Adnoddau am ddim ar gyfer SIY cynradd. |
| Oak National Academy (thenational.academy)<br><br>Can I use Oak in other languages? (thenational.academy) | Llawer o adnoddau addysgu a dysgu i bob disgybl ac i ddisgyblion SIY.<br>Canfyddwch sut i gyfieithu'r adnoddau hyn i ieithoedd eraill.<br>Ystafell ddosbarth ar-lein i ddisgyblion.<br>Ceir cwricwla wedi eu trefnu'n llawn ac adnoddau gwersi i'w lawrlwytho, addasu a'u defnyddio yn yr ystafell ddosbarth neu o bell. |
| Supporting EAL Learners with Word Cards \| English As An Additional Language – YouTube | Arddangosiad defnyddiol. |
| Graphic Facilitation — SEND-Station (sendstation.co.uk) | Gwefan SEND Station Sarah Singleton – hyfforddiant ar gael, caffael iaith, Arch yr Wyddor, Hwyluso Graffeg. |
| Graphics – Free Downloads – North Star Paths | Llawer o adnoddau gweledol allweddol am ddim. |
| **Pennod 4 Gofal Bugeiliol a Lles**<br>**Pennod 10 Diogelu**<br>**Pennod 11 Trawma** | |
| ACE Aware Wales – Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)<br><br>Beth yw ACEs – Ace Aware Wales | Mae Hwb Cymorth ACE wedi ei sefydlu gan gydweithrediad gwirfoddol o'r enw Cymru Well Wales, i'ch cefnogi i |

| | |
|---|---|
| | wneud newidiadau sy'n gwneud Cymru'n arweiniol yn y gwaith o fynd i'r afael ag ACEs a'u hatal. Gan weithio gyda chi, ein pwrpas yw rhannu syniadau, dysgu, herio a newid ffyrdd o weithio fel ein bod, gyda'n gilydd, yn gallu torri cylch ACEs. |
| ICAM Programme (icamproject.eu)<br><br>**Adnoddau i'w lawrlwytho:**<br>A. ICAM Ukrainian Children Inclusion in Schools Brief Guide for Schools<br><br>B. Primary Schools Resources Pack<br><br>C. Secondary Resource Pack<br><br>Short%20ppt%20teachers%20Trauma.p Handout%201%20Responding%20to%2 | Pecynnau adnoddau cynhwysfawr ac arweiniad. |
| How to promote resilience and recovery – UKTC (uktraumacouncil.org)<br><br>How to support refugee and asylum-seeking children and young people who have experienced trauma – UKTC (uktraumacouncil.org) | UK Trauma Council. |
| UNHCR – HCDC Executive Function Activities for 5 to 7 year old<br>UNHCR – HCDC Executive Function Activities for 7 to 12 year old | Effeithiau straen a thrawma ar ddysgu. Mae gweithrediad goruchwyliol yn aml dan fygythiad pan fo plant yn profi straen a thrawma. Mae'r fideo hwn gan Center on the Developing Child, Prifysgol Harvard, yn egluro'r heriau dysgu a all effeithio ar blant sy'n dioddef o straen a thrawma, a'r wyddoniaeth y tu ôl i'r heriau hyn. |

| | |
|---|---|
| The Children's Society \| UK children's charity (childrenssociety.org.uk) | Cymdeithas y Plant. Adnoddau defnyddio ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc gyda thrawma, adnabod trawma, straen ac Anhwylder Straen Wedi Trawma. |
| Resources to support classroom conversations about Ukraine (headteacher-update.com) | Mae nifer o adnoddau ar gael i gynorthwyo staff ysgolion i siarad â phlant a phobl ifanc am ymosodiad Rwsia ar Wcráin. |
| Simple & safe questions (beaconhouse.org.uk)<br><br>Hidden Needs (beaconhouse.org.uk)<br><br>Talking to children about war and conflict (beaconhouse.org.uk)<br><br>3-stages-of-brain-development-2.jpg | Gwefan dda ar gyfer egluro Anhwylder Straen Wedi Trawma, a thrawma. Adnoddau defnyddiol. |
| Safeguarding and promoting the welfare of unaccompanied asylum seeking children and young people: all Wales practice guidance – Social Care Online (scie-socialcareonline.org.uk) | Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan. |
| Ukraine Refugees: How to Help \| Achub y Plant<br><br>Resources in Ukrainian, Polish, Slovak and Hungarian – Keeping Children Safe | Mae Keeping Children Safe yn cynnig cymorth technegol diogelu ac adnoddau i sefydliadau sy'n cefnogi ffoaduriaid o Wcráin. |
| Cartrefi i Wcráin: canllawiau i awdurdodau lleol [HTML] \| LLYW.CYMRU | Canllawiau Cymru gyfan – diogelu. |
| Guidance for protecting displaced and refugee children in and outside of Ukraine \| UNICEF | Sut mae awdurdodau a gweithwyr cymorth yn gallu cadw plant sydd wedi eu dadleoli gan y rhyfel yn Wcráin yn |

| | |
|---|---|
| | ddiogel rhag cael eu masnachu, a rhag ffurfiau eraill o gamfanteisio a chamdriniaeth. |
| Atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol: cynllun gweithredu cenedlaethol \| LLYW.CYMRU | Canllawiau Llywodraeth Cymru. |
| afg-report-Child Marriage in Afghanistan.pdf (unicef.org) | Adroddiad am briodas plant o Affganistan. |
| Forced marriage: Dina's story \| Childline | Fideo am ddioddefwraig priodas dan orfod. |
| Priodas dan orfod: canllawiau i weithwyr proffesiynol \| LLYW.CYMRU | Canllawiau Llywodraeth Cymru.<br>Trais ar Sail Anrhydedd. |
| Shahina's story – an account of Honour Based Abuse – Bing video | Hanes priodas dan orfod a thrais ar sail anrhydedd. |
| Culture must never be used as a justification for “honour violence” \| Diana Nammi \| TEDxEastEnd – YouTube | Culture must never be used as a justification for “honour violence” \| Diana Nammi. |
| Fighting forced marriages and honour based abuse \| Jasvinder Sanghera \| TEDxGöteborg – YouTube | Fighting forced marriages and honour-based abuse \| Jasvinder Sanghera. |
| Beth yw priodas dan orfod? – Cymorth i Ferched Cymru (welshwomensaid.org.uk/cy) | Cyngor asiantaeth gefnogaeth. |
| Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod: sut i gael help \| LLYW.CYMRU<br><br>Anffurfio organau cenhedlu benywod: canllawiau i weithwyr proffesiynol \| LLYW.CYMRU | Dylech ddarllen y canllawiau hyn am anffurfio organau cenhedlu benywod ochr yn ochr â chanllawiau diogelu eraill, gan gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): |

| | |
|---|---|
| Safeguarding Children: Working Together Under the Children Act 2004 \| www.basw.co.uk | • Working Together to Safeguard Children (2015) in England<br>• Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 (2007) yng Nghymru<br>• Multi-agency statutory guidance on female genital mutilation – GOV.UK (www.gov.uk) |
| www.fgmelearning.co.uk | Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant: Adnoddau E-ddysgu Ychwanegol ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol (gan gynnwys athrawon, yr heddlu, staff Llu'r Ffiniau ac ymwelwyr iechyd), wedi eu datblygu gan y Swyddfa Gartref. **Sylwer: Mae'n rhaid cofrestru er mwyn cael mynediad at y cwrs.** |
| Modern slavery training: resource page – GOV.UK (www.gov.uk) | Mae'r adnodd hwn wedi ei ddylunio i rannu enghreifftiau o gynnyrch hyfforddi sydd ar gael i weithwyr proffesiynol y sector cyhoeddus ac unigolion eraill a allai ddod ar draws dioddefwyr, er mwyn bod o gymorth i godi ymwybyddiaeth, sylwi'n well ar yr arwyddion a chynyddu hyder i roi gwybod am gaethwasiaeth fodern pan geir achosion posibl. |

| | |
|---|---|
| Female genital mutilation: resource pack – GOV.UK (www.gov.uk) | Canllawiau Llywodraeth Cymru. |
| Taliban trying to force Afghan girls as young as 13 into marriage (thenationalnews.com) | Adroddiad newyddion. |
| Violence against children: overview \| European Union Agency for Asylum (europa.eu) | Adroddiad cynhwysfawr. |
| Hong Kong's new rules have created confusion in the classroom. Some parents are pulling their children out – CNN<br><br>Hong Kong national security law: What is it and is it worrying? – BBC News | Adroddiadau newyddion am gyfreithiau diogelwch newydd yn Hong Kong a'r effaith. |
| Noddfa \| Choose a path (llyw.cymru) | Mae'r wefan hon wedi ei chreu i gynorthwyo ceiswyr noddfa i ddeall eu hawliau. Gallwch ddefnyddio'r wefan mewn llawer o wahanol ieithoedd.<br>Defnyddiwch y blwch 'Dewis Iaith' i ganfod iaith briodol. |
| Schools / Organisations (traumainformedschools.co.uk) | Yn darparu hyfforddiant i ysgolion, cymunedau a sefydliadau fel y byddant yn cael eu llywio gan drawma. |
| Using PACE in School (oxfordshire.gov.uk) | Mae'r daflen hon wedi ei dylunio i gynorthwyo i gael rhyngweithiadau effeithiol, sy'n grymuso, gyda phlant sydd wedi profi trawma ac nad ydynt, o ganlyniad, yn ymateb i chi yn yr un ffordd â phlant eraill yr ydych yn eu dysgu. |